Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Fframwaith Rheoleiddio

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English

**www.medr.cymru**

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

# Cynnwys

Dull Rheoleiddio ..... 2
Dull o Fonitro ..... 10
Manylion Atodol: Digwyddiadau y Mae'n Rhaid eu Hadrodd ..... 29
Amod: Cynaliadwyedd Ariannol ..... 37
Manylion Atodol: Ymrwymiadau Ariannol - Monitro'r Broses Lywodraethu ..... 43
Amod: Llywodraethu a Rheoli (gan gynnwys Rheoli Ariannol) ..... 50
Manylion Atodol: Llywodraethu a Rheoli (Gan Gynnwys Rheoli Ariannol) ..... 56
Manylion Atodol: Rheoli Ariannol ..... 59
Manylion Atodol: Rheoli Ystadau ..... 61
Manylion Atodol: Elusennau Esempt ..... 63
Manylion Atodol: Gwasanaethau Archwilio Allanol ..... 64
Amod: Ansawdd a Gwelliant Parhaus ..... 66
Amod: Lles Staff a Dysgwyr ..... 69
Manylion Atodol: Lles Staff a Dysgwyr ..... 71
Amod: Y Gymraeg ..... 77
Amod: Diogelu Dysgwyr ..... 83
Canllawiau Statudol ar Baratoi a Diwygio Cynlluniau Diogelu Dysgwyr ..... 86
Amod: Cod Ymgysylltu â Dysgwyr ..... 100
Amod: Cyfle Cyfartal ..... 102
Manylion Atodol: Cyfle Cyfartal ..... 105
Amod: Gweithdrefnau Cwyno ..... 115
Amod: Sylw i Gyngor neu Ganllawiau ..... 117
Amod: Gwybodaeth, Cymorth a Mynediad ..... 120
Amod: Trefniadau Dilysu ..... 122
Amod: Statws Elusennol ..... 126
Amod: Gwybodaeth a Ddarperir i Ddarpar Fyfyrwyr ..... 128
Amod: Terfynau Ffioedd ..... 130
Templed ar gyfer Datganiad Terfyn Ffioedd ..... 133
Amod: Hysbysu am Newidiadau sy'n Effeithio ar Gywirdeb Gwybodaeth yn y Gofrestr ..... 138
Amod: Statws fel Darparwr Addysg Drydyddol yng Nghymru ..... 141

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

## Dull Rheoleiddio

1.1. Mae dull rheoleiddio Medr yn nodi'r egwyddorion arweiniol a fydd yn sail i gyflawni ein dyletswyddau rheoleiddio, yn unol â gofynion **Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022** (y Ddeddf) gyda'r nod o gyflawni ein gweledigaeth "... i alluogi system addysg drydyddol ac ymchwil sy'n canolbwyntio ar anghenion dysgwyr, cymdeithas a'r economi, gyda rhagoriaeth, cydraddoldeb, ac ymgysylltiad yn greiddiol iddi". Fel y corff sy'n atebol i Weinidogion Cymru am oruchwylio addysg drydyddol, rydym yn ymrwymedig i reoleiddio mewn modd sy'n dryloyw, yn gymesur, yn gyson ac yn seiliedig ar risg, gan gyd-fynd yn fanwl â'n gwerthoedd, sef Dysgu, Cydweithio, Cynnwys Pawb a Rhagori.

1.2. Mae ein dull yn ymwneud nid dim ond â gorfodi safonau, ond hefyd â gweithio ar y cyd â darparwyr addysg a rhanddeiliaid i gyflawni deilliannau a rennir. Bydd hyn yn cael ei oleuo gan ddata a mathau eraill o dystiolaeth sy'n ein helpu i arfer crebwyll, gan roi cyfrif am yr amrywiaeth o gyd-destunau a chenhadaeth sy'n trefnu addysg drydyddol ledled Cymru. Rydym yn deall bod tirwedd addysg drydyddol yn gymhleth ac yn ddeinamig, gan olygu bod angen Fframwaith Rheoleiddio sy'n gadarn ac yn addasadwy i anghenion dysgwyr, cymdeithas a'r economi.

1.3. Mae athroniaeth reoleiddio Medr, sy'n cyd-fynd yn fanwl â'n gwerthoedd craidd, yn integreiddio cryfderau rheoleiddio sy'n seiliedig ar reolau (cydymffurfedd) a rheoleiddio sy'n seiliedig ar nodau (gwella'n barhaus). Mae arnom eisiau i ddarparwyr nid yn unig gydymffurfio'n unigol â'n gofynion rheoleiddio, ond hefyd hybu'r sector trydyddol, er budd Cymru. Yn y cyd-destun hwn, rydym yn disgwyl i ddarparwyr gynnal ymdeimlad o berchnogaeth ar eu cyfrifoldebau, gan feddu ar hyder i hysbysu am faterion cydymffurfedd pan fydd pethau'n mynd o chwith, a cheisio llywio gwelliannau'n barhaus.

1.4. Nod y dull hwn yw darparu sector addysg drydyddol ac ymchwil cadarn, cynhwysol a blaengar sy'n gallu ymateb i heriau yn y presennol a'r dyfodol.

## 1.5. Cyd-destun Strategol

1.5.1. Caiff ein dyletswyddau rheoleiddio eu grymuso gan y Ddeddf ac maent yn cyfrannu at gyrraedd y nodau strategol yn ein Cynllun Strategol. Mae'r cynllun hwn yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf, a oleuwyd gan flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r dyletswyddau a nodir yn y Ddeddf. Mae'n ofynnol i Medr baratoi cynllun strategol sy'n nodi sut y bydd yn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn a sut y bydd yn cyflawni'r dyletswyddau strategol a roddir iddo o dan y Ddeddf.

1.5.2. Trwy gysoni ein dull rheoleiddio â blaenoriaethau a disgwyliadau cenedlaethol, ein nod yw bod darparwyr addysg drydyddol yn cymryd cyfrifoldeb am gyfrannu'n gadarnhaol at amcanion cymdeithasol ac economaidd ehangach Cymru.

## 1.6. Nodau Strategol

1.6.1. Yn sail i'n dull o reoleiddio'r sector, a thrwy ymgynghori helaeth, byddwn yn cyflawni ein dyletswyddau rheoleiddio yn unol â'n nodau strategol:

- **Sicrhau bod y sector addysg drydyddol yn canolbwyntio ar anghenion y dysgwr**
    - **Amcan rheoleiddio:** Mae buddiannau pob math o ddysgwyr yn cael eu diogelu trwy atal arferion addysgol gwael neu ddulliau gwael o ymdrin â llesiant
    - **Dull rheoleiddio:** Bydd Medr yn ymgysylltu'n agos â dysgwyr ac yn gwneud eu llais yn ganolog i brosesau gwneud penderfyniadau. Byddwn yn rheoleiddio mewn ffordd sy'n disgwyl i ddarparwyr ganolbwyntio ar anghenion, profiadau a deilliannau dysgwyr o bob math, a rhoi sylw iddynt.
- **Creu system addysg drydyddol hyblyg a chydgysylltiedig lle gall pawb gaffael y sgiliau a'r wybodaeth y mae eu hangen arnynt ar gyfer economi a chymdeithas sy'n newid**
    - **Amcan rheoleiddio:** Mae rheoleiddio a chyllid wedi'u cydgysylltu ar draws addysg drydyddol, sy'n gwella cyfle cyfartal trwy leihau i'r eithaf y rhwystrau i allu dysgwyr i gamu ymlaen
    - **Dull rheoleiddio:** Bydd Medr yn gweithio gyda darparwyr a chyflogwyr i reoleiddio mewn ffordd sy'n adlewyrchu dealltwriaeth am y farchnad lafur a bod dysgwyr o bob cefndir yn camu ymlaen rhwng gwahanol fathau o addysg drydyddol a gwaith trwy gydol bywyd, gan gaffael gwybodaeth a sgiliau a fydd yn gwella eu bywydau.
- **Sicrhau bod dysgwyr yn cael darpariaeth o'r ansawdd gorau mewn system addysg drydyddol sy'n ymegnïo i wella'n barhaus**

- **Amcan rheoleiddio:** Diwylliant o wella'n barhaus sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau cadarnhaol i ddysgwyr, yn codi safonau sylfaenol ac yn lleihau'r tebygolrwydd o brofiad o ansawdd gwael
- **Dull rheoleiddio:** Bydd Medr yn gweithio gyda darparwyr i adnabod a chynnal gofynion ansawdd trylwyr ar gyfer addysg drydyddol, sy'n rhoi hyder ac yn llywio gwelliant, gan hybu cyfle cyfartal hefyd. Bydd ein Fframwaith Ansawdd yn disgwyl i ddarparwyr ddangos safonau ansawdd uchel, gan ystyried eu gwahanol gyd-destunau a chenadaethau wrth i ni gymhwyso dull system gyfan, fel bod gwelliannau o fewn darparwyr unigol ac ar draws addysg drydyddol yn ei chyfanrwydd.

- **Datblygu ymchwil o fri rhyngwladol a rhoi ysbrydoliaeth i arloesi drwyddi draw yn y sector addysg drydyddol**

  - **Amcan rheoleiddio:** Diogelu uniondeb a chapasiti ymchwil ac arloesi trwy atal arferion neu amodau a allai erydu ansawdd, lleihau cynwysoldeb, neu danseilio cynaliadwyedd

  - **Dull rheoleiddio:** Bydd Medr yn gweithio gyda darparwyr a'r llywodraeth i gefnogi ymchwil ac arloesi sy'n gynaliadwy ac a gyflawnir ag uniondeb. Byddwn yn rheoleiddio mewn ffordd sy'n disgwyl i ddarparwyr feithrin amgylcheddau a diwylliannau ymchwil ac arloesi sy'n gynhwysol. Trwy hybu cyfle cyfartal, byddwn yn galluogi cyfranogiad mwy amrywiol mewn gyrfaoedd ymchwil ac arloesi.

- **Hybu mwy o ddefnydd o'r Gymraeg, gan gynyddu'r galw am ddysgu ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg, a chyfranogiad ynddi**

  - **Amcan rheoleiddio:** Mae mwy o fynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o ansawdd, gydag anogaeth a chymorth i gyfranogi ynddi, yn helpu i ddiogelu'r Gymraeg ac yn ategu dyhead Llywodraeth Cymru am filiwn o siaradwyr Cymraeg

  - **Dull rheoleiddio:** Bydd Medr yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddatblygu cynllun cenedlaethol ar gyfer addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg. Gan ddefnyddio'r cynllun hwnnw fel sail, byddwn yn rheoleiddio mewn ffordd sy'n herio darparwyr i ehangu a gwella darpariaeth, o ran ei hansawdd a'i hygyrchedd, i annog galw am y ddarpariaeth honno a chyfranogiad ynddi, gan hefyd hybu mwy o ddefnydd o'r iaith ar draws pob amgylchedd trydyddol.

## 1.7. Ein Hathroniaeth Reoleiddio

1.7.1. Caiff ein hathroniaeth reoleiddio ei harwain gan ddull cymesur, seiliedig ar risg sy'n cyfuno eglurder rheoleiddio seiliedig ar reolau â disgwyliadau ar gyfer gwella'n barhaus ar draws addysg drydyddol yng Nghymru. Byddwn yn cydweithio'n agos â dysgwyr a darparwyr ar ddylunio ein Fframwaith Rheoleiddio, gan gynnwys profi sut y bydd ein dull a'n systemau rheoleiddio'n gweithio ar draws amrywiaeth o senarios. Byddwn yn darparu eglurder ynghylch ein gofynion rheoleiddio, gan gymryd camau ymyrryd a gorfodi lle byddwn yn adnabod achosion o ddiffyg cydymffurfio neu berfformiad gwael. Byddwn hefyd yn gweithio gyda dysgwyr,

darparwyr a'r llywodraeth i werthuso effeithiau ein dull rheoleiddio, fel ein bod yn ei wella dros amser er budd Cymru.

1.7.2. Mae ein dull rheoleiddio'n cyfuno sawl agwedd ar yr arddulliau rheoleiddio hynny. Byddwn yn pennu rheolau clir, gorfodadwy sy'n sefydlu disgwyliadau gofynnol ar gyfer cydymffurfio, gan sicrhau bod darparwyr yn deall eu rhwymedigaethau ac yr ymdrinnir â diffyg cydymffurfio ag ymyriad cymesur. Mae ein dull sy'n seiliedig ar risg yn golygu y bydd ein camau gweithredu yn gymesur â pherfformiad a chapasiti darparwyr. Bydd hyn yn ein galluogi i gynyddu neu leihau goruchwyliaeth i adlewyrchu lefelau amrywiol o risg a pherfformiad, ac arfer cydymddiriedaeth â darparwyr cyfrifol gan ganolbwyntio ymdrechion rheoleiddio lle mae eu hangen fwyaf. Ar yr un pryd, trwy ganolbwyntio ar ddull sy'n seiliedig ar nod trwy ddeilliannau mesuradwy, rydym yn annog darparwyr i ganolbwyntio ar gyrraedd y nodau cyffredin sydd gennym i gyd ar gyfer dysgwyr yng Nghymru. Yn ganolog i'r athroniaeth hon mae ymrwymiad i hunan reoleiddio a chyfrifoldeb sefydliadol, gan rymuso darparwyr i reoli risgiau mewn modd rhagweithiol a sicrhau atebolrwydd i'w dysgwyr a'u rhanddeiliaid. Bwriad ein hathroniaeth yw gwireddu ein gweledigaeth a bydd yn cael ei harwain gan ein gwerthoedd craidd:

1.7.3. **Dysgu:** Mae dysgu yn treiddio i bob rhan o'n dull rheoleiddio, gan daro cydbwysedd rhwng cryfderau fframweithiau rheoleiddio sy'n seiliedig ar reolau a fframweithiau rheoleiddio sy'n seiliedig ar nodau. Mae dull sy'n seiliedig ar reolau'n darparu safonau sylfaenol eglur, cyson i ddarparwyr eu dilyn, gan sicrhau bod pawb yn cydymffurfio â gofynion hanfodol. Trwy alinio hyn â rheoleiddio seiliedig ar nodau ar gyfer amodau priodol, byddwn hefyd yn annog darparwyr i arloesi yng nghyd-destun eu cenadaethau penodol, a gwella'n barhaus.

**Cydymffurfedd a gwella:** Bydd Medr yn hybu amgylchedd rheoleiddio lle mae darparwyr yn cael eu hannog i ddysgu a thyfu, gan ateb nid dim ond y gofynion sylfaenol ond gan hefyd fynd ar drywydd deilliannau ehangach, uchelgeisiol sy'n cyfrannu at ragoriaeth gyffredinol system addysg drydyddol Cymru.

**Ymateb i adborth:** Er mwyn lleihau ansicrwydd a biwrocratiaeth i'r eithaf, ni fyddwn ond yn newid ein gofynion rheoleiddio sylfaenol yn ddetholus ac yn dilyn ymgynghori, ond byddwn hefyd yn hunan-fyfyriol, gan geisio adborth gan ddysgwyr a darparwyr am effeithiau ein gweithgarwch rheoleiddio, fel y gallwn wella ein dull dros amser.

1.7.4. **Cydweithio:** Mae cydweithio yn un o gonglfeini rheoleiddio effeithiol. Trwy weithio'n agos gyda rhanddeiliaid a'u cynnwys, byddwn yn gosod disgwyliadau rheoleiddio sydd nid yn unig yn cael eu deall ac yn orfodadwy, ond sydd hefyd yn cyd-fynd â chenadaethau amrywiol addysg drydyddol ledled Cymru. Drwy ein dulliau rheoleiddio, rydym hefyd am hybu cydweithredu rhwng darparwyr, fel bod llwybrau clir i ddysgwyr, bod mewnwelediadau, arferion da ac adnoddau'n cael eu rhannu, a bod dyblygu'n digwydd dim ond lle mae hyn yn angenrheidiol i ateb y galw.

**Dyluniad rheoleiddio:** Bydd Medr yn datblygu ac yn profi amodau rheoleiddio mewn partneriaeth â dysgwyr a darparwyr, fel y ceir y lefel a ddymunir o gydymffurfedd a chyfraniad at flaenoriaethau strategol Medr ar lefel darparwyr ac ar draws y sector. Bydd hyn yn helpu darparwyr i gysoni eu deilliannau strategol

eu hunain â'n gofynion rheoleiddio ni, a deall sut y gellid eu cyflawni trwy gydweithio â darparwyr a phartneriaethau eraill.

**Canlyniadau cyffredin:** Trwy gydweithio, bydd Medr a'i bartneriaid, gan gynnwys rheoleiddwyr ac arolygiaethau eraill yn ogystal â darparwyr, yn gweithio tuag at amcanion cyffredin, gan sicrhau bod y Fframwaith Rheoleiddio'n ategu'r uchelgais ar y cyd i wella deilliannau addysgol i bob dysgwr yng Nghymru.

1.7.5. **Cynnwys pawb:** Mae cynnwys pawb yn mynnu bod gan bob dysgwr gyfleoedd cyfartal i gael budd o brofiadau a deilliannau addysgol o ansawdd da. Mae hyn yn cynnwys meithrin amgylcheddau dysgu diogel a chynhwysol, a hefyd cyflawni ein gweithgarwch rheoleiddio mewn ffordd sy'n sensitif i amrywiaeth dysgwyr a darpariaeth drydyddol ledled Cymru.

**Safonau cyffredin:** Mae dull seiliedig ar reolau Medr yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr ymlynu wrth ofynion sylfaenol, fel y gall pob dysgwr fod â hyder am y darparwr y maent yn astudio ynddo.

**Hybu gwelliant:** Bydd darparwyr yn cael eu herio i bennu a chyflawni deilliannau mesuradwy, yng nghyd-destun eu cenadaethau penodol, fel eu bod yn gwella ansawdd a chyfle cyfartal y tu hwnt i'r gofynion sylfaenol.

1.7.6. **Rhagori:** Byddwn yn mynd ar drywydd rhagoriaeth ar draws pob agwedd ar waith Medr. Byddwn yn cynorthwyo darparwyr i ddarparu sector addysg drydyddol yng Nghymru sydd nid yn unig yn cwrdd â'r disgwyliadau cyfredol, ond sydd hefyd yn ymegnïo i sicrhau gwelliant parhaus a chystadleurwydd rhyngwladol.

**Disgwyliadau ac atebolrwydd:** Bydd ein system reoleiddio newydd yn sefydlu disgwyliadau uchel ar gyfer darparwyr, y sector addysg drydyddol a Medr ei hun. Byddwn yn casglu, yn cyfleu ac yn gweithredu ar ddata a mathau eraill o dystiolaeth sy'n helpu i ddeall perfformiad ar draws y lefelau hyn.

**Hybu arloesedd:** Mae dull Medr o fynd ar drywydd gwelliant parhaus yn annog darparwyr i arloesi a mynd ar drywydd rhagoriaeth mewn ffyrdd sy'n cyd-fynd â'u cryfderau a'u dyheadau unigryw, ac sy'n cyflawni lefelau uwch o berfformiad, gan ddwyn budd i ddysgwyr, cymdeithas a'r economi.

## 1.8. Ein Hegwyddorion Rheoleiddio

1.8.1. Dyma'r egwyddorion a fydd yn darparu fframwaith ar gyfer sut yr ydym yn sefydlu ac yn ateb ein gofynion rheoleiddio.

1. **Arweiniad ac adnoddau eglur:** Rydym yn cyhoeddi arweiniad gydag esboniadau clir o'r gofynion, gan alluogi darparwyr i ateb gofynion rheoleiddio a chyflawni deilliannau a ddymunir. Dros amser, bydd hyn yn cynnwys rhannu enghreifftiau o arferion da ar draws y sector addysg drydyddol i lywio gwelliant parhaus.

2. **Cyfathrebu tryloyw:** Rydym yn cyfathrebu'n glir ynglŷn â goblygiadau diffyg cydymffurfio, gan sicrhau bod darparwyr yn deall canlyniadau methu â chyflawni eu dyletswyddau rheoleiddio. Mae'r tryloywder hwn yn meithrin diwylliant o atebolrwydd ac yn hybu cydymffurfedd rhagweithiol. Gallwn

gyhoeddi gwybodaeth sy'n tynnu sylw at welliant parhaus neu achosion o ddiffyg cydymffurfio a pherfformiad gwael, lle yr ystyriwn fod hynny'n briodol er budd dysgwyr a'r cyhoedd ehangach.

3. **Lleihau'r baich i'r eithaf:** Rydym yn ystyried goblygiadau ein prosesau rheoleiddio ar gyfer llwyth gwaith, gan gynnwys trwy fewnwelediadau gan y gweithlu addysg drydyddol, i helpu i leihau biwrocratiaeth i'r eithaf a grymuso darparwyr i ganolbwyntio ar ddarparu addysg drydyddol ac ymchwil.

4. **Datblygu rheoliadau a phrosesau ar y cyd:** Rydym yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys rheoleiddwyr, arolygiaethau neu gyrff cyhoeddus perthnasol eraill, i ddatblygu prosesau rheoleiddio sy'n cyd-fynd â'u gofynion hwy eu hunain. Trwy ymgysylltu ac ymgynghoriadau, rydym yn sicrhau bod ein rheoliadau'n cael eu goleuo gan y rhai y maent yn effeithio arnynt, gan daro cydbwysedd rhwng anghenion darparwyr ar y naill law a gofynion y Ddeddf ar y llaw arall. Mae'r dull hwn yn helpu darparwyr i ddeall disgwyliadau rheoleiddio yn well a'u hintegreiddio o fewn eu gweithrediadau.

5. **Ymgysylltu:** Rydym yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i ddarparwyr ymgysylltu â ni'n uniongyrchol, trwy weithdai, sesiynau hyfforddi, cyfarfodydd a llwybrau eraill. Mae hyn yn golygu bod darparwyr wedi'u harfogi'n dda i gydymffurfio â'u rhwymedigaethau ac y gallent geisio arweiniad pryd bynnag y bo angen.

6. **Monitro ac adborth rhagweithiol:** Gan dynnu ar hunan-adrodd cynnar, rydym yn parhau i fonitro cydymffurfedd yn rhagweithiol, gan adnabod materion posibl yn gynnar a gweithio gyda darparwyr i fynd i'r afael â hwy cyn iddynt waethygu. Mae'r dull ataliol hwn yn helpu i gynnal safonau uchel ar draws y sector gan hefyd leihau i'r eithaf yr angen am ymyriadau statudol. Mae ein gweithgarwch monitro'n cael ei dargedu yn seiliedig ar natur y gofyniad, ein dyletswyddau statudol, a'r risg i ddysgwyr a phwrs y wlad.

7. **Gweithredu cyfreithiol a chyfarwyddiadol:** Pan fo angen, mae Medr yn cymryd camau wedi'u targedu ar sail tystiolaeth i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio a pherfformiad gwael. Gall hyn fod trwy ddefnyddio ymyriadau statudol penodedig neu amhenodedig, neu gyfuniadau o'r rhain, fel y bo'n briodol. Mae unrhyw ymyriadau o'r fath yn gymesur ac yn cael eu cyflawni mewn modd sy'n gyson â'n gwerthoedd.

8. **Hyrwyddo arferion gorau:** Mae Medr yn annog darparwyr i edrych y tu hwnt i gydymffurfedd yn unig, gan feithrin diwylliant o werthuso a gwella'n barhaus.

9. **Dulliau arloesol ac ymatebol:** Rydym yn mynd ati'n barhaus i adolygu a gwella ein prosesau rheoleiddio i addasu i amgylchiadau sy'n newid, gan sicrhau bod ein rheoliadau'n parhau i fod yn effeithiol, yn gymesur ac yn berthnasol. Mae hyn yn cynnwys ymateb i ddeddfwriaeth newydd a dadansoddi data i ragweld a mynd i'r afael â heriau hirdymor ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol o staff a dysgwyr.

10. **Cydnerthedd a gweithredu â ffocws:** Rydym yn gydnerth yn wyneb heriau, gan gadw ffocws ar ein dyletswyddau statudol a'n hamcanion strategol, a darparu cyfeiriad cyson i ddarparwyr. Rydym yn ymrwymedig i gymryd camau

cymesur ac amserol i sicrhau cydymffurfedd a rhagoriaeth mewn addysg drydyddol a hyfforddiant yng Nghymru.

## 1.9. Ein Disgwyliadau

1.9.1. Yn Medr, rydym yn ymrwymedig i weithio ar y cyd â'r holl ddarparwyr i greu amgylchedd o wella'n barhaus, atebolrwydd a rhagoriaeth. Yn yr ysbryd hwn, rydym yn amlinellu'r ymrwymiadau a'r disgwyliadau canlynol sy'n llywio ein hymdrechion ar y cyd:

1. **Ymrwymiad i gydymffurfedd ac uniondeb:** Ymddiriedir cyfrifoldeb i ddarparwyr gydymffurfio'n llawn â gofynion rheoleiddio. Nid mater o fodloni rhwymedigaethau yn unig yw hyn, ond hybu ymddiriedaeth ac uniondeb ar draws y sector. Rydym yn disgwyl i sefydliadau gymryd perchnogaeth ar eu prosesau cydymffurfio, gan wreiddio safonau rheoleiddio yn eu gweithrediadau o ddydd i ddydd a dangos dull rhagweithiol o gynnal y safonau hyn.

2. **Ymgysylltu ac arweiniad rheoleiddiol:** Mae ymgysylltiad adeiladol ag arweiniad Medr yn allweddol i gynnal partneriaeth reoleiddiol gref. Dylai darparwyr werthfawrogi'r adborth a'r cyfeiriad a gynigir gan y rheoleiddiwr a gweithredu'n brydlon i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd sy'n peri pryder.

3. **Tryloywder a hunan-adrodd:** Rydym yn hybu diwylliant o fod yn agored a thryloyw. Pan fydd heriau'n codi, dylai darparwyr deimlo'n hyderus i hunan-hysbysu am unrhyw bryderon neu ddiffyg cydymffurfio mewn modd amserol. Mae'r dull "dim syrpreisys" hwn yn dangos atebolrwydd ac yn galluogi Medr i roi cymorth lle bo angen.

4. **Rheoli a lliniaru risg yn rhagweithiol:** Mae dull blaengar o reoli risg yn hanfodol i gynnal safonau uchel. Disgwylir i ddarparwyr sefydlu strwythurau llywodraethu mewnol sy'n ei gwneud yn bosibl adnabod a lliniaru risgiau yn gynnar.

5. **Mynd ar drywydd gwelliant parhaus:** Er bod cyrraedd safonau rheoleiddio sylfaenol yn hanfodol, rydym yn annog darparwyr i anelu'n uwch. Dylai gwelliant parhaus fod yn ganolog i genhadaeth pob sefydliad.

6. **Cydweithio â rhanddeiliaid:** Ymdrech gydweithredol yw addysg, ac rydym yn disgwyl i ddarparwyr ymgysylltu'n weithredol â'u rhanddeiliaid, gan gynnwys dysgwyr, cyflogwyr, a'r gymuned ehangach.

7. **Parch at ymyriadau rheoleiddiol:** Pan fydd Medr yn darparu adborth neu'n awgrymu gwelliannau, y nod yw helpu sefydliadau i gwrdd â'n disgwyliadau. Disgwylir i ddarparwyr gofleidio'r arweiniad hwn yn adeiladol, gan weithredu unrhyw newidiadau angenrheidiol i atal materion rhag dwysau.

## 1.10. Yr Hyn y Mae ein Dull Rheoleiddio'n ei Olygu ar Gyfer ein Hamodau Rheoleiddio

1.10.1. Yn Medr mae ein dull rheoleiddio a'n gwerthoedd wedi goleuo datblygiad ein hamodau cofrestru neu ein hamodau cyllid a nodir yn y Fframwaith Rheoleiddio hwn. Wrth ddylunio'r amodau, a'u gofynion cysylltiedig, rydym wedi ceisio sicrhau

eu bod yn gymesur ac yn seiliedig ar risg. Wrth wneud hyn rydym wedi taro cydbwysedd rhwng yr angen i gyflawni ein dyletswyddau statudol ac egwyddor lleihau baich i'r eithaf fel y nodir yn ein dull rheoleiddio.

1.10.2. Mae'r amodau yn y Fframwaith Rheoleiddio hwn wedi ystyried adborth o'r ddau gam ymgynghori lle'r oedd yn briodol. Er enghraifft, i ymdrin â phryderon ynghylch baich a chymesuredd, rydym wedi rhoi ystyriaeth fanwl i'r holl amodau unigol, gan adolygu gofynion y rhain ymhellach a'r gweithgarwch monitro cysylltiedig. Rydym hefyd wedi ystyried y 'galwadau monitro' cyffredinol ar ddarparwyr gan ein bod yn derbyn, er efallai nad yw'r amodau'n gosod gofynion sylweddol yn unigol, y gall y darlun fod yn wahanol iawn pan fo'r holl amodau'n cael eu hystyried gyda'i gilydd. Rydym wedi cydnabod yr angen i leihau'r baich gweinyddol i'r eithaf, yn gymaint ag y bo hynny'n rhesymol bosibl, ond mae'n anochel y bydd unrhyw system reoleiddio'n gosod rhai gofynion ar ddarparwyr.

1.10.3. Rydym yn cydnabod bod rhaid i'r amodau a'u gofynion cysylltiedig fod yn eglur. Yng nghyd-destun ein hegwyddor reoleiddio mewn perthynas ag arweiniad ac adnoddau eglur, a'r adborth o'r ymgynghoriad cyntaf, rydym wedi ceisio gwella eglurder. Mae hyn wedi cynnwys bod yn fwy eglur ynglŷn â'r elfennau manwl hynny o amodau sy'n rhan o ofynion cydymffurfio a'r elfennau hynny sy'n cynrychioli arweiniad arferion gorau.

1.10.4. Rydym hefyd yn cydnabod y pryderon a oedd gan rai ymatebwyr ynghylch y graddfeydd amser ar gyfer rhoi'r system reoleiddio newydd ar waith oherwydd y gwaith datblygu sy'n ofynnol ar gyfer rhai amodau. O ganlyniad, er y bydd yr holl amodau rheoleiddio yn cyflawni cyfrifoldebau Medr dan y Ddeddf, bydd rhai o'r amodau'n gymharol gyfyngedig o ran eu cwmpas a'u huchelgais yn y lle cyntaf. Yn y cyd-destun hwnnw, mae'r gofynion rheoleiddio yn debygol o esblygu mewn blynyddoedd yn y dyfodol, gyda'r disgwyl y bydd gofynion cydymffurfio mewn rhai meysydd yn cynyddu dros amser. Gallwn hefyd ddatblygu rhai amodau dros amser mewn ffordd sy'n lleihau'r 'galwadau' monitro ar y darparwyr hynny sy'n dangos hanes cryf o gydymffurfio parhaus.

1.10.5. Bydd amodau'n esblygu hefyd wrth i ni ddysgu mwy am yr hyn sy'n gweithio i wahanol ddarparwyr ac ystyried newidiadau yn yr amgylchedd ehangach. Yn unol â'r egwyddorion a nodir yn ein dull rheoleiddio, byddwn yn gweithio gyda'r sector a rhanddeiliaid eraill mewn ymgais cydweithredol i fynd ati ymhellach i ddatblygu'r amodau ac arweiniad cysylltiedig dros y blynyddoedd sydd i ddod.

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Dull o Fonitro

## 1. Cefndir

1.1. Mae’r adran hon yn nodi dull Medr o fonitro’r modd y cydymffurfir ag amodau cofrestru neu gyllid o dan **Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022** (y Ddeddf). Mae’n rhan o’n Fframwaith Rheoleiddio ehangach ac yn adlewyrchu’r gwaith a wnaed yn ystod cam cyntaf datblygiad Medr fel y corff cyllido a rheoleiddio ar gyfer addysg drydyddol yng Nghymru.

1.2. Mae ein dull gweithredu, fel y nodir yn y ddogfen hon, yn adlewyrchu dealltwriaeth gyffredin bod yn rhaid i fonitro effeithiol fynd y tu hwnt i gasglu data neu orfodi. Dylai alluogi rheoleiddio deallus, cymesur, ar sail risg sy’n diogelu dysgwyr, yn rhoi cymorth i arloesi, ac yn parchu ymreolaeth ac amrywiaeth darparwyr addysg drydyddol Cymru.

## 2. Egwyddorion Sy'n Sail i'n Dull o Fonitro

2.1. Caiff ein dull monitro ei arwain gan set o egwyddorion sy'n adlewyrchu ein dyletswyddau statudol, ein gwerthoedd rheoleiddio, a'r adborth a gafwyd gan y sector yn ystod yr ymgynghoriad. Mae'r egwyddorion hyn yn tanategu ein holl weithgarwch monitro ac yn goleuo'r ffordd rydym yn gweithio gyda darparwyr.

### 2.2. Cymesuredd

2.2.1. Byddwn yn sicrhau bod cwmpas, mynychder a dwyster ein gweithgarwch monitro'n gymesur â lefel y risg a gwerth rheoleiddiol yr wybodaeth y mae ei hangen arnom. Mae hyn yn golygu cyfeirio ein hymdrechion at lle mae eu hangen fwyaf ac osgoi baich diangen ar ddarparwyr sy'n dangos sicrwydd mewnol cryf, cydymffurfedd parhaus, a llywodraethu aeddfed.

### 2.3. Barn ar Sail Risg

2.3.1. Bydd ein penderfyniadau monitro yn cael eu llywio gan risg – y risg gynhenid sy'n gysylltiedig ag amodau penodol, a'r risg asesedig a gyflwynir gan gyd-destun penodol darparwr. Byddwn yn tynnu ar ystod o ffynonellau gwybodaeth, gan gynnwys data, Ffurflenni Sicrwydd Blynyddol, adborth dysgwyr, digwyddiadau y mae'n rhaid eu hadrodd ac ymgysylltu, i ffurfio darlun cyflawn o risg sefydliadol. Bydd ein barn ynglŷn â risg yn seiliedig ar dystiolaeth, yn ymatebol, ac yn cael ei hadolygu'n rheolaidd. Yn bwysig, bydd yn ystyried nid dim ond y tebygolrwydd o beidio â chydymffurfio, ond hefyd yr effaith bosibl ar ddysgwyr, hyder y cyhoedd, a sefydlogrwydd y sector cyfan.

### 2.4. Eglurder a Thryloywder

2.4.1. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwybodaeth eglur, gyson am ein disgwyliadau a'n prosesau monitro. Dylai darparwyr wastad ddeall:

- pa wybodaeth yr ydym yn ei chasglu a pham
- sut y bydd yn cael ei defnyddio i oleuo ein penderfyniadau rheoleiddio
- pa un a yw ymgysylltu yn rhan o weithgarwch arferol neu'n ymateb i bryder

2.4.2. Byddwn yn cyhoeddi arweiniad i roi cymorth i ddeall ein gweithgareddau monitro a byddwn yn dryloyw ynghylch y berthynas rhwng monitro a chydymffurfio, cyllid, ac unrhyw gamau dilynol posibl. Wrth wneud hynny, ein nod yw meithrin ymddiriedaeth ynom ni fel rheoleiddiwr a chyllidwr.

### 2.5. Dim Syrpreisys ac Ymgysylltu Cynnar

2.5.1. Rydym yn disgwyl i ddarparwyr ymgysylltu â ni cyn gynted â phosibl lle cyfyd risg i gydymffurfio, budd dysgwyr, neu hyder y cyhoedd. Yn ein tro, byddwn ninnau'n cyfathrebu'n glir ac mewn da bryd lle'r ydym yn ystyried y gallai fod mwy o risg neu lle'r ydym yn bwriadu cynyddu ein hymgysylltiad. Mae ein dull wedi'i wreiddio mewn egwyddor “dim syrpreisys": po gynharaf y codir mater, po fwyaf yw'r cyfle i'w ddatrys ar y cyd ac yn gymesur. Wrth gwrs, efallai y bydd eithriadau i hyn, lle na ellir rhagweld digwyddiadau neu newidiadau.

## 2.6. Ymreolaeth Sefydliadol

2.6.1. Rydym yn cydnabod ac yn parchu ymreolaeth sefydliadau ac amrywiaeth trefniadau cenhadaeth a llywodraethu ar draws sector addysg drydyddol Cymru. Nid offeryn i lywio strategaeth sefydliadol yw monitro, ac nid yw wedi'i fwriadu i orfodi unffurfiaeth. Ein rôl yw dwyn darparwyr i gyfrif am fodloni amodau wedi'u diffinio'n glir – nid cyfarwyddo sut y maent yn gweithredu'n fewnol neu'n pennu eu blaenoriaethau.

## 2.7. Cymorth i Wella'n Barhaus

2.7.1. Er bod cydymffurfio'n ganolog i'n rôl statudol, rydym hefyd o'r farn bod monitro'n fodd i hyrwyddo gwelliant ar draws y sector. Trwy'r wybodaeth a gesglir gennym, a'r sgyrsiau yr ydym yn eu cynnal, rydym yn amcanu at adnabod patrymau, amlygu arferion da, a chynorthwyo darparwyr i gryfhau eu systemau a'u prosesau eu hunain. Bydd ein hymgysylltiad yn anelu at fod yn fyfyriol ac yn flaengar – yn gyfle i ddarparwyr rannu eu hasesiadau eu hunain o risg a pherfformiad, ac i Medr gynnig mewnwelediadau, cymorth neu gyngor. Os ydym yn ymyrryd oherwydd achosion posibl o ddiffyg cydymffurfio, byddwn yn glir yn ein cyfathrebiadau ac o ran y camau gweithredu y mae angen i ddarparwr eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion hynny.

## 3. Y Model Monitro Cyfunol

3.1. Yn dilyn ymgynghoriad trylwyr â’r sector, mae Medr wedi datblygu model monitro cyfunol. Mae’r model hwn yn sail i sut y byddwn yn asesu cydymffurfedd â’r amodau cofrestru neu gyllido, a sut y byddwn yn ymgysylltu â darparwyr i adnabod risg, cefnogi gwelliant, a diogelu dysgwyr a budd y cyhoedd.

3.2. Mae’r dull hwn yn fwriadol yn cyfuno goruchwyliaeth ar sail sicrwydd gydag ymgysylltu ehangach.

### 3.3. Cyd-ddatblygu a Mireinio’r Model

3.3.1. Cafodd y model hwn ei ddatblygu gyda mewnbwn sylweddol gan y sector, a bydd yn parhau i esblygu trwy ddatblygiad cydweithredol. Rydym yn ymrwymedig i gydweithio’n agos â darparwyr i fireinio dyluniad a gweithrediad ein gweithgareddau monitro - gan gynnwys fformat Ffurflenni Sicrwydd Blynyddol, defnyddio ymgysylltu, a datblygu canllawiau ategol. Lle y bo’n briodol, byddwn yn treialu agweddau ar y model i sicrhau eu bod yn gallu gweithio’n ymarferol, yn gymesur ac yn effeithiol.

### 3.4. Cyfuno Sicrwydd ac Ymgysylltu

3.4.1. Mae ein gweithgarwch ar sail sicrwydd yn canolbwyntio ar gadarnhau bod amodau’n cael eu bodloni. Mae hyn yn cynnwys mecanweithiau ffurfiol fel y Ffurflen Sicrwydd Blynyddol, y gofyniad i ddarparwyr hunan-adrodd am ddigwyddiadau difrifol a digwyddiadau hysbysadwy trwy ein proses Digwyddiadau y Mae’n Rhaid eu Hadrodd, a defnyddio data i fonitro perfformiad neu adnabod meysydd a allai fod yn achos pryder.

3.4.2. Mae ein Datganiad Ymyrryd yn nodi sut a phryd y gallem ymyrryd ar wahanol adegau, lle gall materion cydymffurfio godi.

3.4.3. Ar wahân i hyn, efallai y byddwn yn ymgysylltu â darparwyr mewn gweithgareddau nad ydynt yn canolbwyntio ar gydymffurfedd. Mae’r trafodaethau hyn yn anghyfeiriol, yn ystyriol o gyd-destun ac yn galluogi darparwyr i fyfyrio ar eu perfformiad eu hunain, codi materion sy’n dod i’r amlwg, ac ymgysylltu â ni ynghylch heriau a rennir o fewn y system. Yn hollbwysig, nid asesiadau o gydymffurfio mohonynt chwaith. Maent wedi’u bwriadu i feithrin natur agored, rhoi cymorth i adnabod risg yn gynnar, a hybu cyd-ddealltwriaeth. Pan fydd ymgysylltu strategol yn digwydd, bydd ei hyd a’i led yn cael ei bennu’n glir ymlaen llaw, gyda diben tryloyw a dim awgrym o bryder rheoleiddiol.

3.4.4. Mae’r strwythur deuol hwn yn sicrhau y gall ein gweithgareddau monitro gyflawni ein dyletswyddau sicrwydd statudol ac ategu diwylliant ehangach o wella ar draws y sector.

### 3.5. Monitro ar Draws Pob Amod

3.5.1. Rhaid i ddarparwyr fodloni’r holl amodau cofrestru neu gyllid sy’n berthnasol iddynt – p’un a ydynt yn cael eu cyllido ynteu wedi’u cofrestru. Mae’r gofyniad hwnnw’n gyffredinol. Fodd bynnag, mae’r ffordd yr ydym yn monitro cydymffurfedd yn fwriadol yn amrywiol. Mae gwahanol amodau’n dwyn gwahanol fathau a lefelau o

risg reoleiddiol, a bydd ein goruchwyliaeth yn adlewyrchu hynny. Er enghraifft, mae rhai amodau'n galw am fonitro mwy rheolaidd neu strwythuredig. Efallai y bydd eraill yn golygu mai dim ond lle mae risgiau penodol yn codi y mae gofyn ymgysylltu'n weithredol. Bydd pob amod yn amlinellu ein dull o oruchwylio yn glir gyda hynny'n cael ei ddogfennu yn yr adran monitro parhaus o dan bob amod.

3.5.2. Rydym yn aseinio gweithgareddau monitro i bob amod yn seiliedig ar anghenion cydymffurfio'r amodau, ac rydym yn teilwra ein hymgysylltiad â phob darparwr gan ddibynnu ar raddfa, risg a chyd-destun. Gall yr offer a ddefnyddiwn gynnwys Ffurflenni Sicrwydd Blynyddol, hunan-adrodd, casglu a dadansoddi data mewn modd wedi'i dargedu, neu ymgysylltu â darparwyr. Mae'r fframwaith sy'n nodi'r cysylltiadau hyn – rhwng pob cyflwr a'i fecanweithiau monitro cysylltiedig – wedi'i gyhoeddi yn y ddogfen hon.

3.5.3. Mae'r strwythur hyblyg hwn yn sicrhau cysondeb o ran disgwyliadau, gan ein galluogi i weithredu'n gymesur ac osgoi baich diangen.

## 3.6. Dull Cymesur ar Sail Risg

3.6.1. Bydd ein defnydd o wybodaeth fonitro wastad wedi'i wreiddio yn y cyd-destun. Bydd data, Ffurflenni Sicrwydd Blynyddol, a mewnbynnau eraill yn cael eu hadolygu yng ngoleuni amgylchiadau sefydliadol, ac ni fyddant yn cael eu dehongli ar wahân. Ni fyddwn yn defnyddio trothwyon na metrigau perfformiad awtomataidd i gychwyn camau rheoleiddio heb fynd ati yn gyntaf i geisio deall y cyd-destun ehangach. Pan fydd pryderon yn codi, byddwn yn ennyn ymgysylltiad darparwyr ar adeg gynnar ac mewn modd adeiladol, gyda'r nod o atal yr angen i uwchgyfeirio a chefnogi datrysiad. Y nod yw cynnal hyder yn y system gan hefyd gynnal tegwch a chydymddiriedaeth.

3.6.2. Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd eglurder ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd pan fydd monitro'n datgelu problem bosibl. Pan fo gofyn cymryd camau dilynol byddwn yn cyfleu hyn yn glir. Ein nod bob amser yw sicrhau bod darparwyr yn deall yr hyn sy'n digwydd a pham, ac osgoi syrpreisys.

## 4. Sut y Mae'r Model yn Gweithio'n Ymarferol

4.1. Mae ein model monitro'n cynnwys cydrannau rhyng-gysylltiedig sy'n gweithio gyda'i gilydd i ategu goruchwyliaeth gymesur, sy'n seiliedig ar risg. Caiff y ffordd yr ydym yn monitro'r amodau hynny ei siapio gan gyfuniad o risg reoleiddiol a chyd-destun darparwr.

4.2. Mae'r model yn gweithredu ar draws pedair haen eang:

### 1. Monitro Amodau

Mae gan bob amod ei broffil monitro ei hun. Mae rhai'n galw am fewnbynnau rheolaidd (fel data neu sicrwydd), tra bo eraill yn cael eu monitro trwy ymgysylltu cyfnodol neu ymgysylltu a sbardunir gan risg. Mae'r mecanweithiau monitro sy'n gysylltiedig â phob amod - megis Ffurflenni Sicrwydd Blynyddol, ymgysylltu â darparwyr, neu hunanwerthuso, yn gymesur â lefel y risg reoleiddiol a'r effaith bosibl ar ddysgwyr. Mae'r rhain wedi'u nodi'n fanwl yn adran 6 o'r ddogfen yma.

### 2. Mecanweithiau Craidd a Llifoedd Gwybodaeth

Disgwylir i ddarparwyr gymryd rhan mewn prosesau strwythuredig fel y Ffurflen Sicrwydd Blynyddol a'r mecanwaith Digwyddiadau y Mae'n Rhaid eu Hadrodd. Rydym hefyd yn casglu data trwy ffurflenni wedi'u targedu a setiau data cyhoeddus. Gall ffynonellau gwybodaeth eraill gynnwys cwynion gan ddysgwyr, cwynion yn erbyn darparwyr, adroddiadau gan drydydd partïon, a sgyrsiau ymgysylltu strategol. Mae gwybodaeth o'r sianeli hyn yn goleuo ein dealltwriaeth o gydymffurfedd darparwyr unigol a thueddiadau ehangach o fewn y sector.

### 3. Asesu a Ffurfio Barn Ynglŷn â Risg

Dygir gwybodaeth fonitro ynghyd i ffurfio darlun cyfannol o risg y darparwr. Mae hyn yn cynnwys risg darparwr-benodol (e.e. pryderon sy'n dod i'r amlwg ynghylch cynaliadwyedd ariannol neu lywodraethu a rheoli) a risg ar lefel y system (e.e. patrymau sy'n dod i'r amlwg ar draws nifer o ddarparwyr). Nid yw ein hasesiad yn fformiwläig nac yn awtomataidd. Rydym yn defnyddio tystiolaeth a chyd-destun i oleuo ein barn wrth benderfynu a oes angen sylw rheoleiddiol manylach, ynteu a yw goruchwyliaeth bresennol yn parhau i fod yn briodol.

### 4. Ymateb ac Ymgysylltu Rheoleiddiol

Pan adnabyddir pryderon, gallwn ymateb trwy ofyn am eglurhad, gofyn am wybodaeth ychwanegol, cychwyn gweithgarwch ymgysylltu wedi'i dargedu, neu – lle y bo'n briodol – uwchgyfeirio i brosesau rheoleiddio ffurfiol. Lle nad oes unrhyw bryderon yn codi, efallai y byddwn yn cynnal ymgysylltiad ysgafn neu'n newid y ffocws er mwyn rhoi sylw i wella thematig/ar lefel y system.

## 5. Ffynonellau Gwybodaeth Fonitro

5.1. Mae ein gweithgarwch monitro'n tynnu ar ystod eang o ffynonellau gwybodaeth a thystiolaeth. Mae'r rhain yn ein galluogi i ffurfio darlun cytbwys a chymesur i ddangos a yw darparwyr yn bodloni eu hamodau cofrestru neu gyllid, ac a oes unrhyw bryder rheoleiddiol neu risg reoleiddiol yn dod i'r amlwg.

5.2. Mae pob ffynhonnell yn cyfrannu'n wahanol – mae rhai wedi'u strwythuro a'u ffurfioli, tra bod eraill yn cynnig signalau meddalach neu fewnwelediad cyd-destunol. Gyda'i gilydd, maent yn tanategu ein model cyfunol gan gefnogi sicrwydd a rhoi cymorth i adnabod risg ar adeg gynnar.

### 5.3. Ffurflen Sicrwydd Blynyddol

5.3.1. Hunan-ddatganiad strwythuredig a gyflwynir gan ddarparwr ac a gymeradwyir yn ffurfiol gan ei swyddog atebol a'i gorff llywodraethu (neu gorff cyfwerth) yw'r Ffurflen Sicrwydd Blynyddol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gadarnhau, yn seiliedig ar ddadansoddiad cadarn o dystiolaeth, eu bod wedi adolygu eu cydymffurfedd â'r amodau sy'n berthnasol iddynt, ac wedi eu sicrhau eu hunain eu bod yn parhau i gydymffurfio â'r amodau cofrestru neu gyllid; neu i adnabod yn eu ffurflen unrhyw feysydd lle mae eu hadolygiad mewnol yn dynodi nad ydynt yn cydymffurfio a'r camau y maent yn eu cymryd mewn ymateb.

5.3.2. Bob blwyddyn wrth gomisiynu'r Ffurflen Sicrwydd Blynyddol, byddwn yn dynodi pa dystiolaeth ychwanegol y gallai fod ei hangen arnom i gadarnhau'r sicrwydd. Byddwn hefyd yn gofyn i ddarparwyr fel rhan o'u Ffurflen Sicrwydd Blynyddol ddarparu unrhyw ddiweddariadau am newidiadau, heriau neu risgiau perthnasol. Mae hwn yn fecanwaith sicrwydd craidd sy'n berthnasol i bob darparwr sy'n ddarostyngedig i'r amodau cofrestru neu gyllid. Mae'n rhoi cyfle blynyddol i bob darparwr gynnal eu hasesiad mewnol trylwyr eu hunain,  myfyrio ar berfformiad, cadarnhau eu sicrwydd eu hunain, a rhybuddio Medr am unrhyw feysydd lle mae gofyn ymgysylltu ymhellach.

### 5.4. Arolygon Dysgwyr

5.4.1. Mae Medr yn defnyddio canfyddiadau o arolygon dysgwyr i gael mewnwelediad i brofiad, boddhad a phryderon dysgwr. Ceir Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr sydd wedi hen ennill ei blwyf mewn addysg uwch, ac rydym yn bwriadu datblygu arolygon myfyrwyr ar draws y sector trydyddol ehangach. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd, deialogau strategol, ymatebion ymgynghori, ac adborth anffurfiol. Gall canlyniadau arolygon hefyd oleuo ein blaenoriaethau thematig neu amlygu darparwyr lle gallai ymgysylltu ychwanegol fod yn werthfawr.

### 5.5. Asesiad Ansawdd Allanol

5.5.1. Ar gyfer darparwyr sy'n destun arolygiad gan Estyn neu adolygiad gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA), mae'r asesiadau allanol hyn yn cyfrannu at ein dealltwriaeth o ansawdd, arweinyddiaeth a deilliannau dysgwyr. Nid yw Medr yn dyblygu'r prosesau hyn ond bydd yn ystyried eu deilliannau lle y bo'n berthnasol i'n hamodau a'n swyddogaethau rheoleiddio ni. Pan fydd Estyn neu'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) yn adnabod pryderon

sylweddol, efallai y byddwn yn ceisio sicrwydd pellach gan y darparwr neu'n archwilio a ddynodir unrhyw fater cydymffurfio.

5.5.2. Fel y nodir yn y Fframwaith Ansawdd, rydym yn ymrwymedig i weithio gyda darparwyr i sicrhau bod dulliau asesu ansawdd allanol yn y dyfodol yn ychwanegu gwerth ac effaith i ddarparwyr.

## 5.6. Monitro Gwybodaeth Gyhoeddus

5.6.1. Gall Medr fonitro gwybodaeth gyhoeddus, er enghraifft gwybodaeth a gyhoeddir ar wefannau darparwyr, gan gynnwys eglurder, cywirdeb a hygyrchedd gwybodaeth a gyflwynir i ddysgwyr presennol a darpar ddysgwyr. Mae hyn yn helpu i sicrhau cydymffurfedd ag amodau rheoleiddiol, megis yr Amodau Cofrestru hynny sy'n ymwneud â Gwybodaeth a Ddarperir i Ddarpar Myfyrwyr a Therfynau Ffioedd. Efallai y byddwn yn gofyn am newidiadau lle mae gwybodaeth sy'n ofynnol ar goll neu'n aneglur, neu lle gall cynnwys awgrymu achosion posibl o dorri amodau cofrestru.

## 5.7. Pryderon Rheoleiddio a Monitro Cwynion

5.7.1. Rydym yn adolygu materion systemig neu thematig sy'n deillio o gwynion a gohebiaeth dysgwyr yn rheolaidd wrth asesu risg a monitro cydymffurfedd darparwyr. Dim ond pan fydd yn berthnasol i'n dyletswyddau rheoleiddio statudol yr ydym yn ystyried gwybodaeth am gwynion, er enghraifft, lle gall tueddiadau neu ganlyniadau cwynion ddangos risgiau systemig neu ddiffyg cydymffurfio posibl â'r amodau cofrestru neu gyllid.

5.7.2. Nid yw Medr yn ymchwilio i rinweddau cwynion dysgwyr unigol, nac yn penderfynu arnynt nac yn gwneud sylwadau arnynt. Pan anfonir cwynion dysgwyr yn uniongyrchol at Medr, fel arfer bydd y dysgwr yn cael ei gyfeirio at y darparwr perthnasol i'w trin o dan ei weithdrefnau ei hun, gyda'r potensial i'w huwchgyfeirio wedyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, lle bo'n berthnasol. Mae gan Medr rôl mewn sicrhau bod gan bob darparwr cofrestredig a darparwyr a ariennir weithdrefnau cyhoeddedig ar waith i ymchwilio i gwynion gan ddysgwyr a chyn-ddysgwyr. Efallai y byddwn hefyd yn ystyried materion a godir yn uniongyrchol gyda Medr drwy gyflwyniadau pryderon rheoleiddio ynghylch cydymffurfio â'r amodau cofrestru neu gyllid, y Cod Rheoli Ariannol (nes iddo gael ei ddisodli).

## 5.8. Digwyddiadau y Mae'n Rhaid eu Hadrodd

5.8.1. Rhaid i ddarparwyr hysbysu Medr am Ddigwyddiadau y Mae'n Rhaid eu Hadrodd - mae hyn yn cynnwys digwyddiadau difrifol a digwyddiadau y mae'n rhaid eu hadrodd a allai effeithio ar gydymffurfio, e.e. digwyddiadau fel materion ariannol mawr, achosion cyfreithiol, methiannau mewn arweinyddiaeth neu lywodraethu, neu dorri rhwymedigaethau statudol.

5.8.2. Mae'r broses Digwyddiadau y Mae'n Rhaid eu Hadrodd yn rhan greiddiol o'n model monitro. Mae'n ei gwneud yn bosibl ymateb yn gynnar, mewn modd cymesur i faterion sy'n dod i'r amlwg ac yn ategu diwylliant o ymddiriedaeth, natur agored ac atebolrwydd. Darperir manylion atodol i helpu darparwyr i benderfynu pryd y mae adrodd yn ofynnol.

## 5.9. Monitro Data

5.9.1. Rydym yn defnyddio data a gyhoeddwyd neu a gyflwynwyd i Medr i fonitro dangosyddion allweddol sy'n berthnasol i'n hamodau rheoleiddiol - megis cyfranogiad, parhad, deilliannau, neu dueddiadau ariannol. Rydym yn bwriadu datblygu ein setiau data dros amser i roi data cadarn a chynhwysfawr ar ddeilliannau dysgwyr y gellir eu cyhoeddi i ategu tryloywder ynghylch perfformiad darparwyr. Nid yw data byth yn cael ei ystyried ar ei ben ei hun ac mae'n cael ei ddehongli yn ei gyd-destun. Pan fydd data'n awgrymu risg bosibl neu danberfformiad posibl, efallai y byddwn yn ceisio gwybodaeth ychwanegol neu'n ei ddefnyddio i flaenoriaethu gweithgarwch ymgysylltu pellach.

## 5.10. Sicrwydd Annibynnol

5.10.1. Efallai y byddwn hefyd yn ystyried sicrwydd trydydd parti a gafwyd gan ddarparwyr, megis cyrff rheoleiddio eraill, archwiliadau mewnol, gwerthusiadau allanol, neu adolygiadau arbenigol. Gall y rhain ategu hunanwerthusiad darparwr o gydymffurfedd a'n helpu i ddeall sut mae risgiau'n cael eu hadnabod a'u rheoli'n fewnol. Lle y bo'n berthnasol, efallai y byddwn yn gofyn i ddarparwyr rannu canfyddiadau neu gamau gweithredu allweddol sy'n codi o adolygiadau o'r fath ac unrhyw gynlluniau gweithredu cysylltiedig.

## 5.11. Gweithgareddau Ymgysylltu

5.11.1. Mae gweithgareddau ymgysylltu Medr ar lefel y sector a darparwr yn ffynhonnell gwybodaeth fonitro hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd rheolaidd, ymatebion ymgynghori, ac adborth anffurfiol. Mae'r sgyrsiau hyn yn helpu i ddwyn materion i'r amlwg, egluro bwriad, ac ategu ein dealltwriaeth o gyd-destun darparwr.

## 5.12. Hunanwerthuso

5.12.1. Mae Medr yn annog darparwyr i gynnal hunanwerthusiad mewnol rheolaidd, o'u perfformiad ac o'r ffordd y maent yn bodloni'r amodau cofrestru neu gyllid. Mae hunanwerthuso'n ategu ymarfer adfyfyriol ac yn cryfhau gallu darparwyr i ragweld a rheoli risg. Mewn llawer o achosion, bydd hyn yn tynnu ar brosesau hunanwerthuso presennol – er enghraifft y rhai a gynhelir ar gyfer Estyn neu'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA). Efallai y byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr rannu agweddau ar eu hunanwerthusiad eu hunain yng nghyd-destun ein Ffurflenni Sicrwydd Blynyddol. Amlinellir y rhain yn yr adrannau monitro ar gyfer pob amod.

## 6. Dulliau Monitro Fesul Amod

| Amod | Cynaliadwyedd Ariannol | Llywodraethu a Rheoli | Ansawdd | Lles Staff a Dysgwyr | Y Gymraeg | Cynlluniau Diogelu Dysgwyr | Cod Ymgysylltu â Dysgwyr | Cyfle Cyfartal |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amod o: | Cofrestru neu Gyllido | Cofrestru neu Gyllido | Cofrestru neu Gyllido | Cofrestru neu Gyllido | Cofrestru neu Gyllido | Cofrestru neu Gyllido | Cofrestru neu Gyllido | Cofrestru neu Gyllido |
| Cychwynnol neu Barhaus: | Cychwynnol a Pharhaus | Cychwynnol a Pharhaus | Cychwynnol a Pharhaus | Cychwynnol a Pharhaus | Parhaus | Parhaus | Parhaus | Parhaus |
| Ffurflen Sicrwydd Blynyddol | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ |
| Arolygon dysgwyr | | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ |
| Adolygiadau Estyn/QAA | | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ |
| Gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Monitro Cwynion/ Pryderon | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Digwyddiadau y Mae'n Rhaid eu Hadrodd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Monitro data | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Ffynonellau sicrwydd annibynnol | | ✓ | | | ✓ | | | |
| Gweithgareddau ymgysylltu | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Hunanwerthuso | | ✓ | ✓ | | ✓ | | | |

| Amod | Gweith-drefnau Cwynion | Ystyriaeth i Gyngor ac Arweiniad | Gwybodaeth, Cynhorthwy a Mynediad | Trefniadau Dilysu | Statws Elusennol | Gwybodaeth a Ddarperir i Ddarpar Fyfyrwyr | Terfynau Ffioedd | Hysbysu Ynghylch Newidiadau | Statws fel Darparwr Addysg Drydyddol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Amod o: | Cofrestru neu Gyllido | Cofrestru neu Gyllido | Cofrestru neu Gyllido | Cofrestru yn Unig | Cofrestru yn Unig (craidd) | Cofrestru yn Unig | Cofrestru yn Unig (craidd) | Cofrestru yn Unig | Cofrestru yn Unig |
| Cychwynnol neu Barhaus: | Parhaus | Parhaus | Parhaus | Cychwynnol a Pharhaus | Cychwynnol a Pharhaus | Cychwynnol a Pharhaus | Parhaus | Parhaus | Parhaus |
| Ffurflen Sicrwydd Blynyddol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Arolygon dysgwyr | | | | | | | | | |
| Adolygiadau Estyn/QAA | | | | ✓ | | | | | |
| Gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus | ✓ | | | | | ✓ | ✓ | | |
| Monitro cwynion/ pryderon | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ | | |
| Digwyddiadau y Mae'n Rhaid eu Hadrodd | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Monitro data | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | | ✓ |
| Ffynonellau sicrwydd annibynnol | | | ✓ | | ✓ | ✓ | | | |
| Gweithgareddau ymgysylltu | | ✓ | | | | | | | |
| Hunanwerthuso | | | | | | | | | |

## 7. Defnyddio Monitro i Oleuo Penderfyniadau Rheoleiddiol

7.1. Nid yw monitro'n ddiben ynddo'i hun. Modd ydyw i Medr sicrhau bod yr amodau cofrestru neu gyllid yn cael eu bodloni, bod dysgwyr yn cael eu diogelu, a bod risgiau sy'n dod i'r amlwg yn gallu cael eu hadnabod a'u datrys yn gynnar. Y rhan fwyaf o'r amser, mae gweithgarwch monitro'n cadarnhau cydymffurfedd ac nid oes unrhyw gamau pellach yn ofynnol mewn ymateb iddo. Fodd bynnag, pan fo pryderon, efallai y bydd angen i ni ymateb. Mae ein dull o ddehongli a gweithredu ar fonitro gwybodaeth yn cael ei arwain gan dair egwyddor allweddol: cymesuredd, cyd-destun, ac eglurder.

### 7.2. Adnabod Pryderon Posibl

7.2.1. Gall monitro ddatgelu materion posibl mewn nifer o ffyrdd - er enghraifft, trwy dueddiadau sy'n dod i'r amlwg mewn data, digwyddiadau y mae'n rhaid eu hadrodd, pryderon rheoliadol, Ffurflenni Sicrwydd Blynyddol, neu hunanwerthuso. Nid ydym yn dibynnu ar ffynonellau gwybodaeth unigol, yn hytrach, rydym yn asesu tystiolaeth yn holistaidd ac yng ngoleuni cyd-destun y darparwr. Mewn llawer o achosion, efallai y bydd pryder posibl yn syml yn sbarduno cyswllt anffurfiol neu gais am eglurhad.

7.2.2. Gall pryderon ymwneud ag amod penodol (e.e. cynaliadwyedd ariannol, diogelu dysgwyr, cywirdeb gwybodaeth), neu gallant fod yn ehangach a golygu bod gofyn cael darlun trawsbynciol o weithrediadau'r darparwr. Bydd ein hymateb yn adlewyrchu natur, difrifoldeb a disyfydrwydd y mater.

### 7.3. Eglurhad ac Ymgysylltu'n Gynnar

7.3.1. Pan fyddwn yn adnabod risg bosibl i gydymffurfio, ein cam cyntaf fel arfer fydd ceisio rhagor o wybodaeth. Gall hyn fod ar ffurf cais am eglurhad neu ragor o wybodaeth, sgwrs, neu gyfarfod strwythuredig. Y pwrpas yw deall yr hyn sy'n digwydd, a oes pryder rheoleiddiol gwirioneddol, a beth (os o gwbl) y mae'r darparwr eisoes yn ei wneud i reoli'r sefyllfa. Byddwn yn cyfleu cwmpas yr ymgysylltiad hwn yn glir ac yn dryloyw. Bydd darparwyr yn cael y cyfle i ymateb, esbonio, neu gyflwyno tystiolaeth ychwanegol cyn y gwneir unrhyw benderfyniad ynglŷn â'r camau nesaf. Mae ymgysylltu'n gynnar yn nodwedd allweddol ar ein dull ar sail risg – mae'n helpu i atal materion rhag cael eu huwchgyfeirio ac yn rhoi cymorth i'w datrys ar y lefel isaf sy'n briodol, gan felly ein galluogi i fynd i'r afael â materion trwy ddull cydweithredol.

### 7.4. Penderfynu ar yr Ymateb Priodol

7.4.1. Os cadarnheir achos posibl o dorri amod, neu os oes digon o dystiolaeth o risg berthnasol, efallai y byddwn yn penderfynu cychwyn proses reoleiddio fwy ffurfiol. Gallai hyn gynnwys ymyriadau penodedig a nodir yn y pwerau Datganiad Ymyrryd neu ymyriadau amhenodedig eraill. Nid ar chwarae bach y cymerir y camau hyn a byddant bob amser wedi'u gwreiddio mewn tystiolaeth, yn cael eu harwain gan degwch gweithdrefnol, ac yn cyd-fynd â'n pwerau ymyrryd. Mewn achosion lle nad yw pryder yn dynodi bod amod wedi cael ei dorri, ond ei fod yn amlygu maes ar gyfer gwella neu ddysgu ar lefel y sector,

efallai y byddwn yn darparu adborth, yn argymell newidiadau, neu'n rhannu mewnwelediad dienw i ategu datblygiad y system gyfan trwy gyngor neu arweiniad.

## 7.5. Cyfleu Penderfyniadau a Chanlyniadau

7.5.1. Rydym ym ymrwymedig i dryloywder o ran sut y mae monitro'n arwain at benderfyniadau. Pan gymerir camau gweithredu ffurfiol, byddwn yn esbonio'r rhesymau a'r deilliannau disgwyliedig. Pan nad yw'n ofynnol gweithredu, byddwn yn anelu at gau'r ddolen gyda'r darparwr fel eu bod yn ymwybodol bod y mater wedi'i ddatrys. Ni ddylai monitro byth deimlo fel proses gudd neu unochrog. Ein nod yw sicrhau bod darparwyr yn cael eu hysbysu, eu cynnwys a'u trin yn deg trwy gydol yr amser, a bod y system reoleiddio'n parhau i fod yn gymesur, yn rhagweladwy ac yn un yr ymddiriedir ynddi.

## 7.6. Uwchgyfeirio i Ymyrraeth

7.6.1. Pan fo monitro'n adnabod risg barhaus neu ddifrifol i gydymffurfio ag agwedd ar yr amodau cofrestru neu gyllid - a lle nad yw ymgysylltu'n gynnar neu eglurhad wedi datrys y mater - gall Medr uwchgyfeirio'r mater i broses reoleiddio ffurfiol. Nid yw uwchgyfeirio'n awtomatig. Fe'i defnyddir lle y bo'n gymesur, yn angenrheidiol, ac yn unol â'n dyletswyddau statudol. Mewn rhai achosion efallai y byddwn yn penderfynu peidio â chymryd camau ymyrryd. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, lle mae darparwr eisoes yn gweithio i fynd i'r afael â'r mater, lle'r ydym yn cymryd camau perthnasol eraill neu lle'r ydym yn ystyried bod uwchgyfeirio'n anghymesur.

7.6.2. Rydym yn cydnabod bod darparwyr yn gweithredu mewn cyd-destunau cymhleth a newidiol, ac rydym yn amcanu at gefnogi datrysiad ar y cam cynharaf sy'n briodol, gan weithio ar y cyd gyda darparwyr lle bynnag y bo'n rhesymol ac yn briodol. Lle bynnag y bo'n briodol, ym marn Medr, byddwn yn ymgysylltu â darparwyr i geisio datrys materion cyn cychwyn ymyrraeth. Fodd bynnag, lle ceir tystiolaeth o dor-amod perthnasol, neu fethiant i ymateb yn briodol i risg, byddwn yn gweithredu.

## 7.7. Ein Dull o Ymyrryd a'r Offer a'r Pwerau Sydd ar Gael

7.7.1. Mae ein dull rheoleiddio'n ei gwneud yn glir y byddwn, lle y bo angen, yn cymryd camau wedi'u targedu sy'n seiliedig ar dystiolaeth i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio a pherfformiad gwael. Gall hyn fod trwy ddefnyddio ymyriadau penodedig neu amhenodedig, neu gyfuniadau o'r rhain, fel y bo'n briodol. Nid yw ein dull yn gosbol, ond nid yw'n oddefol ychwaith. Lle y bo angen, byddwn yn symud yn gyflym i ddiogelu deilliannau dysgwyr, atal niwed, neu ddiogelu hyder y cyhoedd yn y system. Mae gwybodaeth am y pwerau ymyrryd a bennir gan y Ddeddf wedi'i nodi yn Natganiad o Bwerau Ymyrryd Medr.

7.7.2. Mae'r sbectrwm eang o bwerau ymyrryd a bennir yn y Ddeddf, ac a nodir yn Natganiad o Bwerau Ymyrryd Medr, yn sicrhau, pan fo angen i Medr gyflawni


ymyrraeth reoleiddiol, y gall wneud hynny mewn modd cymesur yn unol â'n dull rheoleiddio a'n gwerthoedd. Goleuir hyn gan ffactorau sy'n cynnwys:

- **difrifoldeb** – pwy sy'n cael ei effeithio gan y mater a graddfa a difrifoldeb yr effaith honno. Gellir ystyried yr effaith yn nhermau cwmpas a lefel unrhyw ddrwg i ddysgwyr, staff, arian cyhoeddus, enw da ac ati
- **parhad** – am faint o amser y mae'r mater wedi bod yn mynd rhagddo ac a yw'r mater yn un sy'n ailddigwydd
- **camau gweithredu'r darparwr** – camau gweithredu y mae'r darparwr wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r mater
- **cyd-destun** - yr hyn y mae ein gwybodaeth reoleiddiol ehangach yn ei ddweud wrthym
- **risg** – y risg sy'n gysylltiedig â'r mater, natur y diffyg cydymffurfio, gan gynnwys graddfa, tebygoliaeth ac effaith
- **dyletswyddau statudol** – y goblygiadau ar gyfer dyletswyddau statudol Medr

7.7.3. Mae'r diagram isod yn darparu crynodeb o'r sbectrwm o ymyriadau sydd ar gael i Medr. Er rhwyddineb cyfeirio, mae'r sbectrwm hwn wedi cael ei gyflwyno fel Camau ar wahân, er y gall fod rhywfaint o niwlo a gorgyffwrdd rhwng Camau mewn gwirionedd. Er bod y sbectrwm hwn yn amlinellu pwerau ymyrryd Medr mewn modd llinol er mwyn eglurder, gellir eu defnyddio mewn unrhyw drefn a ddewisir gan Medr gan ddibynnu ar gyd-destun yr achos unigol. Dylid nodi nad yw'r enghreifftiau o ymyriadau amhenodedig yn y diagram yn rhestr gynhwysfawr.

## 8. Sbectrwm o Ymyriadau Rheoleiddiol

Gellir defnyddio ymyriadau mewn unrhyw drefn a gellir hepgor lefelau fel y bo’n briodol.



8.1. Gellir defnyddio holl bwerau ymyriadau penodedig Medr mewn perthynas â darparwyr cofrestredig, gyda chyngor a chymorth mewn perthynas ag ansawdd ac adolygiadau mewn perthynas ag ansawdd hefyd yn berthnasol i ddarparwyr eraill, fel a ganlyn:

- darparwyr allanol (darparwyr sy'n cyflwyno darpariaeth ar ran darparwyr cofrestredig)
- darparwyr addysg bellach a hyfforddiant a gyllidir nad ydynt ar y gofrestr
- chweched dosbarth mewn ysgolion a gyllidir trwy eu hawdurdod lleol, a
- darpariaeth drydyddol arall yng Nghymru nad yw'n cael ei chyflwyno gan ddarparwyr cofrestredig neu a gyllidir

8.2. Mae dull Medr o ddefnyddio'r pwerau ymyriadau penodedig hyn wedi'i nodi yn y Datganiad o Bwerau Ymyrryd.

8.3. Fel y nodwyd uchod, gall Medr hefyd ddefnyddio ystod o ysgogiadau eraill nad ydynt wedi'u nodi'n benodol yn y Ddeddf er mwyn ysgogi cydymffurfedd ag amodau cofrestru parhaus. Gellir cymhwyso'r ymyriadau amhenodedig hyn i bob darparwr addysg drydyddol a darparwr hyfforddiant cofrestredig neu a gyllidir ac maent yn cynnwys, ymhlith eraill:

8.3.1. **Ymgysylltu - ysgrifennu at ddarparwr a/neu gwrdd â nhw** – Gallai ymgysylltu gynnwys ysgrifennu at Brifathro/Is-Ganghellor y darparwr neu uwch reolwr perthnasol arall (e.e. ei Gyfarwyddwr Cyllid) a/neu gwrdd â nhw. Lle y bo hynny'n briodol, gall hyn hefyd gynnwys ymgysylltu â Chadeirydd corff llywodraethu'r darparwr a/neu Gadeirydd y pwyllgor perthnasol (e.e. Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio), ac o bosibl y corff llywodraethu ehangach.

8.3.2. **Ei gwneud yn ofynnol bod darparwr yn cael ei fonitro'n fanylach** – Pan fo mater penodol o ddiffyg cydymffurfio wedi cael ei adnabod, gellir gwneud mwy o ymgysylltu a monitro i sicrhau bod y darparwr yn cymryd pob cam rhesymol i fynd i'r afael â'r materion. **Mae hwn yn gam allweddol mewn ymyrraeth reoleiddiol.** Gallai monitro manylach fod ar ffurf mynychder adrodd a/neu gyfarfodydd sy'n fwy nag a fyddai'n digwydd fel arfer. Gall hefyd gynnwys cyflwyno gwybodaeth ychwanegol, na fyddai'n ofynnol fel arfer.

8.3.3. **Comisiynu adolygiad neu adroddiad** – Gall Medr gomisiynu adolygiad neu adroddiad lle'n mae'n ofynnol cael rhagor o wybodaeth am y materion cydymffurfio mewn darparwr. Gallai adolygiad neu adroddiad o'r fath oleuo'r camau gweithredu sydd i'w cymryd gan y darparwr i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio ac fe allai oleuo camau gweithredu pellach gan Medr, gan gynnwys penderfyniad ynglŷn â chychwyn ymyrraeth statudol neu beidio.

8.3.4. **Gofyn am gynllun gweithredu** – Gall Medr ofyn i'r darparwr ddatblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â meysydd penodol sy'n achosi pryder. Efallai y bydd Medr yn disgwyl bod gan gorff llywodraethu'r darparwr rôl i gymeradwyo a goruchwylio'r cynllun, gyda'r modd y cyflawnir y cynllun yn cael ei fonitro gan Medr neu ei asiantau. Os yw'r darparwr yn aflwyddiannus

wrth gyflawni ei gynllun gweithredu, gallai hynny oleuo penderfyniad gan Medr ynglŷn â chychwyn ymyrraeth statudol neu beidio.

8.3.5. **Cyhoeddi data, cynlluniau neu adroddiadau** – Gall Medr gyhoeddi gwybodaeth sy'n amlygu diffyg cydymffurfio gan ddarparwr, lle yr ystyrir bod hynny'n briodol. Ymhlith mathau eraill o wybodaeth, gallai hynny fod ar ffurf data, megis data ar berfformiad. Gallai hefyd fod ar ffurf cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio ac adroddiadau, megis adroddiad ar unrhyw adolygiad a gomisiynwyd gan Medr. Gall yr wybodaeth honno gael ei chyhoeddi gan Medr neu gyrff sy'n gweithredu ar ran Medr. Gall cyhoeddi gwybodaeth o'r fath amlygu methiannau, gan helpu darparwyr eraill i osgoi sefyllfaoedd tebyg, a gweithredu fel cymhelliant i'r darparwr fynd i'r afael â'i ddiffyg cydymffurfio. Gellir cyhoeddi gwybodaeth hefyd ochr yn ochr ag ymyriadau a bennir gan y Ddeddf.

8.3.6. **Rhannu gyda rheoleiddwyr eraill** – Lle y bo'n briodol, bydd Medr yn rhannu gwybodaeth am ddiffyg cydymffurfio gan ddarparwr gyda rheoleiddwyr eraill. Mae gan Medr ddyletswydd hefyd i wneud rhai cyrff llywodraethol yn ymwybodol o ddiffyg cydymffurfio perthnasol (e.e. UKVI, Y Swyddfa Gartref ac ati). Efallai y bydd amgylchiadau lle byddwn yn rhannu gwybodaeth gyda chyrff eraill – er enghraifft Estyn neu'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA).

8.3.7. **Defnyddio cyllid** – Gall amodau neu drothwyon cyllid cyhoeddedig Medr olygu bod darparwr nad yw'n cydymffurfio yn anghymwys ar gyfer mathau perthnasol penodol o gyllid Medr. Gellir gwneud hyn i ddiogelu arian cyhoeddus a/neu i weithredu fel cymhelliant i'r darparwr fynd i'r afael â'i ddiffyg cydymffurfio. Efallai y bydd defnydd Medr o'i bwerau cyllido'n fwy neu'n llai fel bod diffyg cydymffurfio mwy difrifol yn arwain at anghymhwystra cymesur uwch i gael cyllid Medr.

8.4. Gall ymyriadau amhenodedig, fel yr enghreifftiau a nodir uchod, fod yn fodd allweddol i Medr allu gorfodi amodau cyllid ar gyfer darparwyr addysg drydyddol a hyfforddiant nad ydynt wedi'u cofrestru. Gallant hefyd fod yn ddewis arall posibl yn lle rhai ymyriadau a bennir yn y Ddeddf (lle mae'r ymyriadau hynny ar gael) a gallant hefyd weithredu fel rhagflaenydd i ymyriadau o'r fath. Er enghraifft, gallai darparwr cofrestredig gael cyfle i gyflawni cynllun gweithredu, gyda methiant dilynol i gyflawni'r cynllun hwnnw yn arwain at sbarduno ymyriad a bennir yn y Ddeddf. Gellir defnyddio ysgogiadau amhenodedig, gan gynnwys monitro manylach a'r rhai sy'n gysylltiedig â chyllid, ochr yn ochr â defnyddio pwerau ymyriadau penodedig hefyd er mwyn ategu'r ymyriadau hynny a hybu cydymffurfedd. Ar gyfer darparwyr a gyllidir nad ydynt ar y gofrestr, efallai mai defnyddio pwerau cyllido fyddai'r ymyrraeth fwyaf llym y gellir ei chymhwyso gan Medr. Ar gyfer darparwyr addysg bellach, gall Gweinidogion Cymru hefyd gyflawni ymyriadau mwy difrifol a bennir yn y Ddeddf mewn ymgynghoriad â Medr.

## 8.5. Tryloywder a Thegwch

8.5.1. Bydd penderfyniadau i uwchgyfeirio i ymyrraeth wastad yn cael eu cyfleu'n eglur, gan ddarparu rhesymau a chyfleoedd i ddarparwyr ymateb. Byddwn hefyd yn

sicrhau bod prosesau penderfynu’n cael eu goruchwylio a’u dogfennu’n briodol. Nid yw uwchgyfeirio’n golygu methiant. Un rhan ydyw o system reoleiddio ehangach sydd wedi’i bwriadu i daro cydbwysedd rhwng atebolrwydd a chymorth, ac sy’n cydnabod cyfrifoldeb darparwyr i reoli risg, cynnal ansawdd, ac ymgysylltu’n agored â’r rheoleiddiwr.

## 9. Amseriad Dangosol Gweithgareddau Monitro

9.1. Er bod model monitro Medr wedi'i fwriadu i fod yn ymatebol ac yn gymesur, rydym yn cydnabod pwysigrwydd tryloywder a rhagweladwyedd o ran sut a phryd y gall darparwyr ddisgwyl ymgysylltu â ni. Nid yw'r holl weithgareddau monitro'n dilyn amserlen sefydlog – caiff llawer eu sbarduno gan risg neu bryder – ond bydd rhai elfennau o'n model yn digwydd ar adegau rheolaidd neu ddisgwyliedig yn y flwyddyn academaidd neu ariannol.

9.2. Mae'r adran hon yn amlinellu amseriad nodweddiadol gweithgareddau monitro rheolaidd a chylchol, yn ogystal â sut y gall elfennau mwy adweithiol neu ar sail risg godi ar draws y flwyddyn. Mae wedi'i bwriadu i gynorthwyo darparwyr i gynllunio a pharatoi ar gyfer ymgysylltu, gan gydnabod y gall amseriadau esblygu wrth i'r system reoleiddio aeddfedu.

## 10. Calendr Monitro

| Mis | Addysg Uwch | Addysg Bellach | Chweched Dosbarth | Prentisiaethau | Dysgu Oedolion yn y Gymuned |
|---|---|---|---|---|---|
| Medi | Data Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) | Data Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) (wedi'i gyflwyno'n barhaus drwy gydol y flwyddyn) | | | |
| Hydref | | | | | |
| Tachwedd | Cyflwyno diweddariad recriwtio myfyrwyr<br>Dyddiad cau cyflwyno cyfrifon archwiliedig 30/11 | | | | |
| Rhagfyr | Dyddiad cau cyflwyno Ffurflen Sicrwydd Blynyddol 31/12 | Dyddiad cau cyflwyno Ffurflen Sicrwydd Blynyddol 31/12<br>Cyfrifon Archwiliedig 31/12 | Dyddiad cau cyflwyno Ffurflen Sicrwydd Blynyddol 31/12 | Dyddiad cau cyflwyno Ffurflen Sicrwydd Blynyddol 31/12 | Dyddiad cau cyflwyno Ffurflen Sicrwydd Blynyddol 31/12 |
| Ionawr | Cyflwyno cofnod cyllid HESA<br>Cyflwyno ffurflen TRAC – 31/01 | Cofnod cyllid | | | |
| Chwefror | | | | | |
| Mawrth | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ebrill | | | | | |
| Mai | | | | | |
| Mehefin | | | | | |
| Gorffennaf | Rhyddhau Canlyniadau’r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol<br>Cyflwyno rhagolygon ariannol – 31/07 | Cyflwyno rhagolygon ariannol – 31/07 | | | |
| Awst | | | | | |
| Dyddiad cyflwyno yn cael ei bennu gan ddiwedd y flwyddyn | | | | Datganiadau ariannol archwiliedig erbyn y dyddiad cyflwyno statudol<br><br>Rhagolygon ariannol | Datganiadau ariannol archwiliedig erbyn y dyddiad cyflwyno statudol<br><br>Rhagolygon ariannol |

# Manylion Atodol: Digwyddiadau y Mae’n Rhaid eu Hadrodd

## Crynodeb

**Yn berthnasol i:**

- bob darparwr a gyllidir a phob darparwr cofrestredig a phob amod cofrestru neu gyllido

## Digwyddiadau y Mae’n Rhaid eu Hadrodd

1. Mae Digwyddiadau y Mae’n Rhaid eu Hadrodd yn cynnwys digwyddiadau difrifol a digwyddiadau hysbysadwy.

## Asesiad

2. Bydd Digwyddiadau y Mae’n Rhaid eu Hadrodd yn cael eu defnyddio i oleuo asesiad Medr o gydymffurfedd ag amodau cofrestru neu gyllid parhaus, fel y nodir yn ein dull o fonitro.

## Adnabod Materion y Dylid Adrodd Amdanynt

3. Cyfrifoldeb darparwr yw penderfynu a yw digwyddiad neu fater penodol yn gyfystyr â digwyddiad y mae’n rhaid eu hadrodd ac a **ddylid** adrodd amdano.

4. Os ydym yn dod i’r casgliad nad yw darparwr wedi adrodd am ddigwyddiad, neu fod darparwr, wrth adrodd am ddigwyddiad, heb fodloni’r graddfeydd amser ar gyfer adrodd, efallai y byddwn yn cymryd camau rheoleiddio pellach.

5. Os ydym yn dod i’r casgliad bod patrwm o dan-adrodd am ddigwyddiadau, neu beidio â bodloni’r graddfeydd amser ar gyfer adrodd, efallai y byddwn yn cymryd camau rheoleiddio pellach.

6. Os ydym yn dod i’r casgliad bod darparwr yn goradrodd am ddigwyddiadau, byddwn yn ymgysylltu â’r darparwr i sicrhau eu bod yn deall ein gofynion adrodd.

7. Rydym o'r farn bod **rhaid** adrodd i bob darparwr adrodd bob amser am faterion a nodir yn Nhabl 1, oherwydd bod y rhain yn faterion, yn ein barn ni, y byddai darparwr rhesymol bob amser yn eu hystyried yn faterion y mae'n rhaid eu hadrodd. Rydym hefyd o'r farn y byddai darparwr rhesymol yn hysbysu Medr am y materion a nodwyd yn Nhabl 2.

8. Efallai y bydd achosion o fethiant difrifol sy'n peryglu cydymffurfedd ag unrhyw amod rheoleiddiol neu'n cyflwyno risg i ddysgwyr sydd y tu allan i'r rhestr a gynhwysir yn Nhablau 1 a 2. Yn yr achosion hyn, **dylai** darparwyr ddefnyddio eu barn a gallent ofyn am gyngor neu eglurhad gan Medr. Byddwn yn adolygu Tablau 1 a 2 yn rheolaidd.

## Digwyddiadau y tu Allan i Gwmpas Digwyddiadau y Mae'n Rhaid eu Hadrodd

9. Efallai y bydd gwybodaeth a hysbysiadau y mae'n ofynnol i chi eu rhannu gyda ni fel rhan o'n gweithgarwch parhaus i fonitro cydymffurfedd â'ch amodau cofrestru/cyllid. Ceir yr wybodaeth hon o dan bob amod, ac nid yw'n rhan o'r Digwyddiadau y Mae'n Rhaid eu Hadrodd. Mae Digwyddiadau y Mae'n Rhaid eu Hadrodd yn ymwneud â digwyddiadau difrifol a digwyddiadau hysbysadwy yn unig fel y nodir ym manylion atodol y gofynion hyn.

## Digwyddiadau sy'n Ymwneud â Mwy Nag un Thema

10. Mae'r rhestr o ddigwyddiadau difrifol yn Nhabl 1 a'r rhestr o ddigwyddiadau hysbysadwy yn Nhabl 2 wedi'u grwpio'n themâu. Mae hyn at ddibenion eglurhaol yn unig ac mae'n debygol o fod yn wir bod digwyddiad neu fater penodol yn berthnasol i nifer o themâu.

## Digwyddiadau sy'n Ymwneud â Mwy Nag un Darparwr

11. Mae Medr yn cydnabod y bydd digwyddiadau neu faterion weithiau'n digwydd y mae'n **rhaid** i fwy nag un darparwr adrodd amdanynt. Mewn amgylchiadau o'r fath, **dylai** pob darparwr ffurfio ei farn ei hun ar ôl ystyried a **ddylid** adrodd am ddigwyddiad.

## Cyflwyno Digwyddiadau y Mae'n Rhaid eu Hadrodd

### Digwyddiadau difrifol

12. Mae'n ofynnol i ddarparwyr adrodd am ddigwyddiad difrifol o fewn 10 niwrnod gwaith i'r digwyddiad neu pan fydd y digwyddiad yn cael ei adnabod. Er mwyn osgoi amheuaeth, mae digwyddiad difrifol yn cael ei adnabod ar yr adeg y mae darparwr yn adnabod digwyddiad sy'n debygol, digwyddiad sy'n ymwneud â chynlluniau a/neu wybodaeth yn y dyfodol a allai ddwyn canlyniadau yn y dyfodol ac a fyddai felly'n arwain at ddigwyddiad difrifol.

13. Os yw digwyddiad difrifol yn ymwneud â'r swyddog atebol, nid yw'n debygol o fod yn briodol i'r swyddog atebol wneud yr adroddiad i Medr. Yn yr amgylchiadau hyn, **rhaid** i'r corff llywodraethu ei hun wneud yr adroddiad neu ddirprwyo'r cam gweithredu i adrodd am y mater i unigolyn priodol arall heblaw'r swyddog atebol. Lle mae'r swyddog atebol yn destun adroddiad, **rhaid** i'r unigolyn sy'n gwneud yr adroddiad ddatgan yn glir na fyddai'n briodol i Medr ymateb i'r swyddog atebol.

14. Lle mae darparwyr yn ansicr a yw'n ofynnol adrodd am ddigwyddiad difrifol, rydym yn annog deialog anffurfiol gychwynnol gyda'r tîm perthnasol yn Medr, yn unol â'n dull "dim syrpreisys".

15. **Rhaid** cyflwyno digwyddiad difrifol yn ysgrifenedig trwy e-bost i sicrwydd@medr.cymru.

16. Pan fydd darparwr yn cyflwyno digwyddiad difrifol, **rhaid** i'r wybodaeth a gyflwynir gynnwys y canlynol:

    (a) disgrifiad o'r digwyddiad yr adroddir amdano
    (b) a yw'r digwyddiad wedi bod ynteu heb fod eto, ac
    (c) dyddiad y digwyddiad (os yw'r digwyddiad wedi bod)

17. **Rhaid** darparu'r wybodaeth ganlynol cyn gynted â phosibl a dim hwyrach nag un mis calendr ar ôl cyflwyno'r digwyddiad difrifol:

    (a) ymholiadau a wnaed a chamau gweithredu a gymerwyd gan y darparwr, gan gynnwys unrhyw adroddiadau i reoleiddwyr eraill neu'r heddlu
    (b) effaith y digwyddiad ar y darparwr a'i randdeiliaid, gan gynnwys dysgwyr, staff a phartneriaid
    (c) cadarnhad yr adroddwyd am y digwyddiad trwy strwythur llywodraethu'r darparwr, ac wrth bwy, ac wrth brif swyddog archwilio gweithredol y darparwr (neu swyddog cyfatebol)
    (d) y rheolaethau sydd ar waith a oedd yn berthnasol i'r digwyddiad, p'un a gawsant eu dilyn ac os naddo, pam hynny
    (e) a yw'r darparwr wedi penderfynu bod angen cyflwyno neu ddiwygio rheolaethau – ac os felly, y cynllun i weithredu'r newidiadau gofynnol, ac
    (f) a fydd y digwyddiad, ym marn y swyddog archwilio gweithredol, yn cael unrhyw effaith ar eu barn flynyddol ynglŷn â phrosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu

18. Os ceir ymchwiliad mewnol i'r digwyddiad, **rhaid** i'r darparwr ddarparu copi o adroddiad yr ymchwiliad pan fydd hwn ar gael.

19. Ar ôl i ddarparwr gyflwyno digwyddiad difrifol, bydd Medr yn adolygu'r wybodaeth a ddarparwyd ac yn asesu ei hygrededd, ei dibynadwyedd a'i chyflawnrwydd. Efallai y byddwn yn gofyn i'r darparwr am ragor o wybodaeth ac efallai y byddwn hefyd yn cyflwyno ymholiadau i gyrff eraill, neu'n gofyn am ragor o wybodaeth ganddynt, os yw hyn yn ofynnol.

**Digwyddiadau hysbysadwy**

20. Mae'n ofynnol i ddarparwyr adrodd am ddigwyddiad hysbysadwy o fewn 10 niwrnod gwaith i'r digwyddiad neu pan fydd y digwyddiad yn cael ei adnabod. Er mwyn osgoi amheuaeth, mae digwyddiad hysbysadwy yn cael ei adnabod ar yr adeg y mae darparwr yn adnabod digwyddiad sy'n debygol, digwyddiad sy'n ymwneud â chynlluniau a/neu wybodaeth yn y dyfodol a allai ddwyn canlyniadau yn y dyfodol ac a fyddai felly'n arwain at ddigwyddiad hysbysadwy.

21. Lle mae darparwyr yn ansicr a yw'n ofynnol adrodd am ddigwyddiad hysbysadwy, rydym yn annog deialog anffurfiol gychwynnol gyda'r tîm perthnasol yn Medr, yn unol â'n dull "dim syrpreisys".

22. **Rhaid** cyflwyno digwyddiad hysbysadwy yn ysgrifenedig trwy e-bost i sicrwydd@medr.cymru.

23. Pan fydd darparwr yn cyflwyno digwyddiadau hysbysadwy, **rhaid** i'r hyn a gyflwynir ystyried unrhyw wybodaeth benodol sy'n ofynnol ar gyfer y digwyddiadau hynny, fel y nodir yn Nhabl 2.

## Adolygiad Medr o Ddigwyddiadau y Mae'n Rhaid eu Hadrodd

### Digwyddiadau difrifol

24. Defnyddir digwyddiadau difrifol ar gyfer gweithgarwch parhaus i fonitro gwahanol amodau cofrestru/cyllid. Bydd Medr yn ystyried y digwyddiad difrifol yng nghyd-destun y darparwr ac yn penderfynu a oes unrhyw ymgysylltu pellach, gweithredu pellach neu ragor o wybodaeth yn ofynnol.

25. Lle mae rhagor o ymgysylltu, gweithredu neu wybodaeth yn ofynnol, byddwn yn cyfleu hyn yn glir i'r darparwr. Byddwn yn gweithio gyda darparwyr ac efallai y byddwn yn disgwyl i ddarparwr barhau i ymgysylltu â ni ynghylch y digwyddiad difrifol, cymryd camau gweithredu priodol a/neu roi gwybodaeth ychwanegol i ni.

26. Os nad yw'n ofynnol i'r darparwr gymryd camau pellach na darparu gwybodaeth ychwanegol, byddwn yn cyfleu hyn yn glir i'r darparwr. Efallai y byddwn hefyd yn egluro wrth y darparwr dan ba amgylchiadau y gallai Medr fod â diddordeb yn y digwyddiad difrifol hwn yn y dyfodol. Pa un a ydym yn gwneud hynny, mewn unrhyw achos penodol, bydd hynny'n dibynnu ar ffeithiau penodol y digwyddiad difrifol a chyd-destun y darparwr. Yn yr achos hwn, byddwn yn gweithio yn unol â'n dull o fonitro.

### Digwyddiadau hysbysadwy

27. Defnyddir digwyddiadau hysbysadwy i roi gwybodaeth i Medr sy'n ymwneud ag amryw amodau cofrestru/cyllid neu fanylion am newidiadau allweddol o fewn darparwr. Bydd Medr yn ystyried y digwyddiad hysbysadwy yng nghyd-destun y darparwr ac yn penderfynu a oes unrhyw ymgysylltu pellach neu ragor o wybodaeth yn ofynnol.

28. Pan fo rhagor o ymgysylltu neu wybodaeth yn ofynnol, byddwn yn cyfleu hyn yn glir i'r darparwr. Byddwn yn gweithio gyda darparwyr ac efallai y byddwn yn disgwyl i ddarparwr barhau i ymgysylltu â ni ynghylch y digwyddiad hysbysadwy a/neu roi gwybodaeth ychwanegol i ni.

29. Os nad oes rhagor o wybodaeth gan y darparwr yn ofynnol, byddwn yn cyfleu hyn yn glir i'r darparwr.

### Tabl 1: Rhestr o Ddigwyddiadau Difrifol

| Math o ddigwyddiad difrifol |
| --- |
| **(a) Perchnogaeth, ffurf gyfreithiol neu strwythur corfforaethol y darparwr, gan gynnwys, ymhlith eraill:** |
| Yr endid cyfreithiol sydd wedi'i gofrestru yn peidio â bodoli mwyach |
| **(b) Darparu addysg drydyddol yng Nghymru, gan gynnwys, ymhlith eraill:** |
| Colli, gan gynnwys atal, trwydded noddwr myfyrwyr darparwr |
| **(c) Ansawdd a safonau cyrsiau trydyddol darparwr, gan gynnwys, ymhlith eraill:** |
| Hysbysiad i'r darparwr ynghylch ymchwiliad i'r darparwr gan sefydliad dyfarnu neu gorff proffesiynol neu statudol |
| Hysbysiad i'r darparwr bod ei sefydliad dyfarnu'n bwriadu tynnu'n ôl o'r trefniant cyn diwedd cyfnod y contract |
| Lle mae darparwr yn credu bod rheswm dros gredu bod ansawdd y ddarpariaeth y mae'n ei chyflwyno neu y mae partner yn ei chyflwyno ar ei ran yn annigonol neu'n debygol o ddod yn annigonol i ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr |
| Unrhyw ddigwyddiadau eraill a allai effeithio ar ansawdd y ddarpariaeth a gyflwynir i ddysgwyr, gan gynnwys, ymhlith eraill, o ganlyniad i faterion sy'n effeithio ar gyfleusterau, staffio, neu allu'r darparwr i gyflwyno ei ddarpariaeth yn effeithiol |
| **(d) Diogelu myfyrwyr a defnyddwyr, gan gynnwys, ymhlith eraill:** |
| Mae'r darparwr yn dod yn ymwybodol ei fod wedi codi neu hysbysebu ffioedd sy'n uwch na therfyn ffioedd statudol neu derfyn ffioedd a osodwyd o ganlyniad i gael ei gofrestru yng nghategori craidd y gofrestr |
| **(e) Hyfywedd neu gynaliadwyedd ariannol y darparwr, gan gynnwys, ymhlith eraill:** |
| Penderfyniadau neu gyhoeddiadau y bernir eu bod yn debygol o ddenu diddordeb sylweddol gan y cyhoedd. Gall y rhain gynnwys, ymhlith eraill:<br>1. prosiectau ailstrwythuro sylweddol sy'n cynnwys newidiadau i staffio a/neu seilwaith ffisegol<br>2. cau cyrsiau<br>3. adleoli<br>4. ad-drefnu arall sy'n cael ei ysgogi'n ariannol<br>**Rhaid** i'r hysbysiad gynnwys gwybodaeth am y rhesymeg dros unrhyw newidiadau arfaethedig, cynlluniau ymgysylltu a chyfathrebu gyda rhanddeiliaid a chadarnhad y bu goruchwyliaeth ar y penderfyniad hwn trwy strwythur llywodraethu'r darparwr<br>Diweddariadau rheolaidd i'w darparu wrth i'r sefyllfa ddatblygu |
| **(f) Rheoli a llywodraethu, gan gynnwys rheoli ariannol, gan gynnwys, ymhlith eraill:** |
| Cychwyn adolygiad o effeithiolrwydd llywodraethu lle nad yw hyn yn rhan arferol o drefniadau arfaethedig darparwr |
| Methiant sylweddol neu ddiffygion mewn rheolaethau mewnol |
| Achos cyfreithiol neu achos llys yn erbyn y darparwr, lle mae'r achos cyfreithiol neu'r achos llys yn erbyn neu o ganlyniad i gamau gweithredu:<br>1. unrhyw aelod o'r corff llywodraethu<br>2. y swyddog atebol<br>3. aelod o'r tîm gweithredol uwch, a/neu<br>4. achos unigol, neu batrwm o achosion, sy'n amlygu gwendid systemig yn nhrefniadau rheoli a llywodraethu'r darparwr |
| Ymchwiliad rheoleiddiol a/neu sancsiynau gan reoleiddwyr neu gyrff cyllido eraill |

| |
|---|
| Achos sylweddol o dorri diogelwch data neu seiber-ymosodiad sy'n arwain at achos sylweddol o golli data dysgwyr neu staff neu darfu ar wasanaethau sy'n arwain at effaith ar ddysgwyr |
| Diogelu, gan gynnwys:<br>1. marwolaeth neu niwed sylweddol ar eiddo a berchnogir gan, a lesir gan neu a feddiannir gan y darparwr<br>2. marwolaeth neu niwed sylweddol wrth gyflawni gweithgareddau oddi ar y safle o dan oruchwyliaeth darparwr<br>3. marwolaeth neu niwed sylweddol o ganlyniad i weithredoedd darparwr<br>4. canfyddiadau adroddiad crwner lle mae'r rhain yn ymwneud â marwolaeth dysgwr neu staff ac yn amlygu gwendid neu fethiant yn nhrefniadau rheoli a llywodraethu'r darparwr<br>5. aelod o staff neu aelod o'r corff llywodraethu yn euog o drosedd diogelu yn erbyn dysgwr neu aelod o staff y darparwr |

### Tabl 2: Rhestr o Ddigwyddiadau Hysbysadwy

| **Math o ddigwyddiad hysbysadwy** |
|---|
| **(a) Yn berthnasol i bob amod:** |
| Os yw'r swyddog atebol yn cynghori'r corff llywodraethu y byddai cam gweithredu neu bolisi sy'n cael ei ystyried gan y corff llywodraethu'n golygu y byddai'r darparwr yn torri'r amodau cofrestru a/neu gyllid parhaus a bod y corff llywodraethu'n penderfynu serch hynny y bydd yn bwrw ymlaen â'r cam gweithredu neu'r polisi hwn<br>**Rhaid** i'r hysbysiad gynnwys y penderfyniad a wnaed gan y corff llywodraethu a'r rheswm/rhesymau y mae'r swyddog atebol yn credu y byddai penderfyniad o'r fath yn arwain at dorri amod |
| **(b) Perchnogaeth, ffurf gyfreithiol neu strwythur corfforaethol y darparwr, gan gynnwys, ymhlith eraill:** |
| Darparwr yn uno â darparwr arall, neu'n cael ei gaffael gan ddarparwr arall |
| Newid perchnogaeth, gan gynnwys trwy werthu, y darparwr neu ei riant |
| Newid yn ffurf gyfreithiol y darparwr |
| Diwygiadau sylweddol i ddogfennau llywodraethu'r darparwr a natur y diwygiadau hyn |
| **(c) Darparu addysg drydyddol yng Nghymru, gan gynnwys, ymhlith eraill:** |
| Y darparwr yn penderfynu rhoi'r gorau i ddarparu addysg drydyddol neu fath penodol o addysg drydyddol yn sylweddol neu'n llwyr, pa un a yw hyn yn arwain at gau'r darparwr ai peidio |
| Newidiadau sydd â'r potensial i achosi i'r darparwr beidio â bod wedi'i leoli yng Nghymru yn bennaf |
| **(d) Rheoli a llywodraethu, gan gynnwys rheoli ariannol, gan gynnwys, ymhlith eraill:** |
| Penodi'r canlynol:<br>1. Cadeirydd y corff llywodraethu<br>2. Cadeirydd y pwyllgor archwilio<br>3. Clerc y corff llywodraethu<br>4. Swyddog atebol<br>5. Aelod o'r tîm gweithredol uwch |
| Dirprwyo rôl y swyddog atebol, os disgwylir i'r swyddog atebol fod yn absennol am gyfnod o 20 niwrnod gwaith neu fwy |
| Diswyddiad neu ymddiswyddiad, pan nad yw hyn yn ganlyniad arferol i ddiwedd eu cyfnod, a'r rheswm/rhesymau dros yr ymadawiad:<br>1. Cadeirydd y corff llywodraethu<br>2. Cadeirydd y pwyllgor archwilio |
| Gadael eu swydd oherwydd anghytundeb, diswyddo neu ymddiswyddiad gorfodol, gan gynnwys lle mae pecyn diswyddo yn daladwy, a'r rheswm/rhesymau dros yr ymadawiad:<br>1. Clerc y corff llywodraethu<br>2. Swyddog atebol<br>3. Aelod o'r tîm gweithredol uwch |
| Mae'r prif weithredwr archwilio yn rhoi'r gorau i ddal ei swydd am unrhyw reswm. Lle mae'r swyddog archwilio gweithredol yn rhoi'r gorau i ddal ei swydd am unrhyw reswm, **rhaid** iddo:<br>1. roi i'r corff llywodraethu naill ai datganiad am unrhyw amgylchiadau sy'n gysylltiedig â'i ymddiswyddiad neu ei ddiswyddiad y **dylid** eu dwyn i sylw'r corff |

| |
|---|
| llywodraethu yn ei dyb ef, neu ddatganiad nad oes amgylchiadau o’r fath<br>2. rhoi copi o’r datganiad hwn i Medr o fewn tri mis i’r dyddiad y’i cafwyd gan y corff llywodraethu |
| Rhoi’r gorau i ddefnyddio gwasanaethau archwilydd allanol presennol a phenodi archwilydd allanol newydd. Lle mae’r archwilwyr allanol yn peidio â dal ei swydd am unrhyw reswm, **rhaid** iddo<br>1. roi i’r corff llywodraethu naill ai datganiad am unrhyw amgylchiadau sy’n gysylltiedig â’i ymddiswyddiad neu ei ddiswyddiad y **dylid** eu dwyn i sylw’r corff llywodraethu yn ei dyb ef, neu ddatganiad nad oes amgylchiadau o’r fath<br>2. rhoi copi o’r datganiad hwn i Medr o fewn tri mis i’r dyddiad y’i cafwyd gan y corff llywodraethu |
| Lle disgwylir oedi gyda ffurflenni data ariannol. Pan ydynt o fewn y cwmpas, mae hyn yn cynnwys ffurflenni a gyflwynir i HESA neu’r Swyddfa Fyfyrwyr |
| Lle disgwylir oedi cyn cyflwyno a/neu gyhoeddi datganiadau ariannol archwiliedig |
| Cadarnhad bod goruchwyliaeth ar y cytundeb diswyddo trwy strwythur llywodraethu’r darparwr ar gyfer unrhyw gytundebau diswyddo sydd â gwerth o £100,000 neu fwy. Mae gwerth yn y cyd-destun hwn yn cyfeirio at daliadau diswyddo, straen pensiwn, absenoldeb garddio a thâl yn lle rhybudd. Nid yw gwerth yn y cyd-destun hwn yn cynnwys talu am wyliau blynyddol nas defnyddiwyd. |
| Mae twyll neu afreoleidd-dra ariannol yn digwydd yn y darparwr lle mae’r symiau arian, neu lle gallai’r symiau arian fod, yn fwy na £50,000 neu 2% o drosiant y darparwr, pa un bynnag yw’r isaf.<br>Mewn achosion o’r fath, dylid adrodd am yr achosion canlynol o dwyll ac afreoleidd-dra ariannol, os yw’r twyll neu’r afreoleidd-dra ariannol yn digwydd yn y darparwr lle mae’r symiau ariannol, neu lle gallai’r symiau ariannol fod, yn is na £50,000 neu 2% o drosiant y darparwr, pa un bynnag yw’r isaf:<br>1. ymchwiliad i dwyll neu afreoleidd-dra ariannol posibl sy’n ymwneud â’r darparwr sy’n amlygu gwendid systemig yn nhrefniadau rheolaeth fewnol y darparwr sy’n awgrymu y gallai achosion eraill, heb eu adnabod eto, fod yn digwydd a’r camau gweithredu sy’n cael eu cymryd gan y darparwr i fynd i’r afael â’r gwendid hwn<br>2. mae twyll yn digwydd yn y darparwr sy’n amlygu gwendid systemig yn nhrefniadau rheolaeth fewnol y darparwr sy’n awgrymu y gallai achosion eraill, heb eu hadnabod eto, fod yn digwydd, a’r camau gweithredu sy’n cael eu cymryd gan y darparwr i fynd i’r afael â’r gwendid hwn; a/neu<br>3. mae’r twyll yn un o batrwm ailadroddus o dwyll ar raddfa fach |
| Y darparwr yn dargyfeirio i feysydd gweithgarwch newydd yr aseswyd eu bod yn rhai risg uchel gan y darparwr |
| Mater sy’n ymwneud â chydymffurfedd y darparwr â dyletswydd Prevent |
| Achosion lle nad yw adroddiadau ariannol yn cael eu rhannu gan y weithrediaeth drwy’r strwythur llywodraethu er mwyn galluogi gwneud penderfyniadau effeithiol. Mae hyn yn cynnwys adrodd yn ôl-weithredol. Nid yw adrodd ôl-weithredol yn y cyd-destun hwn yn cynnwys gwybodaeth atodol a ddarperir yn ôl y cais oni bai bod yr wybodaeth honno’n arwyddocaol i ddeall y sefyllfa ariannol wirioneddol. |

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

## Amod: Cynaliadwyedd Ariannol

**Rhaid** i ddarparwr sydd wedi cofrestru gyda Medr neu sy'n cael ei gyllido ganddo:

- fodloni Medr ynghylch ei gynaliadwyedd ariannol

### Categori Amod

Mae hwn yn amod cychwynnol a pharhaus ar gyfer cofrestru. Mae hwn yn amod cyllido.

### Sail Gyfreithiol

O dan Adran 27 a 31 o **Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022** (y Ddeddf), mae'n ofynnol i Medr ddatblygu amod mewn perthynas â "chynaliadwyedd ariannol y darparwr".

O dan Adran 108 o'r Ddeddf, gall Medr ddatblygu telerau ac amodau cyllido mewn perthynas â chynaliadwyedd ariannol y darparwr.

O dan Adran 80, mae'n ofynnol i Medr fonitro cynaliadwyedd ariannol:

(a) darparwyr cofrestredig;
(b) darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru

  (i) sy'n sefydliadau o fewn y sector addysg bellach
  (ii) a gyllidir gan y Comisiwn o dan Adran 97
  (iii) nad ydynt yn ddarparwyr cofrestredig

(c) darparwyr addysg drydyddol eraill o fath a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

### Gofynion Cydymffurfio

1. Ystyr 'ariannol gynaliadwy' yw bod Medr o'r farn bod cynlluniau ac amcanestyniadau'r darparwr (gan gynnwys unrhyw is-gwmnïau neu endidau y mae'n arfer rheolaeth neu ddylanwad sylweddol drostynt) yn dangos bod ganddo ddigon o

adnoddau ariannol i barhau i weithredu fel busnes gweithredol a rhoi strategaethau ar waith ar gyfer yr hirdymor sy'n seiliedig ar dybiaethau rhesymol.

2. **Rhaid** bod gan y darparwr gynlluniau credadwy i sicrhau y **bydd** yn:

- parhau i fod yn ariannol hyfyw yn y tymor byr, sef un i ddwy flynedd, heb unrhyw reswm dros dybio bod y darparwr yn wynebu risg sylweddol o ansolfedd[1] o fewn y cyfnod hwn
- parhau i fod yn ariannol gynaliadwy dros y tymor canolig, sef tair i bum mlynedd - gan cydnabod y bydd strategaethau darparwyr yn cynnwys canlyniadau dros gyfnod o bum mlynedd er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol hirdymor, profiad dysgu o ansawdd da a, lle y bo'n berthnasol, ymchwil ac arloesi o ansawdd da. Ni fydd Medr yn monitro cyflawniadau tymor hwy o'r fath yn benodol, ond bydd yn rhoi sylw dyladwy i'r rhain yng nghyd-destun deall strategaethau cynaliadwyedd ariannol
- cynnal cynaliadwyedd ariannol digonol i anrhydeddu'r ymrwymiadau y mae wedi eu gwneud i ddarparu'r cyrsiau trydyddol y mae wedi ymrwymo i'w darparu a'u darparu'n llawn
- monitro cydymffurfedd ag unrhyw ofynion mewn cyfamodau sy'n gysylltiedig â rhwymedigaethau ariannol a hysbysu Medr yn amserol pan ragwelir y bydd cyfamodau o'r fath yn cael eu torri
- monitro llif arian parod, lefelau cyfalaf gweithio a'r defnydd o orddrafftiau neu gyfleusterau

3. **Rhaid** i'r darparwr ofyn am adolygiad o lywodraethu gan Medr cyn ymgymryd ag ymrwymiad ariannol[2] newydd lle mae Medr eisoes wedi dyroddi trothwy ymrwymiadau ariannol i'r darparwr ac:

- lle y disgwylir i unrhyw drothwy lluosrif a/neu ymrwymiadau ariannol a gyfrifwyd ac a ddyroddwyd gan Medr yn seiliedig ar wybodaeth a gyflwynwyd gael ei ragori o ganlyniad i'r ymrwymiad newydd;
- lle mae Medr eisoes wedi dyroddi trothwy ymrwymiadau ariannol i'r darparwr ac wedi hysbysu'r darparwr y byddant yn "cynyddu'r ymgysylltiad"

Mae'r adolygiad o lywodraethu'n galluogi Medr i asesu digonolrwydd a chyflawnder trefniadau llywodraethu a phroses gymeradwyo darparwr**.** Nid oes gofyniad i geisio adolygiad o lywodraethu lle nad yw Medr wedi dyroddi trothwy o'r fath neu os nad yw cyfanswm yr ymrwymiadau newydd yn fwy na'r trothwy a ddyroddwyd.

4. **Bydd** y ddarparwr yn hysbysu Medr lle mae perfformiad andwyol yn dynodi mwy o bwysau ar gynaliadwyedd ariannol. **Gallai'r** dangosyddion hyn gynnwys, ymhlith eraill:

- rhagolygon arian parod misol sy'n dynodi dirywiad mewn cyfalaf gweithio gweithredol i 30 diwrnod neu lai dros gyfnod estynedig
- defnydd parhaus a/neu gynyddol o gyfleusterau banc

[1] Mae 'ansolfedd' yn golygu bod y darparwr yn methu â thalu ei ddyledion wrth iddynt ddod yn ddyledus. Mae methu â thalu dyledion wrth iddynt ddod yn ddyledus yn meddu ar yr ystyr a roddir gan Adran 123 o Ddeddf Ansolfedd 1986, gan roi 'Medr' yn lle 'y llys' yn Adran 123(2).
[2] Mae ymrwymiadau ariannol, neu fenthyciadau, yn cyd-fynd â'r diffiniad mewn arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn y DU.

- colli neu ostyngiad mewn ffrydiau incwm arwyddocaol neu ddigwyddiadau andwyol perthnasol eraill nas rhagwelwyd

5. **Bydd** y darparwr yn hysbysu Medr ymhell cyn iddo wynebu unrhyw anawsterau wrth gyflawni rhwymedigaethau.

6. Mae Medr yn cydnabod y gallai fod amgylchiadau strategol sy'n achosi i'r sefydliad wneud diffyg wedi'i gynllunio dros gyfnod byr o amser; er enghraifft, buddsoddiad strategol ar gyfer twf, lle nad yw'r adenillion ar fuddsoddiad yn cael eu gwireddu ar unwaith, neu i hwyluso proses ailstrwythuro strategol a reolir. Byddem yn disgwyl, fel rhan o'n hymgysylltiad monitro arferol â darparwyr, cael digon o fewnwelediad i ddeall cynlluniau darparwyr ar gyfer dychwelyd at gynaliadwyedd ariannol lle mae rhagolygon yn cynnwys diffygion neu gynhyrchu arian parod gweithredol isel neu negatif (EBITDA wedi'i addasu).

## Monitro Cychwynnol

Yn ystod y broses gofrestru gychwynnol, bydd Medr yn cynnal asesiad cynhwysfawr o berfformiad a sefyllfa ariannol y darparwr, i oleuo dyfarniad risg Medr o dan Adran 27 o'r Ddeddf. Bydd hyn yn galluogi Medr i adnabod unrhyw bwysau a meysydd risg a sicrhau bod yr amodau cofrestru parhaus a'r trefniadau monitro parhaus cysylltiedig a gymhwysir i'r darparwr ar adeg cofrestru'n gymesur â risg reoleiddiol.

Mae darparwyr yn dangos cydymffurfedd â'r Amod cychwynnol ar Gynaliadwyedd Ariannol trwy gyflwyno tystiolaeth foddhaol o'u perfformiad ariannol yn y gorffennol a'r presennol (lle mae'r darparwr wedi gweithredu o'r blaen), yn ogystal â rhagolygon. Y dystiolaeth[3] y byddai Medr yn ei gwneud yn ofynnol fel arfer yw:

- datganiadau ariannol wedi'u harchwilio'n llawn[4] [5] ar gyfer y tair blynedd ddiwethaf, lle mae'r darparwr wedi bod yn gweithredu ac yn darparu addysg drydyddol am y cyfnod hwn. Lle mae'r darparwr wedi bod yn gweithredu am lai na thair blynedd, am y cyfnod y mae'r darparwr wedi bod yn gweithredu ac yn darparu addysg drydyddol. **Rhaid** paratoi'r rhain o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol (yn y DU neu'n rhyngwladol). **Rhaid** i'r archwilydd allanol fod yn annibynnol ar y darparwr, ac ar baratöwr y datganiadau ariannol, a bod wedi'i restru ar y Gofrestr Archwilwyr Statudol
- tablau rhagolygon ariannol a gymeradwywyd gan gorff llywodraethu'r darparwr (gan gynnwys cyllideb y flwyddyn gyfredol a rhagolygon pedair blynedd ar gyfer data ariannol a data niferoedd myfyrwyr, yn ogystal â manylion sylfaenol unrhyw gynlluniau twf neu ddadfuddsoddi). Lle y bo'n berthnasol ac y gofynnir amdanynt gan Medr, **bydd** y rhain yn cynnwys manylion modelu senarios dirywiad a sensitifrwydd a gynhaliwyd wrth baratoi rhagolygon ariannol. **Byddir** yn tybio bod y rhagolygon hyn yn wybodaeth a ddarperir yn gyfrinachol, oni nodir fel arall, er mwyn sicrhau eu bod yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol i asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â'u cyflawni

---

[3] Bydd Medr yn parchu cyfrinachedd masnachol, o fewn ffiniau gofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
[4] Ni dderbynnir datganiadau ariannol cryno cwmni bach.
[5] Gall Medr dderbyn datganiadau ariannol heb eu harchwilio neu ddatganiadau ariannol wedi'u harchwilio'n annibynnol. Bydd penderfyniad Medr ar hyn yn cael ei wneud fesul achos yn unol â'n hystyriaeth o gymesuredd.

- sylwebaeth i gefnogi'r tablau rhagolygon ariannol i sicrhau bod Medr yn deall cyd-destun y darparwr a'r tybiaethau sy'n sail i'w ragolygon.

Lle y bo'n berthnasol, bydd Medr hefyd yn ceisio gwybodaeth am y canlynol:

- cynlluniau busnes darparwyr (yn enwedig lle mae'r darparwr yn ariannol wan neu'n newydd i'r farchnad, lle nad oes ganddo ond hanes byr, os o gwbl, o weithrediadau a/neu ddarparu addysg uwch), gan gynnwys rhagolygon a thybiaethau cadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth dda
- manylion unrhyw fenthyciadau, boed o ffynonellau trydydd parti neu bartïon cysylltiedig
- gwarantau ariannol rhieni sy'n rhwymo'n gyfreithiol neu rwymedigaethau eraill sy'n rhwymo'n gyfreithiol o ran cymorth ariannol gan drydydd partïon, gan gynnwys tystiolaeth y gall y gwarantwr gyflawni'r weithred (os yw'r darparwr yn dibynnu ar warant o'r fath i fodloni'r amod) – **gall** hyn gynnwys datganiadau ariannol wedi'u harchwilio lle mae'r gwarantwr yn gwmni neu'n endid tebyg a phrawf o hunaniaeth a ffynonellau ariannu'r gwarantwr
- unrhyw dystiolaeth ategol berthnasol arall, megis cymeradwyaeth gan y corff dilysu ar gyfer unrhyw ragolygon niferoedd myfyrwyr, mynediad at gyllid banc a/neu ecwiti, ac unrhyw gyfyngiadau ar arian (er enghraifft, gan ymddiriedolaethau elusennol)

Er mwyn osgoi amheuaeth lle mae'r darparwr yn rhan o strwythur grŵp, bydd yr egwyddorion canlynol yn berthnasol mewn perthynas â chyflwyno ffurflenni blynyddol fel y nodir uchod:

- lle mae darparwr yn rhiant i grŵp, **rhaid** i'r ffurflenni gynnwys yr holl weithgareddau o fewn strwythurau grŵp y mae'r darparwr hwnnw'n gyfrifol amdanynt. Yn dibynnu ar faint y grŵp, **gellir** cyflwyno'r rhain fel safle cyfunol neu fel ffurflenni ar wahân.
- lle mae strwythur grŵp yn gymhleth ac yn cynnwys darparwyr cofrestredig **a** darparwyr sy'n ddarostyngedig i'r amod cyllido, byddwn yn ystyried gofynion adrodd fesul achos. **Dylai** darparwyr gysylltu â Medr i drafod gofynion.
- lle mae darparwr yn rhan o grŵp, ac nad yw gweddill gwybodaeth ariannol y grŵp eisoes yn cael ei chyflwyno i Medr, **rhaid** cyflwyno ffurflenni i alluogi Medr i asesu cynaliadwyedd ariannol y grŵp yn ei gyfanrwydd
- **gellir** gofyn am ffurflenni penodol i'w gwneud yn bosibl cymharu rhwng darparwyr tebyg neu gynnal dadansoddiad pwrpasol fel sy'n ofynnol

**Bydd** unrhyw asesiad o gynaliadwyedd sylfaenol yn cynnwys ystyried y gofynion parhaus ar gyfer rheoli ariannol, sydd wedi'u cynnwys yn yr amod ar gyfer Llywodraethu a Rheoli.

## Monitro Parhaus

Er mwyn monitro cydymffurfedd â'r amod parhaus ar Gynaliadwyedd Ariannol, ac i asesu sefyllfa a rhagolygon ariannol darparwyr unigol a'r sector yng Nghymru yn ei gyfanrwydd, bydd Medr yn mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar risg, gan osod isafswm y gofynion ar gyfer ymgysylltu a chasglu data er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau.

Bydd Medr yn defnyddio metrigau data, tueddiadau a dangosyddion ariannol allweddol fel sail i adnabod risg, ond bydd yn ceisio ategu'r rhain â dealltwriaeth gyd-destunol am y darparwr unigol, yn seiliedig ar drafod ac ymgysylltu.

Bydd Medr yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddarparwyr gyflwyno ffurflenni'n flynyddol er mwyn adrodd ar y lefel isaf o wybodaeth sy'n angenrheidiol. **Bydd** y rhain yn cynnwys:

- datganiadau ariannol archwiliedig, llawn[6] [7] a baratowyd dan arfer cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol (yn y DU neu'n rhyngwladol).
    - lle y bo'n berthnasol, **rhaid** mabwysiadu'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch (FE/HE SORP) neu SORP perthnasol arall
    - lle maent o fewn ei gwmpas, **rhaid** i ddarparwyr baratoi eu datganiadau ariannol yn unol â'r cyfarwyddyd cyfrifon perthnasol a gyhoeddwyd gan Medr
- rhagolygon ariannol a gymeradwywyd gan gorff llywodraethu'r darparwr. **Bydd** y rhagolygon hyn yn cael eu cyflwyno ar y templed priodol a ddarparwyd gan Medr, sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth o fewn y sector trydyddol. **Bydd** y rhagolygon yn cael eu trin fel gwybodaeth a ddarparwyd yn gyfrinachol, oni nodir fel arall, er mwyn sicrhau eu bod yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol i asesu'r risgiau sy'n ymwneud â'u cyflawni
- **efallai** y bydd ffurflenni eraill yn ofynnol yn seiliedig ar y math o ddarparwr a'r lefel risg asesedig

Er mwyn osgoi amheuaeth lle mae'r darparwr yn rhan o strwythur grŵp, **bydd** yr egwyddorion canlynol yn berthnasol (mewn perthynas â chyflwyno ffurflenni blynyddol fel y nodir uchod) fel y nodir yn yr adran am fonitro cychwynnol.

Wrth farnu a yw'r darparwr yn ariannol gynaliadwy, mae gwybodaeth arall y gall Medr ei hystyried yn cynnwys:

- hygrededd strategaeth ariannol y darparwr
- gwybodaeth arall am sefyllfa ariannol y darparwr
- rhwymedigaethau cyfredol y darparwr
- rhwymedigaethau y mae'n rhesymol tybio bod y darparwr yn bwriadu ymgymryd â hwy o fewn y tair i bum mlynedd nesaf
- gwybodaeth sy'n deillio o bryderon rheoliadol, cwynion gan fyfyrwyr neu staff neu unrhyw randdeiliaid neu ffynonellau y mae ein hasesiad ni'n nodi eu bod yn berthnasol, sy'n dynodi unrhyw faterion a **allai** ddylanwadu ar adnoddau ariannol[8]. **Gall** materion gynnwys, ymhlith eraill, materion enw da neu ansawdd
- unrhyw ddata neu wybodaeth arall neu wybodaeth am y sector y mae Medr yn ystyried eu bod yn berthnasol

---

[6] Ni dderbynnir datganiadau ariannol cryno cwmni bach.

[7] Gall Medr dderbyn datganiadau ariannol heb eu harchwilio neu ddatganiadau ariannol wedi'u harchwilio'n annibynnol. Bydd penderfyniad Medr ar hyn yn cael ei wneud fesul achos yn unol â'n hystyriaeth o gymesuredd.

[8] Er mwyn osgoi amheuaeth, nid yw hyn yn gorfodi darparwr i barhau i gynnig cwrs neu ran o gwrs y mae'n barnu nad yw'n ariannol hyfyw mwyach, ar yr amod ei fod, trwy wneud hynny, yn anrhydeddu unrhyw rwymedigaethau yr ymrwymwyd iddynt eisoes.

Bydd Medr yn rhoi sylw i unrhyw ddibyniaeth ar gyfleusterau ariannol neu gymorth gan drydydd partïon, boed yn gyfreithiol rwymol neu'n fynegiadau, fesul achos unigol. Bydd hyn yn cynnwys ystyried y telerau, gan gynnwys y telerau ad-dalu a dyddiadau dod i ben a natur a chryfder ariannol y trydydd parti. **Rhaid** i ddarparwyr sicrhau bod Medr yn cael ei hysbysu'n llawn am ei gyfleusterau a'i gymorth ariannol. Lle nad yw'r wybodaeth sydd ei hangen ar Medr i gyflawni ei swyddogaeth statudol ar gael fel arall, bydd Medr yn disgwyl i'r darparwr hwyluso ymholiadau uniongyrchol unrhyw drydydd partïon.

Bydd Medr yn ymgysylltu â chyfarwyddwyr/timau cyllid darparwyr yn rheolaidd fel a bennir gan Medr.

Gall Medr ofyn am wybodaeth ariannol arall fel sy'n ofynnol i gyflawni ei ddyletswyddau a hynny dim ond pan fo'n angenrheidiol at ddiben clir a lle mae'r cais yn gymesur.

Os bydd unrhyw ddangosyddion, neu unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael i Medr, yn sbarduno pryderon bod proffil risg y darparwr yn y maes hwn wedi newid, gall Medr gynyddu ymgysylltiad a/neu ofyn am ragor o wybodaeth.

Bydd unrhyw asesiad o gynaliadwyedd sylfaenol yn cynnwys ystyried y gofynion parhaus ar gyfer rheoli ariannol, sydd wedi'u cynnwys yn yr amod ar gyfer Llywodraethu a Rheoli.

Bydd unrhyw asesiad o bryderon sylfaenol ynghylch cynaliadwyedd yn dibynnu ar y cyd-destun a manylion penodol y darparwr. Bydd Medr yn gwneud asesiad lle mae'n credu bod sail resymol dros ansicrwydd ynghylch y broses ar gyfer sicrhau cynaliadwyedd, a oleuir yn ôl yr angen trwy ddeialog gyda'r darparwr.

Mae'n bosibl y bydd darparwyr sydd â hanes blaenorol o beidio â chydymffurfio, sy'n dangos tueddiadau o ddirywiad mewn data neu sy'n wynebu risg o beidio â chydymffurfio yn y dyfodol yn destun craffu mwy dwys. Bydd peidio â chydymffurfio â gofynion monitro yn ysgogi ymchwiliadau pellach ac ymyriadau posibl.

## Adolygu a Diwygio

Bydd Medr yn adolygu'r amod hwn yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag anghenion esblygol y sector, newidiadau polisi ac adborth gan randdeiliaid.

# Manylion Atodol: Ymrwymiadau Ariannol - Monitro’r Broses Llywodraethu

## Yn berthnasol i: Amod Cynaliadwyedd Ariannol; Amod Llywodraethu a Rheoli (gan gynnwys Rheoli Ariannol)

### Cwmpas

1. Yn berthnasol i ddarparwyr yn bennaf mewn addysg uwch ac addysg bellach y mae Medr wedi dyroddi trothwy ymrwymiadau ariannol iddynt.

2. Lle darperir ymrwymiadau ariannol penodol trwy Lywodraeth Cymru ac yn amodol ar ddiwydrwydd dyladwy gan Lywodraeth Cymru, mae’r rhain wedi’u heithrio’n benodol o’r gofyniad hwn er mwyn osgoi dyblygu. Bydd ymrwymiadau ariannol o’r fath yn cael eu cynnwys yn y cyfrifiad o gyfanswm y trothwy ymrwymiadau ariannol pe bai darparwr yn ystyried ymgymryd ag ymrwymiadau ariannol eraill.

3. Lle cytunir ar drefniadau o’r fath ar gyfer ymrwymiadau ariannol gyda Llywodraeth Cymru, byddai Medr yn awtomatig yn dyroddi trothwy ymrwymiadau ariannol wedi’i ailgyfrifo.

### Rhesymeg

4. Ymrwymiadau ariannol yw’r rhwymedigaethau hynny sy’n cyfateb i’r diffiniad o fewn arfer cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn y DU (UK GAAP).

5. Mae’r prif gyfrifoldeb am asesu fforddiadwyedd ymrwymiadau ariannol a’r risgiau mewn perthynas â hwy yn gorwedd gyda chorff llywodraethu’r darparwr.

6. Mae llywodraethu cadarn dros ymgymryd ag ymrwymiadau ariannol newydd yn faes allweddol ar gyfer cynaliadwyedd ariannol. Mae trothwy ymrwymiadau ariannol Medr yn darparu mecanwaith lle gall Medr fonitro trefniadau llywodraethu darparwyr dros y broses hon lle mae darparwr yn dal, neu’n bwriadu dal, lefelau uwch o ymrwymiadau ariannol a/neu lle mae asesiad gan Medr yn nodi y bydd yn ‘cynyddu’r ymgysylltiad’ â’r darparwr.

7. Mae'r trothwy hwn yn seiliedig ar y gymhareb rhwng enillion cyn llog, trethiant, dibrisiant ac amorteiddiad (EBITDA) darparwr (fel y'u haddaswyd ar gyfer eitemau anweithredol) a'i ymrwymiadau ariannol wedi'u codi a heb eu codi ac fe'u mynegir fel lluosrif EBITDA wedi'i addasu ac fel trothwy ariannol.

8. Mae darparwyr lle mae Medr eisoes wedi rhoi trothwy ymrwymiadau ariannol i'r darparwr nad ydynt yn cael eu hasesu fel rhai sydd dan ymgysylltiad cynyddol gan Medr yn gallu gwneud ymrwymiadau ariannol hyd at y trothwy a gyhoeddwyd ganddynt heb sbarduno ymgysylltiad pellach.

9. Nid yw'r trothwy wedi'i fwriadu i atal darparwyr rhag cynyddu eu hymrwymiadau ariannol lle y bo'n briodol. **Rhaid** i gorff llywodraethu'r darparwr benderfynu lefel o ymrwymiadau ariannol sy'n fforddiadwy ac yn gyson â'i strategaeth ariannol.

10. Rôl Medr yw adolygu'r wybodaeth ariannol a ddarperir i'r corff llywodraethu ac asesu a yw unrhyw ymrwymiadau ariannol y mae'r darparwr yn bwriadu ymgymryd â hwy'n cyflwyno heriau i gynaliadwyedd y darparwr neu'n dynodi materion o ran trefnu a rheoli ei faterion ariannol.

11. Diben adolygiad Medr yw penderfynu bod y corff llywodraethu wedi craffu'n briodol ar yr ymrwymiadau ariannol arfaethedig. Bydd Medr yn ymdrin â phob cais ar sail unigol, gan roi sylw dyladwy i gryfder ariannol y darparwr a phroffil risg ymrwymiadau ariannol presennol ac arfaethedig.

12. Nid oes gan Medr rôl mewn agweddau eraill ar yr ymrwymiadau ariannol, megis gosod amodau neu gyfyngu ar ddefnyddio cronfeydd.

13. Yn unol â gwerth Medr sy'n ymwneud â gweithio mewn partneriaeth â'r sector, byddem yn disgwyl cael ein gwneud yn ymwybodol o'r gofyniad am gyllid cyn unrhyw gais ffurfiol i Medr, a byddem yn annog darparwyr i ymgysylltu â ni ar adeg gynnar lle gellid mynd y tu hwnt i'r trothwyon.

14. Os bydd y darparwr yn dewis bwrw ymlaen â benthyca lle nad yw Medr yn fodlon ar gadernid ei drefniadau llywodraethu, bydd hyn yn llywio barn gyffredinol Medr ynglŷn â risg ar gyfer y darparwr hwnnw a gall effeithio ar farn Medr ynglŷn â risg o fewn cyllid, llywodraethu a chyfeiriad strategol. Mae'n bosibl, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, y bydd Medr yn penderfynu bod prosesau cynllunio ariannol gwael ar waith a allai olygu yn y pen draw nad yw'r darparwr yn gynaliadwy.

15. Bydd pob trothwy ymrwymiadau ariannol yn cael ei adolygu a'i ddiwygio o bryd i'w gilydd fel sy'n berthnasol i sicrhau eu bod yn dal i fod yn briodol.

### Amodau sy'n Dynodi'r Gofyniad am Adolygiad o'r Broses Lywodraethu ar gyfer Ymrwymiadau Ariannol Newydd

16. Lle mae darparwyr y dyroddwyd trothwy ymrwymiadau ariannol iddynt gan Medr yn rhagweld y byddant yn ymgymryd ag ymrwymiadau newydd, **rhaid** iddynt hysbysu Medr yn ffurfiol ymlaen llaw er mwyn i Medr allu cynnal adolygiad o'r prosesau llywodraethu mewn perthynas â'r ymrwymiad ariannol arfaethedig lle mae unrhyw un neu rai o'r canlynol yn berthnasol:

- mae’r darparwr wedi cael gwybod bod asesiad gan Medr wedi nodi y byddant yn “cynyddu’r ymgysylltiad"
- byddai’r ymrwymiad ariannol newydd yn achosi i’r darparwr fynd y tu hwnt i’w drothwy ariannol a ddyroddwyd
- mae sefyllfa ariannol ddiweddaraf y darparwr wedi’i hasesu yn dangos y byddai’r ymrwymiad ariannol newydd yn ei arwain i ragori ar ei ymrwymiadau ariannol lluosog a gyhoeddwyd

### Amodau sy’n ei Gwneud yn Ofynnol Hysbysu

17. Lle nad yw darparwr yn adnewyddu ymrwymiad ariannol, rhaid hysbysu Medr a gall ostwng y trothwy a ddyroddwyd i’r darparwr i adlewyrchu hyn.

18. Pan fydd ymrwymiadau ariannol yn cael eu hail-gyllido a’r rheini’n rhai a’i gwnaeth hi’n ofynnol adolygu a newid trothwy yn flaenorol, rhaid i ddarparwyr hysbysu Medr lle mae’r telerau’n fwy beichus na’r rhai y cytunwyd arnynt yn wreiddiol.

19. Lle mae’r darparwr yn mynd y tu hwnt i’w drothwy lluosrif ymrwymiadau ariannol presennol oherwydd dirywiad yn ei rhagolygon llif arian, nid oes angen iddo wneud cais am drothwy uwch, ond **rhaid** i’r corff llywodraethu hysbysu Medr o’r ffaith hon. Er na fydd yn ofynnol ymgeisio am drothwy uwch, mae’r dirywiad yn y llif arian yn debygol o arwain at ymgysylltu â’r darparwr ynghylch ei allu i gyflawni ei ymrwymiadau ariannol. Ni fydd senario o’r fath, ar ei ben ei hun, yn cael ei ystyried fel methiant i ateb gofynion yr amod rheoli ariannol o fewn rheoli trefniadau llywodraethu, a bydd Medr yn ystyried y cyd-destun yn ei gyfanrwydd.

### Proses ar gyfer Adolygu’r Broses Lywodraethu Dros Ymrwymiadau Ariannol Newydd

20. Mae Medr yn defnyddio dull sy’n seiliedig ar risg o ymdrin â chais pob darparwr am gynnydd i’w drothwy ymrwymiadau ariannol. Mae hyn yn cynnwys asesiad o broffil risg presennol y darparwr, proffil risg y ddyled gyfredol a phroffil risg yr ymrwymiad ariannol arfaethedig dan ystyriaeth. Y dull hwn fydd yn pennu’r modd yr ystyrir y cais.

21. Cynghorir darparwyr i drafod eu cynlluniau’n anffurfiol gyda Medr ar adeg gynnar.

22. **Rhaid** i geisiadau ganiatáu ffrâm amser resymol i Medr (fel arfer o leiaf 6 wythnos waith) archwilio’r cais a rhoi barn. Byddir yn tybio bod opsiynau cyllido mwy cymhleth neu risg uchel yn golygu bod angen mwy o amser er mwyn caniatáu amser i gael cyngor allanol lle y bo’n ofynnol.

23. Mewn ymateb i hysbysiad gan ddarparwyr sy’n dymuno ymgymryd ag ymrwymiadau ariannol newydd sy’n fwy na’r trothwyon cyfredol a ddyroddwyd gan Medr ar gyfer adolygu’r broses lywodraethu, bydd Medr yn seilio unrhyw adolygiadau ar ddata ariannol y cytunwyd arno, a fydd yn defnyddio dull pragmatig a chymesur sy’n seiliedig ar risg.

24. **Rhaid** i swyddog atebol y darparwr (gyda chopi i Gadeirydd corff llywodraethu’r darparwr) gyflwyno cais ffurfiol i Brif Weithredwr Medr.

25. **Dylai’r** cyfrifiad (fel y nodir isod) fod yn seiliedig ar y rhagolygon diweddaraf a gymeradwywyd gan gorff llywodraethu’r sefydliad ac a gyflwynwyd i Medr. Lle mae’r

corff llywodraethu wedi cymeradwyo rhagolygon diwygiedig wedi hynny, mae'n debygol y bydd y rhain yn cael eu defnyddio fel sail y cyfrifiad. Lle mae amgylchiadau'n dangos y byddai defnyddio gwybodaeth ddilynol arall yn fwy priodol, gellir defnyddio hyn yn ôl disgresiwn Medr.

26. **Rhaid** i'r cais ystyried y pwyntiau canlynol, sy'n cwmpasu'r meysydd a restrir fel y rhai sy'n berthnasol ac unrhyw bwyntiau amlwg eraill sy'n ofynnol ar gyfer dealltwriaeth lawn am y rhesymeg dros y cais.

(a) *Mae achos rhesymol dros gyllido'r buddsoddiad newydd gan ddefnyddio'r cyllid ychwanegol (lle y bo'n berthnasol)*

- disgrifiad byr o'r buddsoddiad newydd
- esboniad i nodi sut y mae'n cyd-fynd yn fras â chenhadaeth a blaenoriaethau strategol y darparwr
- cadarnhad bod y darparwr wedi ystyried canllawiau priodol ar werthuso penderfyniadau buddsoddi
- disgrifiad o sut y bwriedir ystyried buddiannau dysgwyr

(b) *Mae'r ymrwymiad ariannol newydd neu'r trefniant ail-gyllido (lle bydd y rhain yn arwain at gynnydd yn y trothwy ymrwymiadau ariannol) yn gyson â strategaeth ariannol y darparwr ac yn cynrychioli gwerth da am arian*

- esboniad i nodi pam bod angen cyllid ychwanegol neu ail-gyllido a sut y mae hyn yn cyd-fynd â strategaeth ariannol y darparwr
- y mathau o gyllid a ystyriwyd a'r broses ddethol a'r meini prawf
- gwerth presennol net pob opsiwn cyllido, ac esboniad byr i ddynodi pam y dewiswyd y dull a ddewiswyd, gan gynnwys ystyriaethau i werth am arian

(c) *Manylion yr ymrwymiad ariannol newydd*

- manylion yr opsiwn a ddewiswyd, gan gynnwys enw'r benthyciwr, gwerth yr ymrwymiad ariannol newydd, cyfnod ad-dalu, y sail ar gyfer ad-dalu a chyfamodau ariannol
- telerau ac amodau'r trefniant cyllido (megis copi o'r llythyr cynnig) a gwerthusiad o'r risgiau a'r ansicrwydd

(d) ***Rhaid** i'r ymrwymiad ariannol ac unrhyw fuddsoddiad newydd fod yn fforddiadwy*

- diweddariad i'r rhagolygon ariannol diweddaraf, gan gynnwys effaith yr ymrwymiad ariannol newydd ar gyfanswm yr ymrwymiadau ariannol ac effaith buddsoddiadau sy'n ysgogi'r ymrwymiad ariannol newydd, a dangos eu bod yn fforddiadwy. **Rhaid** i'r diweddariad hwn gynnwys unrhyw newidiadau perthnasol eraill yn rhagolygon ariannol y darparwr, gan gynnwys gwarantau i drydydd partïon
- manylion risgiau a gwaith i fodelu sefyllfa anffafriol a wnaed i oleuo ystyriaethau o ran fforddiadwyedd, gan gynnwys cadw digon o arian parod hylifol a'r hyn sy'n gyfwerth â hynny i ateb gofynion cyfalaf gweithio yn ogystal â lefel ddarbodus o gronfa hylifol wrth gefn y gellir galw arni yn achos digwyddiadau anffafriol nas rhagwelwyd

(e) ***Rhaid** i gorff llywodraethu'r darparwr fod wedi gwneud penderfyniad gwybodus am yr ymrwymiad ariannol newydd ac unrhyw fuddsoddiad cysylltiedig*

- manylion pryd y gwnaeth y corff llywodraethu gymeradwyo'r buddsoddiad ac ymrwymiadau ariannol newydd, a chofnod o'r penderfyniad a wnaed
- crynodeb o'r wybodaeth a gafodd y corff llywodraethu wrth wneud ei benderfyniad cadarnhad:
    - nad oes unrhyw wybodaeth na barn allweddol sy'n ymwneud â'r ymrwymiad arfaethedig neu amgylchiadau ariannol wedi cael ei chadw rhag y corff llywodraethu a bod y corff llywodraethu wedi cael yr holl wybodaeth angenrheidiol sy'n ofynnol i alluogi unigolion rhesymol i ddod i gasgliad rhesymol, cytbwys
    - bod y corff llywodraethu wedi cymeradwyo'r benthyca ar ôl cael yr wybodaeth hon, o leiaf mewn egwyddor fel y'i cyflwynwyd i Medr. Cydnabyddir bod cytundeb terfynol ynglŷn â chadernid y broses lywodraethu'n debygol o gael ei roi yn ddiweddarach
    - bod y cynnig a ddarperir i Medr yr un fath â'r cynnig a ddarparwyd i'r corff llywodraethu

(f) *Manylion y trothwy newydd*

- manylion yr ymrwymiadau ariannol presennol (gan gynnwys y benthyciwr, y telerau, y gyfradd llog a'r cyfamodau ariannol) a'r ymrwymiadau ariannol newydd
- cyfrifiad o'r trothwy newydd sy'n ofynnol yn seiliedig ar y rhagolygon diweddaraf a gymeradwywyd gan y corff llywodraethu. Mewn rhai amgylchiadau, lle gellir ystyried ei bod yn amhriodol defnyddio'r rhagolygon hyn, gellir cytuno ar ddogfennaeth arall gyda Medr fesul achos unigol

27. Mae Medr yn cydnabod y gall y llinell amser ar gyfer darparu'r ddogfennaeth ofynnol fod yn rhyngddibynnol. Fel dull pragmatig, unwaith y cafwyd digon o sicrwydd, gall Medr roi ei gadarnhad ynghylch proses adolygu llywodraethiant y darparwr yn amodol ar gael dogfennaeth derfynol.

28. Pan gytunir ar gais am drothwy ymrwymiadau ariannol uwch, bydd Medr yn ysgrifennu at y darparwr gan nodi'r trothwy diwygiedig, yn cynnwys y cyfrifiad. Gall y cadarnhad ynghylch proses adolygu llywodraethiant y darparwr gynnwys amodau ychwanegol y mae'n **rhaid** ymlynu wrthynt.

**Cyfrifiad Templedi am y Trothwy Ymrwymiadau Ariannol**

| | | Gwirioneddol BI 1 £'000 | Gwirioneddol BI 2 £'000 | Amcangyfrif BI 3 £'000 | Rhagolygon BI 4 £'000 | Rhagolygon BI 5 £'000 | Rhagolygon BI 6 £'000 | cyfartaledd 6 mlynedd £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Enillion cyn llog, trethiant, dibrisiant ac amorteiddiad wedi'u haddasu (EBITDA wedi'i addasu)** [9] | | | | | | | | |
| a) | Gwarged / (diffyg) gweithredu | 15,000 | (100) | 10,000 | 11,000 | 12,000 | 13,000 | |
| b) | Adio: dibrisiant ac amorteiddiad | 1,200 | 1,200 | 1,000 | 1,000 | 950 | 950 | |
| c) | Adio: llog sy'n daladwy | 600 | 600 | 650 | 650 | 650 | 700 | |
| d) | Adio: costau ailstrwythuro | 500 | 800 | - | - | - | - | |
| e) | Adio: debydau pensiwn nad yw'n arian parod / (credydau) | 850 | (520) | 240 | - | - | - | |
| f) | Adio: debydau eithriadol / (credydau)[10] | (5,000) | 3,000 | | | | | |
| g) | Didynnu: grantiau cyfalaf i'w derbyn (perfformiad a chroniadau) | (2,000) | (6,000) | (1,900) | (1,950) | (2,000) | (2,050) | |
| h) | Didynnu: Gwaddolion newydd derbyniadwy | (100) | - | (130) | (100) | (100) | (100) | |
| i) | Adio / didynnu: eitemau eraill sy'n benodol i'r sector yn ôl yr angen | - | - | - | - | - | - | |
| j) | EBITDA wedi'i addasu | 11,050 | (1,020) | 9,860 | 10,600 | 11,500 | 12,500 | 9,082 |
| **k)** | **Wedi'i addasu ar gyfer diffygion** | **11,050** | **1** | **9,860** | **10,600** | **11,500** | **12,500** | **9,252** |
| l) | Ymrwymiadau ariannol | | | | | | | |
| | i) Benthyciadau | | | 50,000 | | | | |
| | ii) Consesiynau gwasanaeth a phrydlesi cyllid | | | 30,000 | | | | |
| | iii) Ymrwymiadau heb eu codi | | | 5,000 | | | | |
| | iv) Ymrwymiadau arfaethedig | | | - | | | | |
| | **v) Cyfanswm y gofyniad ymrwymiadau ariannol** | | | **85,000** | | | | |
| m) | **Lluosrif**[11] | | | **9.19** | | | | |
| n) | **Trothwy ariannol (wedi'i dalgrynnu)**[12] | | | **86,000** | | | | |


[9] Bydd addasiadau i EBITDA yn seiliedig ar eitemau y gellir eu hadnabod yn y cofnod cyllid yn seiliedig ar y datganiadau ariannol a'r rhagolygon cyfrinachol fel y'u cyflwynwyd i Medr. Gall EBITDA addasedig mewnol y darparwr fod yn wahanol.

[10] Eitemau eithriadol (fel y'u diffinnir gan arfer cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol yn y DU) sydd nail ai ddim yn rhan o weithrediadau rheolaidd, neu sy'n cynrychioli addasiadau technegol nad ydynt yn arian parod. Mae'r rhain yn cynnwys dim ond eitemau a ddatgelir ar wahân fel rhai eithriadol yn y datganiadau ariannol a / neu'r cofnod cyllid a'r rhagolygon ariannol.

[11] Wedi'i gyfrifo fel cyfanswm y gofyniad ymrwymiadau ariannol (l) v) wedi'i rannu â chyfartaledd EBITDA 6 blynedd wedi'i addasu ar gyfer diffygion (k).

[12] Bydd Medr yn cynnwys talgrynnu o fewn y trothwy ariannol a ddyroddir i ganiatáu trefnu benthyciadau gweithredol bychain.

## Siart Lif o’r Llinell Amser ar gyfer Adolygiad Medr o Broses Lywodraethu Darparwr ar gyfer Ymrwymiadau Ariannol Newydd o fewn Proses Fewnol y Darparwr i Gymeradwyo Ymrwymiadau Ariannol



# Amod: Llywodraethu a Rheoli (gan gynnwys Rheoli Ariannol)

**Rhaid** i ddarparwr sydd wedi cofrestru gyda Medr neu sy'n cael ei gyllido ganddo:

- sicrhau bod ganddo drefniadau llywodraethu a rheoli effeithiol, gan gynnwys rheoli ariannol

## Categori Amod

Mae hwn yn amod cofrestru cychwynnol a pharhaus. Mae hwn yn amod ar gyfer cyllid.

## Sail Gyfreithiol

O dan Adrannau 27 a 31 o **Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022** (y Ddeddf), mae'n ofynnol i Medr ddatblygu amod mewn perthynas â'r canlynol: "trefniadau llywodraethu a rheoli'r darparwr addysg drydyddol sy'n gwneud cais (gan gynnwys ei drefniadau rheoli ariannol)".

O dan Adran 108**,** mae Medr hefyd yn gallu datblygu telerau ac amodau cyllido mewn perthynas ag effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheoli'r darparwr (gan gynnwys ei drefniadau rheoli ariannol).

## Cyflwyniad

Gan y bydd gan ddarparwyr lefelau gwahanol o gymhlethdod (gan gynnwys maint, natur y busnes a ffurf gyfreithiol), gall gwahanol drefniadau rheoli a llywodraethu fod yn briodol i wahanol ddarparwyr er mwyn glynu at egwyddorion llywodraethu da. Efallai na fydd trefniadau a allai fod yn briodol i ddarparwyr mawr, cymhleth, sydd â phwerau dyfarnu graddau neu sydd â theitl prifysgol yn briodol ar gyfer darparwyr bach. Felly **rhaid** i ddarparwr ddangos bod ei drefniadau rheoli a llywodraethu penodol yn briodol ar gyfer ei faint, ei gymhlethdod a'r amgylchedd risg y mae'n gweithredu ynddo.

Wrth farnu a yw darparwr wedi dangos trefniadau llywodraethu a rheoli digonol, mae deunydd y gall Medr ei ystyried yn cynnwys:

- trefniadau llywodraethu a rheoli'r darparwr a'u hasesiad o'r rhain

- maint a chymhlethdod y darparwr a'r math o ddarparwr
- y cod llywodraethu y mae'r darparwr yn dweud ei fod yn ymrwymedig iddo, priodoldeb y cod hwn, a gweladwyedd a chryfder yr ymrwymiad hwnnw
- i ba raddau y mae'r darparwr yn gweithredu mewn ffordd agored ac atebol, gan wneud penderfyniadau a chymryd camau gweithredu tryloyw yn unol ag arferion llywodraethu da
- i ba raddau y mae darparwr wedi cydymffurfio â'r amodau
- a yw'r darparwr yn cymryd camau gweithredu priodol i liniaru risg uwch y bydd yn torri'r amod hwn

### Gofynion Cydymffurfio

### Llywodraethu Da

1. **Rhaid** i'r corff llywodraethu a phawb sy'n gweithio i'r darparwr neu'n cynrychioli'r darparwr ddilyn a byw'r safonau moesegol a nodir yn Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus ('Egwyddorion Nolan'). Mae'r rhain yn cynnwys: anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, didwylledd, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.

2. **Rhaid** i'r darparwr fabwysiadu a dilyn cod llywodraethu cydnabyddedig a phriodol, lle mae cod o'r fath ar gael.

3. **Rhaid** dilyn yr egwyddorion a'r strwythurau a nodir yn dogfennau llywodraethu darparwyr ac ymlynu wrthynt. Mater i bob darparwr yw penderfynu sut mae'n dirprwyo sicrwydd o fewn ei strwythur llywodraethu yn seiliedig ar y dogfennau hyn.

4. **Rhaid** rhoi sylw dyladwy i ganllawiau cysylltiedig statudol ar gyfer y sector.

### Corff Llywodraethu

5. **Rhaid** i'r corff llywodraethu fod yn gyfrifol ac atebol ar y cyd am gydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol ar gyfer llywodraethu ffurf gorfforaethol y darparwr.

6. **Rhaid** i'r corff llywodraethu fod yn gyfrifol ac atebol ar y cyd am oruchwylio gweithgareddau'r darparwr, am bennu ei gyfeiriad yn y dyfodol, meithrin amgylchedd lle cyflawnir cenhadaeth y darparwr a sicrhau bod y darparwr yn cyflawni ei ddiben mor effeithiol â phosibl â'r adnoddau sydd ar gael. Mae hyn yn cynnwys lle mae partner cydweithredol yn cyflawni gweithgareddau ar ran darparwr dan drefniadau is-gontractio neu lle mae gan ddarparwr drefniadau dilysu. Gan hynny, mae angen i gyfansoddiad y corff llywodraethu fod yn briodol i gyflawni'r gweithgareddau hyn.

7. **Rhaid** i'r corff llywodraethu gynnwys y cydbwysedd priodol o ran gwybodaeth, sgiliau, cefndir, profiad, amrywiaeth ac annibyniaeth iddo gyflawni ei rolau a chyfrifoldebau llywodraethu'n wrthrychol ac yn effeithiol.

### Cyfeiriad Strategol

8. **Rhaid** bod dealltwriaeth gyffredin o genhadaeth a gwerthoedd y darparwr, ac ymrwymiad iddynt, a rhaid i'r corff llywodraethu sicrhau bod y diben hwn yn cael ei gyflawni'n effeithiol ac yn gynaliadwy.

## Arwain a Rheoli

9. **Rhaid** i bob darparwr gael ei arwain gan dîm gweithredol uwch effeithiol sy'n darparu arweinyddiaeth a rheolaeth strategol yn unol â chenhadaeth a gwerthoedd y darparwr.

10. **Rhaid** dynodi swyddog atebol ym mhob darparwr. Yn absenoldeb y swyddog atebol, rhaid dirprwyo'r awdurdod hwn. Rhaid i'r awdurdod gael ei ddirprwyo yn unol â chynllun awdurdod dirprwyedig, os oes cynllun o'r fath yn bodoli.

11. **Rhaid** i'r swyddog atebol roi gwybod i'r corff llywodraethu os ar unrhyw adeg byddai cam gweithredu neu bolisi sy'n cael ei ystyried gan y corff llywodraethu yn achosi i'r darparwr dorri'r amodau cofrestru neu gyllid parhaus.

12. Pan fo gan glerc y corff llywodraethu (neu ysgrifennydd neu aelod llywodraeth cyfatebol) gyfrifoldebau sylweddol ar lefel y tîm gweithredol uwch o fewn y darparwr, **rhaid** ystyried annibyniaeth ac atebolrwydd swydd y clerc (neu aelod cyfatebol).

## Rhanddeiliaid

13. **Rhaid** i'r darparwr ymgysylltu'n effeithiol â'i randdeiliaid, gan gynnwys staff a dysgwyr, a'u hannog i gyfranogi, er mwyn sicrhau bod ymddiriedaeth a hyder yn ei waith.

## Rheoli Ariannol

14. Er mwyn rheoli eu materion ariannol yn briodol **rhaid** i ddarparwyr sefydlu systemau a rheolaethau priodol i gadw cofnodion ariannol o ansawdd a manylder digonol er mwyn:

    - cydymffurfio â'r holl ofynion statudol a rheoleiddiol
    - galluogi goruchwyliaeth ar yr holl endidau o fewn rheolaeth y grŵp
    - monitro lefelau arian parod, gofynion benthyciadau a chyfamodau a dangosyddion ariannol allweddol eraill ar sail briodol o ran edrych tua'r dyfodol i ganiatáu ymyriad strategol lle y bo'n ofynnol
    - darparu gwybodaeth amserol a chywir i ategu prosesau penderfynu, trefniadau rheoli a lefelau priodol o oruchwyliaeth dda ar lywodraethu

15. I gael manylion atodol am y gofynion cyfeirier at reoli ariannol.

## Rheoli Ystadau

16. **Rhaid** i ystâd y mae darparwr yn gyfrifol amdani gael ei rheoli mewn ffordd gynaliadwy, gan gyfrannu at drefniadau rheoli ariannol cadarn ar gyfer y darparwr a chynnal a chadw'r ystâd o ran cynaliadwyedd amgylcheddol. Byddai Medr felly'n disgwyl i strategaethau darparwyr, fel y'u cymeradwywyd gan y corff llywodraethu, gynnwys trefniadau rheoli ystadau priodol sy'n gysylltiedig ag adnoddau a rheoli ariannol.

17. Mae'n ofynnol i Medr ddiogelu a monitro asedau a brynwyd â budd y trysorlys (asedau a brynwyd yn llawn neu'n rhannol gan ddefnyddio arian cyhoeddus gan

Medr, cyrff cyllido a'i rhagflaenodd, Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, cynghorau ymchwil, a'r Swyddfa Gymreig i golegau grant uniongyrchol a gwirfoddol blaenorol). **Rhaid** i ddarparwyr addysg uwch ac addysg bellach gadw rhestr o asedau a brynwyd â budd y trysorlys, gan gynnwys y gwerth gros a dibrisiant. **Rhaid** hysbysu Medr ynghylch unrhyw newidiadau sy'n ymwneud ag asedau budd y trysorlys. I gael arweiniad manwl, cyfeiriwch at asedau a brynwyd gan ddefnyddio budd y trysorlys.

18. I gael manylion atodol am y gofynion cyfeirier at reoli ystadau.

## Amgylchedd Sicrwydd

### Gwasanaethau Archwilio Allanol

19. **Rhaid** i bob darparwr wneud y canlynol:

- cydymffurfio ag amodau Cyfarwyddyd Cyfrifon Medr
- sicrhau yr ymlynir wrth arfer da o ran llywodraethu wrth reoli archwiliadau allanol

20. **Rhaid** i'r archwilydd allanol:

- gael ei gynnwys ar y Gofrestr o Archwilwyr Statudol
- ymlynu bob amser wrth safonau proffesiynol a moeseg corff cyfrifyddu achrededig cydnabyddedig
- cydymffurfio â gofynion adrodd y Cyfarwyddyd Cyfrifon Medr blynyddol cyfredol lle bo'n berthnasol
- rhoi sylw i gydymffurfio ag amodau cofrestru Medr sy'n effeithio ar gynaliadwyedd a rheoli ariannol

21. I gael canllawiau manwl cyfeirier at archwilio allanol.

### Rheolaethau Mewnol a Rheoli Risg

22. **Rhaid** bod polisïau a gweithdrefnau ar waith ar gyfer pob maes allweddol, gydag amserlen sy'n cyd-fynd â hwy i sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae prosesau sicrwydd yn bodoli i sicrhau y cydymffurfir â'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn a bod achosion o ddiffyg cydymffurfio neu feysydd lle ceir gwendidau'n cael eu hadnabod ac yr eir i'r afael â hwy.

23. Er mwyn i risgiau gael eu rheoli'n effeithiol, **rhaid** bod parodrwydd i dderbyn risg sydd wedi'i ddogfennu, a gymeradwywyd gan y corff llywodraethu. Caiff risgiau eu rheoli yn unol â'r parodrwydd hwn i'w derbyn trwy fframwaith effeithiol ar gyfer rheoli risg, rheolaethau mewnol a sicrwydd, sy'n galluogi'r darparwr i fynd ati'n llwyddiannus i adnabod a rheoli risgiau presennol a'r rhai sy'n dod dod i'r amlwg sy'n fygythiad i gyflawni ei strategaeth neu ei gydymffurfedd â gofynion deddfwriaethol neu reoleiddiol. **Rhaid** i'r fframwaith hwn gynnwys mapio sicrwydd.

24. **Rhaid** i ddarparwyr gynnal asesiad risg trylwyr o ddigwyddiadau anffafriol a allai arwain at bryderon ynghylch cynaliadwyedd. Wrth bennu i ba raddau y mae'r asesiad risg yn ystyried digwyddiadau anffafriol byddir yn cyfeirio at ddigwyddiadau

y gallai unigolyn rhesymol, gwybodus ragweld eu bod yn achosi pryderon ynghylch cynaliadwyedd.

25. **Rhaid** i ddarparwyr gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys deddfwriaeth Cymru, y DU a deddfwriaeth ryngwladol. **Rhaid** i ddarparwyr sy'n gweithredu mewn gwlad arall y tu allan i'r DU gydymffurfio â'r holl ofynion rheoleiddiol a chanllawiau statudol sy'n berthnasol i'r gwledydd y maent yn gweithredu ynddynt.

26. **Rhaid** bod gan sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach swyddogaeth archwilio mewnol sy'n cydymffurfio â safonau archwilio mewnol perthnasol. **Rhaid** i'r holl ddarparwyr eraill sicrhau bod rheolaethau priodol ar waith a'u bod yn cael eu hadolygu'n gyfnodol, er mwyn darparu sicrwydd ar gyfer y corff llywodraethu.

27. **Rhaid** i'r corff llywodraethu sicrhau bod fframwaith cadarn ar waith ar gyfer gwrthdaro buddiannau a chwythu'r chwiban i bob aelod o staff ac aelod llywodraethu.

## Monitro

### Monitro Cychwynnol

Wrth geisio cofrestriad am y tro cyntaf mae'n ofynnol i bob darparwr gyflwyno hunanwerthusiad o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu a rheoli. Er mwyn cynnal asesiad cychwynnol o drefniadau llywodraethu a rheoli'r darparwr yn erbyn y gofynion a nodir uchod mae Medr yn gwneud y canlynol yn ofynnol:

- **Rhaid** i'r hunanwerthusiad ystyried y darparwr yn ei gyfanrwydd a **rhaid** iddo gwmpasu unrhyw strwythurau grŵp neu is-gwmnïau. **Dylai'r** hunanasesiad dynnu ar y canlynol:
    - cydymffurfedd â'r egwyddorion a nodir yn yr amod hwn
    - cydymffurfedd â'r cod llywodraethu priodol
    - yr adolygiad mwyaf diweddar o effeithiolrwydd y corff llywodraethu a'r camau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i'r adroddiad
    - offer a phrosesau rheoli risg
    - rheoli digwyddiadau adroddadwy
    - unrhyw ffynonellau data a sicrwydd eraill
    - proses hunanwerthuso gadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth
    - cynllun gweithredu sy'n nodi unrhyw fylchau neu feysydd ar gyfer gwella ac yn dangos sut y byddir yn mynd i'r afael â'r rhain (ynghyd â'r hunanwerthusiad)

- Ar gyfer darparwyr addysg uwch a darparwyr addysg bellach, mae **rhaid** i'r hunanwerthusiad hefyd ystyried:
    - cydymffurfedd â'r manylion atodol sy'n ategu'r amod hwn
    - yr adolygiad mwyaf diweddar o effeithiolrwydd pwyllgorau'r corff llywodraethu a'r camau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i'r adroddiad
    - adroddiadau blynyddol unrhyw rai o bwyllgorau corff llywodraethu'r darparwr
    - adroddiadau blynyddol archwilio mewnol ac allanol
    - cynllun archwilio mewnol

- Gall Medr ofyn am ragor o wybodaeth a/neu gynnal adolygiadau o drefniadau llywodraethu a rheoli'r darparwr, lle mae o'r farn bod hyn yn angenrheidiol neu'n ddymunol i gadarnhau bod y darparwr yn cwrdd â'r amod cychwynnol

## Monitro Parhaus

Bydd Medr yn monitro cydymffurfedd â'r amod hwn[13] yn y ffyrdd canlynol (i gael diffiniadau o'r rhain, gweler dull Medr o fonitro):

- **Ffurflen Sicrwydd Flynyddol:** mae'n ofynnol i ddarparwyr gyflwyno ffurflen sicrwydd flynyddol
- **Digwyddiadau y Mae'n Rhaid eu Hadrodd:** bydd Digwyddiadau y Mae'n Rhaid eu Hadrodd a adroddir gan ddarparwyr yn cael eu defnyddio i asesu llywodraethu a rheolaeth y darparwr
- **cyflwyniadau pryderon rheoleiddiol a monitro cwynion:** mewn achosion lle mae pryderon a gyflwynir i Medr, neu ddadansoddiad o ddata cwynion, yn nodi themâu neu faterion systemig sy'n ymwneud â chydymffurfedd â'r Amod Llywodraethu a Rheoli.
- **hunanwerthuso:** mae'n ofynnol i ddarparwyr gynnal hunanwerthusiad blynyddol. Mae Medr yn cadw'r hawl i alw'r hunanwerthusiadau blynyddol hyn i mewn. Bydd fformat yr hunanwerthusiad blynyddol yn cael ei bennu gan y darparwr a dylai dynnu ar y meysydd a nodir yn yr hunanwerthusiad monitro cychwynnol
- **sicrwydd annibynnol:** os yw darparwr wedi mabwysiadu ac yn dilyn cod llywodraethu cydnabyddedig a phriodol, lle mae cod o'r fath ar gael, a bod y cod yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr gynnal adolygiad o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, **rhaid** i'r darparwr hysbysu Medr ynghylch unrhyw ganfyddiadau o adolygiad o'r fath
- **sicrwydd annibynnol:** os yw darparwr yn cael adroddiad archwilio mewnol sy'n mynegi sicrwydd negyddol ym maes llywodraethu a rheoli **rhaid** i'r darparwr rannu copi o'r adroddiad hwn gyda Medr unwaith y bydd wedi cael ei gytuno'n derfynol
- **monitro gwefan y darparwr:** gall Medr fonitro gwefannau a deunyddiau cysylltiedig a gyhoeddir ar wefannau
- **gweithgareddau ymgysylltu**: naill ai ar lefel darparwr neu ar lefel sector, bydd Medr yn ymgysylltu â darparwyr wrth adolygu sut y mae cyngor neu arweiniad yn cael ei ystyried

Mae'n bosibl y bydd darparwyr sydd â hanes blaenorol o beidio â chydymffurfio, sy'n dangos tueddiadau o ddirywiad mewn data neu sy'n wynebu risg o beidio â chydymffurfio yn y dyfodol yn destun craffu mwy dwys. Bydd peidio â chydymffurfio â gofynion monitro yn ysgogi ymchwiliadau pellach ac ymyriadau posibl.

## Adolygu a Diwygio

Bydd Medr yn adolygu'r amod hwn yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag anghenion esblygol y sector, newidiadau i bolisïau ac adborth gan randdeiliaid.

[13] Ar gyfer darparwyr addysg uwch a darparwyr addysg bellach, mae monitro cydymffurfedd â'r amod hwn yn cynnwys monitro'r gofynion a nodir ym manylion atodol y gofynion, gan nodi bod y manylion atodol hyn yn is-set i'r amod hwn.

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

## Manylion Atodol: Llywodraethu a Rheoli (Gan Gynnwys Rheoli Ariannol)

### Yn berthnasol i: Amod Llywodraethu a Rheoli (Gan gynnwys Rheoli Ariannol)

### Ar Gyfer Darparwyr Addysg Uwch a Darparwyr Addysg Bellach

**Rhaid i ddarparwyr addysg uwch a darparwyr addysg bellach wneud y canlynol:**

- gweithio tuag at gydymffurfio â'r manylion atodol ar gyfer yr amod llywodraethu a rheoli (gan gynnwys rheoli ariannol) cychwynnol a pharhaus. **Rhaid** sicrhau cydymffurfedd llawn erbyn 1 Awst 2027

### Llywodraethu Da

1. **Rhaid** i ddarparwyr sicrhau bod dogfennau llywodraethu ar gael yn rhwydd ac yn gyhoeddus.

2. **Rhaid** i ddarparwyr adolygu'r wybodaeth lywodraethu a gyhoeddir ar eu gwefannau yn gyson er mwyn hyrwyddo tryloywder, atebolrwydd ac ymddiriedaeth y cyhoedd.

3. **Rhaid** i ddarparwyr sicrhau bod cyfrifoldebau'r corff llywodraethu a'r swyddogaethau llywodraethu a gweithredol ar gael i'r cyhoedd, yn ysgrifenedig. Mae hyn yn cynnwys y cadeirydd, y corff llywodraethu a'i bwyllgorau.

4. **Rhaid** i ddarparwyr sy'n elusennau esempt gydymffurfio â'r adran isod ar elusennau esempt.

### Diwylliant

5. **Rhaid** i ddarparwyr asesu a monitro sut y mae eu diwylliant yn rhoi anogaeth i fod yn agored, gwneud penderfyniadau mewn modd tryloyw, bod yn atebol ac annog her a sut y mae'r diwylliant hwn wedi cael ei wreiddio.

6. **Rhaid** i'r corff llywodraethu a'r tîm gweithredol uwch fod yn agored i her ac annog

sgyrsiau agored a gonest.

7. Lle nad yw polisi, arferion neu ymddygiad yn cyd-fynd â diben, gwerthoedd a strategaeth y darparwr, **rhaid** i'r darparwr sicrhau bod camau unioni yn cael eu cymryd.

## Corff Llywodraethu

### Trefniadau'r Corff Llywodraethu

8. **Rhaid** i drefniadau'r corff llywodraethu fod yn unol â'i ddogfennau llywodraethu. Wrth gytuno ar ei ddogfennau llywodraethu a'u hadolygu'n gyson, **rhaid** i gorff llywodraethu ystyried arfer llywodraethu da cydnabyddedig a'r cod llywodraethu mabwysiedig.

### Gweithrediadau'r Corff Llywodraethu

9. **Rhaid** i ddarparwyr sicrhau bod gan gyrff llywodraethu gyllideb i dynnu arni a'u bod yn cael mynediad at arbenigwyr annibynnol os yw'n ofynnol.

10. **Rhaid** goruchwylio pob cytundeb setlo a chytundebau peidio â datgelu (NDAs) o ganlyniad i gytundebau setlo o fewn strwythur llywodraethu darparwr.

### Arwain a Rheoli

11. **Rhaid** i ddarparwyr fod â chynllun olyniaeth effeithiol a gynhelir ac sydd wedi'i ddogfennu ar gyfer ei uwch dîm arweinyddiaeth.

### Rhanddeiliaid

12. **Rhaid** i ddarparwyr gydnabod eu cyfrifoldebau ehangach tuag at gymunedau, y Gymraeg, rhanddeiliaid a chymdeithas ehangach, a gweithredu arnynt mewn modd sy'n gyson â'u cenhadaeth, eu gwerthoedd a'r adnoddau sydd ar gael iddynt.

13. **Rhaid** i ddarparwyr ystyried manteision gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill, yn lleol ac yn genedlaethol, lle bydd hyn yn hybu eu hamcanion a'u diben. **Rhaid** i ddarparwyr gyflawni diwydrwydd dyladwy cychwynnol a pharhaus wrth ymrwymo i drefniadau o'r fath i ddiogelu rhag risgiau ariannol, risgiau i enw da a risgiau eraill.

14. **Rhaid** i ddarparwyr weithredu i hybu cydweithio ystyrlon ac arloesi gydag undebau llafur cydnabyddedig, a chynrychiolwyr myfyrwyr a chyrff sy'n cynrychioli myfyrwyr.

### Amgylchedd Sicrwydd

15. **Rhaid** i archwilwyr mewnol ymlynu wrth safonau archwilio mewnol perthnasol bob amser.

16. **Rhaid** i archwilwyr mewnol beidio ag ysgwyddo unrhyw gyfrifoldebau rheoli gweithredol, na bod ag unrhyw fuddiant – bod yn ariannol neu'n anariannol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol – yn y darparwr heblaw am y berthynas arferol â

chyflogai neu gontractwr (neu ariannu unrhyw wobr, ysgoloriaeth neu benodiad academaidd).

### Gwrthdaro Buddiannau

17. **Rhaid** i ddarparwyr gynnal a mynd ati'n rheolaidd i fonitro cofrestr o wrthdaro buddiannau, lletygarwch a rhoddion ar gyfer yr holl staff ac aelodau'r corff llywodraethu.

18. **Rhaid** i'r gofrestr o wrthdaro buddiannau, lletygarwch ac anrhegion fod ar gael yn gyhoeddus ar gyfer aelodau'r corff llywodraethu a'r tîm gweithredol uwch.

## Canllawiau Atodol Ynghylch y Gofynion

### Cyfeiriad Strategol

19. **Dylai** darparwyr roi ystyriaeth i flaenoriaethau strategol Medr a Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu cynlluniau strategol.

# Manylion Atodol: Rheoli Ariannol

### Yn berthnasol i: Amod Llywodraethu a Rheoli (gan gynnwys Rheoli Ariannol)

### Rheoli Ariannol

1. **Rhaid** i reoli ariannol ymestyn i oruchwyliaeth ar yr holl endidau sydd o fewn rheolaeth y grŵp.

2. Er mwyn rheoli eu materion ariannol yn briodol, **rhaid** i ddarparwyr wneud y canlynol:

    - cynllunio a chynnal materion ariannol mewn modd cynaliadwy
    - cadw cofnodion cyfrifyddu priodol
    - paratoi datganiadau ariannol mewn perthynas â phob cyfnod cyfrifyddu
    - sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i drefnu a rheoli materion ariannol, gan gynnwys amgylchedd rheolaeth fewnol digonol ac effeithiol
    - paratoi a mynd ati'n rheolaidd i ddiweddaru rhagolygon o lif arian parod i mewn ac allan dros y 12 mis nesaf o leiaf er mwyn monitro argaeledd arian parod gweithredol
    - rhoi sylw dyladwy i werth am arian mewn perthynas â defnyddio cyllid cyhoeddus
    - sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio at ei ddiben yn unig ac nad yw'n cael ei ddefnyddio fel cymhorthdal ar gyfer gweithgareddau nad ydynt yn rhai cyhoeddus
    - sicrhau bod y modd y defnyddir unrhyw arian sydd dan gyfyngiadau, wedi'i ddynodi neu arian arall a glustnodwyd yn cael ei fonitro'n briodol
    - cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon perthnasol a ddyroddir gan Medr
    - cyflwyno ffurflenni ariannol mewn modd amserol a hysbysu Medr ymlaen llaw lle disgwylir oedi gyda ffurflenni. Lle maent o fewn y cwmpas, mae hyn yn cynnwys ffurflenni a gyflwynir i HESA neu drwy'r Swyddfa Fyfyrwyr
    - lle mae trothwy ymrwymiadau ariannol wedi cael ei gyfrifo a'i ddyroddi gan Medr yn seiliedig ar wybodaeth a gyflwynwyd:

        - monitro cydymffurfedd â'r trothwy (lluosrif ac ariannol)
        - hysbysu Medr mewn modd amserol os yw'n debygol yr eir y tu hwnt i

luosrif y trothwy

- lle ystyrir ymrwymiadau ariannol newydd a fydd yn mynd y tu hwnt i naill ai'r trothwy ariannol neu drothwy'r lluosrif, hysbysu Medr cyn gynted â phosibl a cheisio adolygiad o lywodraethu gan Medr ar gyfer trothwy uwch, yn unol â chanllawiau Medr ynghylch ymrwymiadau ariannol
- lle mae darparwr wedi cael ei hysbysu gan Medr eu bod dan drefn "mwy o ymgysylltu", **rhaid** ceisio adolygiad o lywodraethu gan Medr ar gyfer pob ymrwymiad ariannol newydd, yn unol â chanllawiau Medr ynghylch ymrwymiadau ariannol

3. **Rhaid** i brosesau ac adrodd fod ar waith ar gyfer goruchwyliaeth reolaidd gan y tîm gweithredol a'r corff llywodraethu ar berfformiad gwirioneddol y darparwr yn erbyn y gyllideb, metrigau a thargedau ariannol allweddol, rhagolygon rheoli trysorlys, a risgiau ariannol eraill sy'n benodol i'r darparwr.

## Canllawiau Atodol Ynghylch y Gofynion

4. **Dylai** darparwyr wybod cost lawn eu gweithgareddau a defnyddio'r wybodaeth hon i wneud penderfyniadau. Os nad yw darparwr yn ceisio adennill cost lawn gweithgaredd, **dylai** hyn fod yn ganlyniad i bolisi clir a osodwyd gan y corff llywodraethu ac wedi'i gynnwys yn y strategaeth ariannol, a **rhaid** iddo beidio â mentro rhoi'r darparwr mewn trafferthion ariannol.

5. **Dylai** darparwyr sicrhau bod prosesau gosod cyllideb a rhagolygon ariannol yn cael eu halinio â chynllun strategol yr endid ac yn ategu hynny.

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Manylion Atodol: Rheoli Ystadau

### Yn berthnasol i: Amod Llywodraethu a Rheoli (gan gynnwys Rheoli Ariannol)

**Rheoli Ystadau**

1. Mae ystadau darparwyr yn debygol o fod yn rhan sylweddol o sylfaen asedau'r darparwr. Gan hynny, mae prosesau trefnu a rheoli ariannol cadarn yn cynnwys rheoli'r ystâd yn dda, gan gynnwys asedau a berchnogir ac asedau a lesir.

2. **Rhaid** i ddarparwyr reoli eu hystâd mewn ffordd gynaliadwy, yn unol â strategaeth ystadau a chynllun cynnal a chadw, sy'n cwmpasu'r gofynion cynnal a chadw hirdymor a rheolaidd ar ei chyfer.

3. Lle y bo'n berthnasol **rhaid** i ddarparwyr ymlynu wrth ofynion y Comisiwn Elusennau mewn perthynas â chael gwared ar dir ac adeiladau elusen. Mae hyn yn cynnwys gofyniad dros y pris gwaredu mewn perthynas â gwerth marchnadol yr ased.

### Asedau a Brynwyd gan Ddefnyddio Budd y Trysorlys

4. Lle mae darparwyr addysg uwch ac addysg bellach yn dal asedau a brynwyd neu a adeiladwyd yn gyfan gwbl neu'n rhannol gan ddefnyddio cyllid cyfalaf a ddarparwyd at ddiben penodol gan Medr a'r cyrff cyllido a'i ragflaenodd, y Cynghorau Ymchwil, Llywodraeth Cymru a Swyddfa Cymru, **rhaid** hysbysu Medr cyn gynted â phosibl i ategu dealltwriaeth ehangach am y rhesymeg cyn:

   - codi unrhyw gyllid ar warant dros asedau o'r fath;
   - cael gwared ar asedau o'r fath lle mae'r prisiad yn uwch na gwerth marchnadol o £25,000
   - rhoi'r gorau i ddefnyddio asedau o'r fath at eu diben bwriadedig
   - lesio asedau o'r fath. Yn yr achos hwn **dylai'r** rhent neu gyfran briodol ohono (ar ôl didynnu unrhyw rent tir neu daliadau eraill, costau gweinyddol ac unrhyw wariant sy'n angenrheidiol i gadw'r eiddo mewn cyflwr i hawlio'r rhent hwnnw) gael ei dalu i Medr oni bai bod y gweithgareddau yn:

- llety gwyliau
- gymwys i gael cyllid gan Medr o dan Adran 22 o'r Ddeddf

5. Ar ôl derbyn hysbysiad, rôl Medr yw asesu a oes gan y camau arfaethedig oblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol darparwr, y defnydd priodol o arian cyhoeddus, neu ddiogelwch parhaus budd y trysorlys. Felly, bydd unrhyw ymgysylltiad a gychwynnir gan Medr yn ymwneud â'r cyfrifoldebau rheoleiddiol hyn ac ni fydd yn gyfystyr â phenderfyniad ynghylch a all y broses o gael gwared ar yr ased neu newid ei ddefnydd fynd rhagddi. Mae darparwyr yn parhau i fod yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw broses i gael gwared ar asedau neu eu hailddefnyddio yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol perthnasol, gan gynnwys rhwymedigaethau elusennol lle bo'n berthnasol, ac am bennu gwerthusiad a thriniaeth briodol o unrhyw fuddiant trysorlys sy'n weddill.

## Canllawiau Atodol Ynghylch y Gofynion

6. Mae'r angen i wella cynaliadwyedd amgylcheddol a lleihau allyriadau carbon yn hanfodol i reoli'r ystâdau yn effeithiol. **Dylai** darparwyr fynd ati i chwilio am gyfleoedd i leihau allyriadau carbon drwy reoli a datblygu'r ystâd yn effeithiol. **Dylid** cynnal cynllun rheoli carbon i fonitro a gwella eu perfformiad amgylcheddol tuag at sero net.

7. **Dylid** rhoi prosesau ar waith i sicrhau bod gofod yn cael ei reoli'n effeithiol. **Dylai** hyn gynnwys cadw llygad ar ddaliadau tir ac adeiladau, gyda'r nod o resymoli a chael gwared ar y rhai y mae darparwyr yn ystyried nad oes eu hangen mwyach.

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Manylion Atodol: Elusennau Esempt

### Yn berthnasol i: Amod Llywodraethu a Rheoli (gan gynnwys Rheoli Ariannol)

### Elusennau Esempt

1. Lle mae darparwr yn elusen esempt, mae llawer o'i rwymedigaethau cyfreithiol yr un fath ag elusen gofrestredig. Mae hyn yn cynnwys, ymhlith eraill, corfforaethau Addysg Bellach yng Nghymru.

2. **Rhaid** i bob elusen gydymffurfio â'r gyfraith, gan gynnwys y gofynion a nodir yn Neddf Elusennau 2011, ac mae'r gofynion hyn yn berthnasol i ddarparwr sy'n elusen esempt oni bai bod y Ddeddf Elusennau'n nodi'n benodol nad ydynt. Er eglurder, mae monitro cydymffurfedd â chyfraith a chyfundrefn reoleiddio elusennau o fewn cylch gwaith prif reoleiddiwr elusennau'r darparwr.

3. Mae'r Comisiwn Elusennau'n cyhoeddi canllawiau i elusennau a'u hymddiriedolwyr ynghylch dyletswyddau a chyfrifoldebau cyfreithiol y naill a'r llall. Er bod canllawiau'r Comisiwn Elusennau wedi'u fframio ar gyfer elusennau sydd wedi'u cofrestru gydag ef, mae cryn dipyn o'r canllawiau hyn yn berthnasol i elusennau esempt hefyd, gan bod **rhaid** iddynt hwythau gydymffurfio â chyfraith elusennau[14].

4. I grynhoi, **rhaid** i ymddiriedolwyr elusen sicrhau'r canlynol:

- bod yr elusen yn cyflawni ei dibenion er budd y cyhoedd, a bod ei hasedau'n cael eu cymhwyso at ei dibenion elusennol ac at y dibenion hynny yn unig
- cydymffurfedd â dogfen lywodraethol yr elusen a'r gyfraith
- gweithredu er budd pennaf yr elusen, gan gynnwys trwy reoli gwrthdaro buddiannau
- sicrhau bod yr elusen yn atebol
- rheoli adnoddau'r elusen mewn modd cyfrifol, gan gynnwys trwy reoli risgiau a diogelu ei hasedau a'i phobl
- gweithredu â gofal a sgil rhesymol

[14] Gweler www.gov.uk/government/publications/exempt-charities-cc23. Mae elusennau cysylltiedig elusennau esempt yn esempt hefyd dan baragraff 28 o Atodlen 3 Deddf Elusennau 2011.

# Manylion Atodol: Gwasanaethau Archwilio Allanol

## Yn berthnasol i: Amod Llywodraethu a Rheoli (gan gynnwys Rheoli Ariannol)

### Gwasanaethau Archwilio Allanol

1. **Rhaid** i bob darparwr wneud y canlynol:

- cyflwyno datganiadau ariannol archwiliedig llawn i Medr ni waeth p'un a yw'n ofynnol paratoi'r rhain ar gyfer unrhyw gorff rheoleiddio arall
- hysbysu Medr mewn modd amserol ac ymlaen llaw ynghylch unrhyw oedi a ddisgwylir cyn cyflwyno neu gyhoeddi datganiadau ariannol archwiliedig
- cydymffurfio â Safonau Moesegol[15] neu safonau olynol wrth ystyried hyd cyfnod y swydd ar gylchdroi partneriaid arweiniol ac ailbenodi archwilwyr allanol a chynnal profion marchnad cyfnodol yn unol â'r canllawiau cyfredol
- darparu mynediad digyfyngiad i archwilwyr allanol at wybodaeth – gan gynnwys yr holl gofnodion, asedau, personél a mangreoedd – a bod ag awdurdod i gael pa bynnag wybodaeth ac esboniadau y mae'r archwilydd allanol yn rhesymol yn ystyried eu bod yn angenrheidiol
- darparu ymatebion ysgrifenedig i unrhyw argymhellion a wneir neu faterion a godir yn adroddiad yr archwilydd allanol i'r corff llywodraethu neu un o'i bwyllgorau priodol

2. **Rhaid** i'r archwilydd allanol wneud y canlynol:

- bod yn annibynnol oddi ar y darparwr, ac oddi ar baratöwr y datganiadau ariannol. **Rhaid** i archwilwyr mewnol beidio ag ysgwyddo unrhyw gyfrifoldebau rheoli gweithredol, na bod ag unrhyw fuddiant – bod yn ariannol neu'n anariannol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol – yn y darparwr heblaw am y berthynas arferol â chyflogai neu gontractwr (neu ariannu unrhyw wobr, ysgoloriaeth neu benodiad academaidd)
- bod wedi ei restru ar y Gofrestr Archwilwyr Statudol
- ymlynu bob amser wrth safonau proffesiynol a moeseg corff cyfrifyddu

[15] Y Safon Foesegol ar gyfer Archwilwyr (frc.org.uk)

achrededig cydnabyddedig

- cydymffurfio â gofynion adrodd y Cyfarwyddyd Cyfrifon Medr blynyddol cyfredol lle bo'n berthnasol
- cyflwyno adroddiad (neu adroddiadau, os oes mwy nag un, sy'n cwmpasu camau gwahanol yn yr archwiliad blynyddol) i'r corff llywodraethu, sy'n cofnodi materion cyfrifyddu a diffygion mewn rheolaeth sy'n codi o'r archwiliad. Ar gyfer darparwyr sy'n elusennau, **rhaid** i unrhyw faterion mewn perthynas â defnyddio asedau elusennol at ddibenion nad ydynt yn elusennol gael eu hamlygu yn yr adroddiadau hynny
- sicrhau bod yr adroddiad/adroddiadau, gydag ymatebion y rheolwyr, ar gael i gorff llywodraethu'r darparwr neu un o'i bwyllgorau priodol, mewn modd amserol
- rhoi sylw i gydymffurfio ag amodau cofrestru neu gyllid Medr sy'n effeithio ar reoli ariannol

### Gwasanaethau Heblaw Archwilio

3. **Rhaid** i bob darparwr wneud y canlynol:

- cael cydsyniad eu corff llywodraethu, neu un o'i bwyllgorau priodol, lle gall gwasanaethau ychwanegol a gomisiynir gael dylanwad ar wrthrychedd ac annibyniaeth yr archwilwyr. **Rhaid** i waith ychwanegol beidio ag amharu ar annibyniaeth y farn archwilio allanol

### Penodi a Diswyddo Archwilydd Allanol

4. Wrth benodi archwilwyr allanol, **rhaid** i ddarparwyr wneud y canlynol:

- cytuno ar weithdrefnau i benodi darparwyr archwilio allanol sy'n cynnwys cyngor cyrff llywodraethu'r darparwr neu bwyllgor priodol iddo
- sicrhau bod y meini prawf dethol a'r gweithdrefnau ar gyfer penodi darparwyr archwilio allanol yn cael eu pennu a'u cymeradwyo gan y corff llywodraethu, neu un o'i bwyllgorau priodol, cyn y ceir cynigion
- sicrhau nad yw gwasanaethau archwilio mewnol ac allanol yn cael eu darparu gan yr un cwmni neu ddarparwr na chwmni neu ddarparwr cysylltiedig

5. Lle mae archwilwyr allanol yn rhoi'r gorau i ddal swydd am unrhyw reswm, **rhaid** iddynt wneud y canlynol:

- darparu i'r corff llywodraethu naill ai datganiad am unrhyw amgylchiadau sy'n gysylltiedig â'u hymddiswyddiad neu ddiswyddiad y **dylid** eu dwyn i sylw'r corff llywodraethu yn eu tyb hwy, neu ddatganiad nad oes unrhyw amgylchiadau o'r fath
- darparu copi o'r datganiad hwn i Medr o fewn tri mis i'r dyddiad y'i cafwyd gan y corff llywodraethu

### Canllawiau Atodol Ynghylch y Gofynion

6. **Gall** darparwyr gomisiynu archwilwyr allanol i ddarparu gwasanaethau ychwanegol.

## Amod: Ansawdd a Gwelliant Parhaus

**Rhaid** i ddarparwr sydd wedi cofrestru gyda Medr neu sy’n cael ei gyllido ganddo:

- ddangos bod ei ddarpariaeth, gan gynnwys yr hyn a gyflwynir ar ei ran, o ansawdd da a’i fod yn ymgysylltu â gwelliant parhaus

### Categori Amod

Mae hwn yn amod cychwynnol a pharhaus ar gyfer cofrestru. Mae hwn yn amod ar gyfer cyllid.

### Sail Gyfreithiol

O dan Adrannau 27 a 31 o **Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022** (y Ddeddf), mae’n ofynnol i Medr bennu amod cychwynnol a pharhaus ar gyfer cofrestru:

“sy’n ymwneud ag ansawdd y math o addysg drydyddol a ddarperir gan, neu ar ran, y darparwr y mae’r categori cofrestru yn ymwneud ag ef”

O dan Adran 108 o’r Ddeddf, rhaid i Medr ystyried a ddylid gosod telerau ac amodau sy’n ymwneud ag “ansawdd yr addysg berthnasol a ddarperir gan neu ar ran y darparwr.”

O dan Adran 5 o’r Ddeddf, mae dyletswydd strategol ar Medr i hybu gwelliant parhaus yn ansawdd addysg drydyddol yng Nghymru. Wrth gyflawni’r ddyletswydd hon, rhaid i’r Comisiwn roi sylw i’r canlynol (ymhlith pethau eraill):

(a) pwysigrwydd sicrhau bod aelodau o’r gweithlu addysg drydyddol yn gallu darparu addysg drydyddol o ansawdd uchel
(b) gofynion rhesymol aelodau o’r gweithlu addysg drydyddol am ddatblygiad proffesiynol parhaus
(c) pwysigrwydd barn dysgwyr ynghylch ansawdd yr addysg drydyddol a gânt.

Mae Adran 50 o'r Ddeddf yn nodi y gall Medr gyhoeddi fframweithiau sicrhau ansawdd, sy'n nodi arweiniad a gwybodaeth ynghylch meini prawf a phrosesau ar gyfer asesu ansawdd addysg drydyddol, a rolau a chyfrifoldebau personau sy'n asesu'r ansawdd, a rolau a chyfrifoldebau darparwyr o ran ansawdd.

Mae Adran 51 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Medr i fonitro ansawdd yr addysg drydyddol a ddarperir gan neu ar ran darparwyr cofrestredig, a gyllidir gan y Comisiwn neu a sicrheir fel arall ganddo, ac i hybu gwelliant yn ansawdd yr addysg honno.

Mae Adran 101 o'r Ddeddf yn nodi sail cymhwyso'r amod hwn i awdurdodau lleol mewn perthynas â darpariaeth chweched dosbarth.

## Gofynion Cydymffurfio

Er mwyn cydymffurfio â'r amod hwn, **rhaid** i ddarparwyr wneud y canlynol:

1. ystyried y Fframwaith Ansawdd
2. cyflawni deilliannau asesu ansawdd allanol boddhaol
3. meddu ar ddata perfformiad derbyniol
4. peidio â chael eu hystyried gan Medr yn ddarparwyr sy'n dangos risg i ansawdd addysg.

Mae'r Fframwaith Ansawdd yn darparu arweiniad a gwybodaeth ynghylch sut y gall darparwyr ddangos bod eu darpariaeth o ansawdd da ac mae'n nodi dull Medr o asesu cydymffurfedd â'r amod hwn.

Yng nghyswllt darpariaeth chweched dosbarth awdurdod lleol a gyllidir gan Medr, mae gofynion yr amod hwn yn ymwneud â chyfrifoldebau'r awdurdod lleol dros ansawdd darpariaeth chweched dosbarth a'u perthynas â chyrff llywodraethu ysgolion.

Bydd Medr yn gofyn am gadarnhad bod darparwyr yn cydymffurfio â gofynion yr amod hwn fel rhan o'i ymarfer Ffurflenni Sicrwydd Blynyddol.

## Monitro

Medr yw'r corff goruchwylio addysgol ar gyfer prifysgolion rheoleiddiedig yng Nghymru a darparwyr addysg uwch yng Nghymru gyda chyrsiau dynodedig penodol nad ydynt yn destun goruchwyliaeth addysgol gan Estyn, sy'n gyfrifol am oruchwyliaeth addysgol colegau a gyllidir yn gyhoeddus. Rhaid i ddarparwyr preifat a darparwyr addysg uwch tramor gael arolygiad Goruchwyliaeth Addysgol Myfyrwyr pan fydd eu hamgylchiadau'n newid yn sylweddol, neu o leiaf bob pedair blynedd. Mae Medr yn gofyn am adolygiadau sicrhau ansawdd allanol bob chwe blynedd; fodd bynnag, gall y darparwyr hyn gomisiynu adolygiad ansawdd bob pedair blynedd, os oes angen ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol.[16]

Bydd Medr yn monitro cydymffurfedd â'r amod hwn yn y ffyrdd canlynol (i gael diffiniadau o'r rhain, gweler dull Medr o fonitro).

[16] Bydd y darparwyr hyn hefyd yn destun monitro blynyddol gan Medr i sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio â gofynion Fisâu a Mewnfudo y DU (UKVI).

- **deilliannau asesiadau ansawdd allanol:** mae hyn yn cynnwys arolygiadau gan Estyn ac adolygiadau gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA). Bydd deilliannau adolygiadau datblygiadol / thematig / daearyddol yn goleuo'r gweithgarwch monitro hefyd
- **monitro data:** bydd Medr yn monitro ystod o ddata, fel y nodir yn y Fframwaith Ansawdd. Mae hyn yn cynnwys, ymhlith data arall: Recriwtio; Dilyniant; Cadw; Cwblhau; Cwynion i Medr (niferoedd a phatrymau); Arolygon dysgwyr; Cyrchfannau
- **gwybodaeth:** bydd Medr yn defnyddio amrywiaeth o wybodaeth, fel y nodir yn y Fframwaith Ansawdd, i oleuo ei weithgarwch monitro ac unrhyw gamau rheoleiddio sy'n deillio o hynny
- **Ffurflen Sicrwydd Flynyddol:** fel rhan o Ffurflen Sicrwydd Flynyddol Medr, bydd disgwyl i ddarparwyr hunan-ddatgan eu bod wedi ateb gofynion yr amod, gyda thystiolaeth gysylltiedig lle y bo'n berthnasol
- **cyflwyniadau pryderon rheoleiddiol a monitro cwynion:** mewn achosion lle codir pryderon rheoleiddiol gyda Medr, neu ddadansoddiad o ddata cwynion, sy'n nodi themâu neu faterion systemig sy'n ymwneud ag ansawdd a gwelliant parhaus
- **Digwyddiadau y Mae'n Rhaid eu Hadrodd:** mewn achosion lle mae'r digwyddiadau hynny'n ymwneud â meysydd o fewn cylch gwaith Medr, neu gyngor neu arweiniad a roddwyd gan Medr
- **gweithgareddau ymgysylltu:** ar naill ai lefel darparwr neu lefel sector, bydd Medr yn ymgysylltu â darparwyr wrth adolygu sut mae cyngor neu arweiniad yn cael ei ystyried
- **hunan-adrodd i Medr pan fydd pethau'n mynd o chwith:** mae Medr yn disgwyl i ddarparwyr roi gwybod i ni am achosion o ddiffyg cydymffurfio posibl mewn perthynas â'r amod hwn

Mae'n bosibl y bydd darparwyr sydd â hanes blaenorol o beidio â chydymffurfio, sy'n dangos tueddiadau o ddirywiad mewn data neu sy'n wynebu risg o beidio â chydymffurfio yn y dyfodol yn destun craffu mwy dwys. Bydd peidio â chydymffurfio â gofynion monitro yn ysgogi ymchwiliadau pellach ac ymyriadau posibl.

## Adolygu a Diwygio

Bydd Medr yn adolygu'r amod hwn, a'r Fframwaith Ansawdd, yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag anghenion esblygol y sector, newidiadau mewn polisi, ac adborth gan randdeiliaid.

## Amod: Lles Staff a Dysgwyr

**Rhaid** i ddarparwr sydd wedi cofrestru gyda Medr neu sy'n cael ei gyllido ganddo:

- sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i gefnogi a hyrwyddo lles dysgwyr a staff

### Categori Amod

Mae hwn yn amod cofrestru cychwynnol a pharhaus. Mae hwn yn amod ar gyfer cyllid.

### Sail Gyfreithiol

O dan Adran 27 o **Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022** (y Ddeddf) (mae'n ofynnol i Medr  greu amod cychwynnol "effeithiolrwydd trefniadau'r darparwr addysg drydyddol sy'n gwneud cais ar gyfer cefnogi a hybu lles ei fyfyrwyr a'i staff"

O dan Adran 31 o'r Ddeddf, mae'n ofynnol i Medr i greu amod cofrestru parhaus "sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd trefniadau'r darparwr ar gyfer cefnogi a hybu lles ei fyfyrwyr a'i staff"

O dan Adran 108 o'r Ddeddf, rhaid i'r Medr ystyried a yw'n mynd i osod telerau ac amodau sy'n ymwneud "ag effeithiolrwydd trefniadau'r darparwr ar gyfer cefnogi a hybu lles ei fyfyrwyr a'i staff".

**Rhaid** i ddarparwyr hefyd gydymffurfio â dyletswyddau a fframweithiau statudol perthnasol.

### Gofynion Cydymffurfio

Er mwyn cydymffurfio â'r amod hwn, **rhaid** i ddarparwyr:

1. ystyried y gofynion a nodir yn y manylion atodol ynghylch y gofynion cyllid a rheoleiddiol ar gyfer lles staff a dysgwyr (neu unrhyw ddiwygiadau dilynol)
2. cyd-fynd â dyletswyddau cyfreithiol a statudol perthnasol gan nad yw'r amod hwn yn disodli nac yn dileu dyletswyddau cyfreithiol na rhwymedigaethau statudol presennol darparwyr
3. ystyried gwybodaeth, arweiniad a chyngor perthnasol a gyhoeddir gan Medr

## Monitro

Bydd Medr yn monitro cydymffurfedd â'r amod hwn yn y ffyrdd canlynol (i gael diffiniadau o'r rhain, gweler dull Medr o fonitro):

- **Ffurflen Sicrwydd Flynyddol:** fel rhan o Ffurflen Sicrwydd Flynyddol Medr, **bydd** disgwyl i gyrff llywodraethu darparwyr hunanddatgan a darparu tystiolaeth gysylltiedig eu bod wedi ateb gofynion cydymffurfio'r amod
- **dadansoddi data:** bydd Medr yn monitro gan ddefnyddio amrywiaeth o ddata sydd ar gael gan gynnwys canfyddiadau arolygon
- **cyflwyniadau pryderon rheoleiddio a monitro cwynion:** mewn achosion lle mae pryderon rheoleiddiol a gyflwynir i Medr, neu ddadansoddiad o ddata cwynion, yn nodi themâu neu faterion systemig sy'n ymwneud â chydymffurfedd â'r Amod Lles Staff a Dysgwyr
- **arolygon dysgwyr:** mewn achosion lle mae canlyniadau o arolygon yn gysylltiedig ag effeithlonedd neu effaith lles staff a dysgwyr
- **gweithgareddau ymgysylltu:** naill ai ar lefel darparwr neu ar lefel sector, bydd Medr yn ymgysylltu â darparwyr wrth adolygu sut y mae cyngor neu arweiniad yn cael ei ystyried
- **Digwyddiadau y Mae'n Rhaid eu Hadrodd:** bydd digwyddiadau y mae darparwyr yn eu adrodd wrth Medr yn cael eu defnyddio fel metrigau i asesu trefniadau llywodraethu a rheoli darparwyr
- **Ffynonellau Sicrwydd Annibynnol:** gan gynnwys adolygiadau, arolygiadau, gwybodaeth gan reoleiddwyr eraill megis Estyn, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA), y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac adroddiadau gan gyrff proffesiynol neu statudol
- **adolygiadau thematig:** a gaiff eu llunio i archwilio testunau ar draws y sector cyfan, neu i roi cymorth i wella mewn meysydd penodol

Mae'n bosibl y bydd darparwyr sydd â hanes blaenorol o beidio â chydymffurfio, sy'n dangos tueddiadau o ddirywiad mewn data neu sy'n wynebu risg o beidio â chydymffurfio yn y dyfodol yn destun craffu mwy dwys. Bydd peidio â chydymffurfio â gofynion monitro yn ysgogi ymchwiliadau pellach ac ymyriadau posibl.

## Adolygu a Diwygio

Bydd Medr yn adolygu'r amod hwn yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag anghenion esblygol y sector, newidiadau polisi ac adborth gan randdeiliaid.

# Manylion Atodol: Lles Staff a Dysgwyr

## Yn berthnasol i: Amod Lles Staff a Dysgwyr

**Rhaid** i ddarparwr sydd wedi'i gofrestru gyda Medr:

- ystyried y manylion atodol hyn ac unrhyw fanylion atodol a gyhoeddir yn y dyfodol gan Medr ynghylch y gofynion cyllido a rheoleiddiol mewn perthynas â'r Amod cychwynnol a pharhaus ar gyfer Lles Staff a dysgwyr erbyn 1 Awst 2026

**Rhaid** i ddarparwr sy'n cael ei gyllido gan Medr:

- ystyried y manylion atodol hyn ac unrhyw fanylion atodol a gyhoeddir yn y dyfodol gan Medr ynghylch y gofynion cyllido a rheoleiddiol mewn perthynas â'r Amod cychwynnol a pharhaus ar gyfer lles Staff a Dysgwyr o 1 Awst 2026

## Cwmpas a Rhesymeg

1. Mae'r ddogfen hon wedi'i bwriadu i ddarparu gwybodaeth i alluogi darparwyr i gydymffurfio â'r Amod cofrestru a chyllid cychwynnol a pharhaus ar gyfer Lles Staff a Dysgwyr.

2. **Dylai'r** Amod ar gyfer Lles Staff a Dysgwyr gael ei ddehongli a'i roi ar waith ar y cyd â Fframwaith Rheoleiddio ehangach Medr.

3. Mae gan Medr gyfrifoldeb statudol i hyrwyddo cydweithio. Felly, **dylai** darparwyr trydyddol gynnwys staff mewn trafodaethau ynghylch Amod rheoleiddiol Medr ar gyfer Lles Staff a Dysgwyr, lle bo'n briodol, dylent weithio gydag undebau llafur i gyflawni gofynion yr amod gan ei fod yn ymwneud â lles staff.

4. Rhaid deall yr Amod Lles Staff a Dysgwyr yng nghyd-destun ehangach deddfwriaeth a pholisi cenedlaethol. **Dylai'r** modd y'i rhoddir ar waith adlewyrchu dyletswyddau statudol a strategaethau perthnasol Llywodraeth Cymru, ac alinio â nhw, gan sicrhau cydlyniad â'r dirwedd gyfreithiol a pholisi ehangach addysg drydyddol yng Nghymru.

5. Yn unol â'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr, **rhaid** i ddarparwyr ymgysylltu â dysgwyr yn eu proses gwneud penderfyniadau, gan gynnwys penderfyniadau sy'n ymwneud â

staff a lles dysgwyr lle bo'n briodol. **Rhaid** i ddarparwyr weithio gyda chyrff cynrychioliadol dysgwyr (lle y bônt yn bodoli) i gyflawni gofynion yr amod yma gan ei fod yn ymwneud â lles dysgwyr.

### Lles

6. Mae memorandwm esboniadol **Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022** (y Ddeddf) yn darparu esboniad o'r hyn y mae 'lles' a 'trefniadau' wedi'u bwriadu i'w olygu mewn perthynas â'r amod ar gyfer lles staff a dysgwyr.

   **Rhaid** i ddarparwyr ystyried y canlynol:

   - mae 'trefniadau' lles staff a dysgwyr yn cynnwys polisïau, gweithdrefnau a gwasanaethau sy'n hybu ac yn cefnogi llesiant a diogelwch staff a dysgwyr

   Mae 'llesiant' yn y cyd-destun hwn wedi'i fwriadu i olygu (gweler rhestr termau Medr am diffiniadau unigol)

   - llesiant emosiynol
   - iechyd meddwl

   Mae 'diogelwch' wedi'i fwriadu i olygu rhyddid rhag niweidiau gan gynnwys:

   - aflonyddu,
   - camymddwyn (fel y mae'n ymwneud â lles staff a dysgwyr),
   - trais (gan gynnwys trais rhywiol)
   - troseddau casineb

### Hunanwerthusiad o Les Gan Ddarparwyr

7. **Rhaid** i darparwyr gynnal hunanwerthusiad o les staff a dysgwyr. **Rhaid** i'r hunanasesiad lles staff a dysgwyr gael ei gymeradwyo gan gorff llywodraethu'r darparwyr neu gyfwerth a'i adolygu'n flynyddol.

8. Mae Medr yn cydnabod bod yr holl ddarparwyr trydyddol ar hyn o bryd yn cynnal hunanasesiadau a/neu brosesau hunanwerthuso sy'n ymwneud â phob maes o ran lles staff a dysgwyr. Felly, nid ydym yn disgwyl cyhoeddi templedi hunanwerthuso gan ein bod yn disgwyl bod hunanasesu/hunanwerthuso eisoes yn rhan o brosesau presennol ac wedi'i fwriadu i ddiwallu anghenion penodol pob darparwr. I leihau'r baich i'r eithaf, **rhaid** i ddarparwyr benderfynu ar y dull neu'r dulliau hunanasesu/hunanwerthuso mwyaf priodol ac effeithiol yn seiliedig ar eu cyd-destun gweithredol.

9. **Rhaid** i'r hunanwerthusiad o les gan ddarparwyr gynnwys y canlynol:

   - effeithiolrwydd polisïau, gweithdrefnau a gwasanaethau cymorth i hybu a rhoi cymorth ar gyfer llesiant emosiynol ac iechyd meddwl dysgwyr a staff
   - effeithiolrwydd polisïau, gweithdrefnau a gwasanaethau cymorth i hybu a rhoi cymorth ar gyfer diogelwch dysgwyr a staff, y mae'n rhaid iddo gynnwys rhyddid rhag aflonyddu, camymddwyn, trais (gan gynnwys trais rhywiol) a throseddau casineb
   - asesiad risg lles: asesiad o risgiau i les a chamau lliniaru'r darparwr

- **rhaid** i bolisïau, gweithdrefnau a gwasanaethau cymorth lles gael eu llywio gan asesiad effaith cydraddoldeb (lle bo'n berthnasol)

10. Os nad yw'r meysydd uchod wedi'u cynnwys ym mhrosesau hunanwerthuso/hunanasesu presennol y darparwyr bydd angen iddynt gael eu gwerthuso a'u hymgorffori mewn dogfennaeth hunanwerthuso/hunanasesu presennol.

11. **Dylai** darparwyr ddefnyddio offer a chanllawiau hunanasesu presennol i gefnogi hunanasesu. Gallant gynnwys, ymhlith eraill:

    - **Enghreifftiau Addysg Uwch:**
        - hunanasesiad a fframwaith Stepchange Universities UK
        - asesiad fframwaith diogelu rhag hunanladdiad Universities UK
        - hunanasesiad Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (sydd wrthi'n cael ei ddatblygu)
    - **Enghreifftiau eraill o brosesau hunanasesu nad ydynt yn sector-benodol:**
        - offeryn hunanasesu a gweithredu NYTH Llywodraeth Cymru
        - pecyn cymorth Sefydliadau sy'n Ystyriol o Drawma a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (TrACE)
        - Matrics Aeddfedrwydd Sefydliadau Gwrth-hiliol

12. Nid yw'n ofynnol fel arfer i ddarparwyr gyflwyno eu hunanwerthusiad i Medr. Bydd Medr yn galw hunanwerthusiadau i mewn dim ond os caiff pryderon a risgiau eu codi neu eu hadnabod.

13. Wrth gynnal hunanwerthusiad **dylai** darparwyr ystyried yr egwyddorion hunanwerthuso a ddatblygwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) ac Estyn.

### Cynllun Gweithredu Lles Darparwyr

14. **Rhaid** i'r cynllun gweithredu ar gyfer lles gael ei gymeradwyo gan y Corff Llywodraethu (neu gorff cyfatebol) a chael ei oruchwylio trwy broses llywodraethu a rheoli gadarn a dylai fod yn gyson ag arferion llywodraethu a chyflogi'r darparwr.

15. **Rhaid** i ddarparwyr gyflwyno cynllun gweithredu lles dwy flynedd i Medr. Bydd Medr yn cydweithio â chynrychiolwyr y sector trydyddol i greu'r templed cynllun gweithredu lles. Wrth gwblhau'r cynllun gweithredu lles, **rhaid** i ddarparwyr nodi eu camau gweithredu blaenoriaeth yn seiliedig ar hunanasesiad lles darparwyr.

16. Bydd y cynllun gweithredu ar gyfer lles yn cael ei ddefnyddio gan Medr fel sail ar gyfer ymgysylltu â darparwyr unigol ac i adnabod cymorth, polisïau a phrosesau a systemau a risgiau a materion systemig ar draws y sector cyfan a fydd yn goleuo proses Asesiad Risg Darparwyr Medr ar gyfer darparwyr.

### Ffurflenni Sicrwydd Blynyddol Darparwyr

17. **Rhaid** i ddarparwyr gyflwyno ffurflen sicrwydd a chydymffurfedd flynyddol. Mae'r ffurflen wedi'i bwriadu i oleuo proses Ffurflen Sicrwydd Flynyddol Medr. Fel rhan o

Ffurflen Sicrwydd Flynyddol Medr, **bydd** disgwyl i gorff llywodraethu (neu gorff cyfatebol) y darparwyr gynnwys:

- hunan-ddatganiad eu bod wedi cydymffurfio â'r amod a darparu tystiolaeth gysylltiedig
- cadarnhad bod y gweithgareddau yn y cynllun lles blynyddol a gyflwynwyd wedi cael eu cyflawni fel y bwriadwyd a bod meysydd nas cyflawnwyd yn cael eu hadlewyrchu ac yn cael sylw yn y cynllun ar gyfer y flwyddyn ddilynol
- newidiadau neu welliannau i'r cynllun gweithredu lles a gyflwynwyd a'r rhesymeg dros y newidiadau
- sicrwydd bod y corff llywodraethu (neu gorff cyfatebol) wedi'i argyhoeddi ynghylch effeithiolrwydd trefniadau'r darparwr i ategu a hybu lles staff a dysgwyr

18. Bydd Medr yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg o sicrhau y cydymffurfir â'r Amod hwn am ei fod yn ymwneud â chofrestru neu gyllido. Lle mae ein data, tystiolaeth neu adroddiadau'n awgrymu y gallai fod risg o beidio â chydymffurfio, gallwn ofyn i ddarparwr gyflwyno tystiolaeth neu ddogfennau ychwanegol. Mae hyn yn cynnwys sefyllfaoedd lle bu digwyddiadau blaenorol, newidiadau sylweddol i weithrediadau'r darparwr, Digwyddiadau y Mae'n Rhaid eu Hadrodd, neu lle mae ffynonellau cadarn o wybodaeth - megis arolygon llais dysgwyr, cwynion neu bryderon rheoleiddiol eraill - yn dangos y gallai'r darparwr fod yn peri risg uwch.

19. Lle mae monitro'n adnabod meysydd ar gyfer gwella, neu enghreifftiau o arferion da, gall Medr ddarparu gwybodaeth, cyngor, data, rhannu arferion gorau, a/neu wneud argymhellion i gynorthwyo darparwyr gyda chydymffurfio neu wella'n barhaus.

### Llinell Amser a Disgwyliadau Darparwyr ar Gyfer Monitro â’r Amod:

| | Darparwyr Addysg Uwch | Darparwyr Addysg Bellach | Darparwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned | Darparwyr Prentisaethau |
|---|---|---|---|---|
| **Erbyn 31 Gorffennaf 2026** | Cyflwyno i Medr: Datganiad sicrwydd yn cadarnhau bod darparwyr wedi ymgymryd â hunanasesiad lles wedi’i gyflwyno fel rhan o’r broses gofrestru | | | |
| **Erbyn 30 Tachwedd 2026** | Cyflwyno i Medr:<br><br>Cynllun gweithredu lles dwy flynedd (2026/28) | Cyflwyno i Medr:<br><br>Datganiad sicrwydd yn cadarnhau bod darparwyr wedi ymgymryd â hunanasesiad lles a chynllun gweithredu lles dwy flynedd (2026/28) | | |
| **Erbyn 1 Awst 2027** | | | | Cyflwyno i Medr:<br><br>Datganiad sicrwydd yn cadarnhau bod darparwyr wedi ymgymryd â hunanasesiad lles a chynllun gweithredu lles dwy flynedd 2027/29 |
| **Rhagfyr 2027** | Cyflwyno i Medr:<br><br>Ffurflenni sicrwydd blynyddol darparwyr 2026/27 | Cyflwyno i Medr:<br><br>Ffurflenni sicrwydd blynyddol darparwyr 2026/27 | | |
| **Erbyn 1 Mehefin 2028** | Drwy hunanasesiad, cyflwyno i Medr:<br><br>Cynllun gweithredu lles darparwyr ar gyfer y cyfnod 1 Awst 2028 i 31 Gorffennaf 2030 | Drwy hunanasesiad, cyflwyno i Medr:<br><br>Cynllun gweithredu lles darparwyr ar gyfer y cyfnod 1 Awst 2028 i 31 Gorffennaf 2030 | | |
| **Rhagfyr 2028** | Cyflwyno i Medr:<br><br>Ffurflenni sicrwydd blynyddol darparwyr 2027/28 | Cyflwyno i Medr:<br><br>Ffurflenni sicrwydd blynyddol darparwyr 2027/28 | | Cyflwyno i Medr:<br><br>Ffurflenni sicrwydd blynyddol darparwyr 2027/28 |
| **Erbyn 1 Mehefin 2029** | | | | Drwy hunanasesiad, cyflwyno i Medr: |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Cynllun gweithredu lles darparwyr ar gyfer y cyfnod 1 Awst 2029 i 31 Gorffennaf 2031 |
| **Rhagfyr 2029** | Cyflwyno i Medr:<br><br>Ffurflenni sicrwydd blynyddol darparwyr 2028/29 | Cyflwyno i Medr:<br><br>Ffurflenni sicrwydd blynyddol darparwyr 2028/29 | Cyflwyno i Medr:<br><br>Ffurflenni sicrwydd blynyddol darparwyr 2028/29 |

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

## Amod: Y Gymraeg

**Rhaid** i ddarparwyr sydd wedi cofrestru gyda Medr neu sy'n cael ei gyllido ganddo gymryd pob cam rhesymol i wneud y canlynol:

- hybu ac annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ar draws y darparwr, fel y gall pobl – gan gynnwys staff a dysgwyr – ddefnyddio'r iaith yn naturiol yn eu bywydau beunyddiol
- cynyddu'r galw am addysg drydyddol a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg, a chyfranogiad ynddi, a'r Gymraeg fel pwnc hefyd

Lle y bo'n briodol, **rhaid** i ddarparwyr gymryd pob cam rhesymol i wneud y canlynol hefyd:

- hybu ac annog cynnal gweithgareddau ymchwil ac arloesi sy'n cefnogi'r Gymraeg

### Categori Amod

Mae hwn yn amod cofrestru parhaus. Mae hwn yn amod ar gyfer cyllid.

### Sail Gyfreithiol

Mae Adran 28 o **Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022** (y Ddeddf) yn galluogi Medr i benderfynu ar amodau cofrestru parhaus cyffredinol a'u cyhoeddi.

Mae Adran 6 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd strategol ar Medr i hybu'r gwaith o gynnal ymchwil ac arloesi a gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag ymchwil ac arloesi trwy gyfrwng y Gymraeg gan bersonau perthnasol.

Mae Adran 9 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd strategol ar Medr i hybu addysg drydyddol trwy gyfrwng y Gymraeg.

O dan Adrannau 90, 99, a 104 o'r Ddeddf, gall Medr bennu telerau ac amodau cyllido mewn perthynas â'r amod hwn.

O dan Adrannau 105 a 106 o'r Ddeddf, gall Medr bennu telerau ac amodau ar adnoddau ariannol a ddarperir gan y Comisiwn ar gyfer ymchwil ac arloesi.

### Rhesymeg dros bennu'r Amod o dan Adran 28

Mae gan Medr rôl arwyddocaol i feithrin diwylliant bywiog lle gall y Gymraeg ffynnu, a chyfrannu at uchelgais Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg a dyblu canran y bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg yn feunyddiol erbyn 2050, fel y nodir yn ei strategaeth, Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr, ac sydd bellach yn darged statudol o dan Ddeddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025**.**

Nododd cyfrifiad 2021 y gyfran isaf o siaradwyr Cymraeg yr adroddwyd arni gan gyfrifiad, gan bwysleisio'r her sy'n ein hwynebu i wrthdroi'r shifft ieithyddol. Rydym yn cydnabod bod gan y sector addysg drydyddol rôl allweddol wrth gynllunio addysg Gymraeg. Mae'n hanfodol felly bod llwybrau di-dor i ddysgwyr ddatblygu, cynnal a defnyddio eu sgiliau Cymraeg trwy gydol eu taith mewn addysg drydyddol, gan eu harfogi i ddefnyddio'r sgiliau hynny yn y gweithle ac mewn cyd-destunau anffurfiol.

Yn unol ag Adrannau 6 a 9 o'r Ddeddf, ac yng ngoleuni pasio Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, mae gan Medr rôl strategol fel cyllidwr a rheoleiddiwr addysg drydyddol yng Nghymru i sicrhau bod gennym oruchwyliaeth dros addysg iaith Gymraeg yn y sector hwn. Rydym yn cydnabod bod gennym rôl i'w chwarae, mewn cydweithrediad â'n partneriaid, i sicrhau bod dysgwyr trydyddol a'r gweithlu addysg yn gallu symud ymhellach ar hyd y continwwm sgiliau Cymraeg dros amser.

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi cael ei enwebu gan Weinidogion Cymru i roi cyngor i Medr ar ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi rhoi cyngor ar yr amod hwn a bydd yn parhau i gynghori Medr wrth iddo weithredu ei gynllun strategol.

Mae Medr wedi nodi yn ei gynllun strategol bod ganddo nod i *hybu mwy o ddefnydd o'r Gymraeg, gan gynyddu'r galw am ddysgu ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg, a chyfranogiad ynddi.* Yn ategu gwaith i gyrraedd y nod strategol hwn mae ymrwymiad i Medr weithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, i ddatblygu a gweithredu Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg Drydyddol. Nod y cynllun hwn fydd cynyddu a gwella'r trefniadau i ddarparu a hyrwyddo addysg ac asesu cyfrwng Cymraeg, gan gynyddu cyfranogiad, galluogi llwybrau di-dor ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, ac annog cydweithio.

Datblygwyd yr amod rheoleiddiol hwn i alluogi Medr i ddefnyddio ei offer rheoleiddio i wireddu'r dyheadau a fydd yn cael eu nodi yn y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg Drydyddol. Bydd yr amod rheoleiddiol yn cael ei adolygu'n barhaus i ystyried datblygiad y Cynllun Cenedlaethol. **Dylid** darllen yr amod rheoleiddiol hwn ar y cyd â'r Fframwaith Ansawdd, sy'n rhoi cyngor ar sut y gall darparwyr ddangos bod eu darpariaeth o ansawdd da, gan gynnwys wrth gefnogi ymarferwyr a darparu cyfleoedd i ymgysylltu â'r ddarpariaeth a'r defnydd o'r iaith Gymraeg a'i gwella.

Bydd gan ddarparwyr ledled Cymru sy'n ddarostyngedig i'r amod hwn brofiadau a hanes gwahanol o weithredu yn Gymraeg, yn ogystal â chyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chynnal ymchwil ac arloesi sy'n cefnogi'r Gymraeg. Byddant hefyd yn amrywio o ran eu maint, eu cenhadaeth, demograffeg eu dysgwyr a'u mathau o ddarpariaeth. Mae Medr yn cydnabod y bydd darparwyr yn dechrau o wahanol fannau ar eu taith a bydd yn rheoleiddio'n gymesur yn y cyd-destun hwnnw. Dros amser mae Medr yn disgwyl y bydd pob darparwr yn datblygu eu gallu i ddefnyddio, hybu a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg ar draws eu gwasanaethau fel darparwr, trwy eu darpariaeth addysg a thrwy eu

gweithgareddau ymchwil ac arloesi.

### Gofynion Cydymffurfio

#### 1. Strategaeth y Gymraeg

**Rhaid** i Gorff Llywodraethu'r darparwr, neu gorff cyfatebol, gyhoeddi a chynnal Strategaeth y Gymraeg. **Dylai**'r strategaeth hon nodi sut y bydd y darparwr yn gwneud y canlynol:

- hybu ac annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ar draws y darparwr
- cynyddu'r galw am addysg drydyddol a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg, a chyfranogiad ynddi, a'r Gymraeg fel pwnc hefyd

Lle mae'r darparwr yn sefydliad sy'n gwneud ymchwil ac arloesi, **dylai** hefyd nodi sut y bydd yn:

- hybu ac annog cynnal gweithgareddau ymchwil ac arloesi sy'n cefnogi'r Gymraeg

**Rhaid** i'r strategaeth hon gael ei monitro a'i gwerthuso gan y darparwr, gan adeiladu ar arferion da a adnabuwyd gan sefydliadau eraill. **Rhaid** i ddarparwyr werthuso, a lle bo'n briodol, diwygio eu strategaeth ar gyfnodau o ddim mwy na phum mlynedd. **Rhaid** ennyn ymgysylltiad dysgwyr â'r gwaith o ddatblygu, monitro a gwerthuso'r strategaeth, yn unol â'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr.

**Rhaid** adrodd ar gynnydd o ran cyflawni'r strategaeth trwy strwythurau llywodraethu'r darparwr, ynghyd â deilliannau unrhyw asesiadau effaith a gynhaliwyd.

#### 2. Hybu ac annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ar draws y darparwr

**Rhaid** i'r darparwr nodi yn Strategaeth y Gymraeg sut y bydd yn hybu ac yn annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg ar draws y darparwr fel y gall pobl – gan gynnwys staff a dysgwyr – ddefnyddio'r iaith yn naturiol yn eu bywydau beunyddiol. **Dylai**'r elfen hon o Strategaeth y Gymraeg:

- nodi sut y bydd y darparwr yn hyrwyddo'r Gymraeg, ei gwerth, a'r manteision y mae'r iaith yn eu cynnig i ddysgwyr a staff
- nodi sut y bydd y darparwr yn hybu ac yn annog cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i'w ddysgwyr a'i staff ddatblygu eu sgiliau Cymraeg gydol oes, fel y gallent symud ymhellach ar hyd y continwwm sgiliau Cymraeg
- ystyried unrhyw amodau neu gynlluniau rheoleiddio perthnasol eraill sy'n ymwneud â chynnig gwasanaethau Cymraeg ar draws y darparwr, megis Safonau'r Iaith Gymraeg a'r Cynnig Cymraeg

Mae prifysgolion a cholegau eisoes yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg, a sefydlwyd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ac mae'n ofynnol iddynt adrodd ar gydymffurfedd mewn perthynas â'r safonau hyn yn flynyddol. Bydd cydymffurfio â'r safonau hyn yn helpu i roi sicrwydd i ni bod darparwyr yn cyrraedd safonau sylfaenol er mwyn annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg.

Pan nad yw darparwr yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg, **rhaid** iddo weithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i ddatblygu cynlluniau cymesur sy'n benodol i gyd-destun sy'n gwella ei gynnig i ddefnyddwyr ei wasanaethau dros amser drwy'r Cynnig Cymraeg.

Lle bo'n briodol, **dylai** darparwyr hefyd ystyried sut maent yn bwriadu mynd y tu hwnt i gyrraedd safonau neu gynlluniau'r Cynnig Cymraeg wrth nodi'r elfen hon o Strategaeth y Gymraeg.

### 3. Cynyddu'r galw am addysg drydyddol a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg, a chyfranogiad ynddi, a'r Gymraeg fel pwnc hefyd

**Rhaid** i'r darparwr nodi yn Strategaeth y Gymraeg sut y bydd yn cynyddu'r galw am addysg drydyddol a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg, a chyfranogiad ynddi, a'r Gymraeg fel pwnc. **Dylai'r** elfen hon o Strategaeth y Gymraeg:

- nodi deilliannau mesuradwy ar gyfer cynyddu'r galw am addysg drydyddol a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg, a chyfranogiad ynddi, a'r Gymraeg fel pwnc hefyd, gan gynnwys ymhlith grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol
- adlewyrchu cyfraniadau'r darparwyr i'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg Drydyddol pan gaiff ei gyhoeddi
- ystyried amodau rheoleiddiol eraill a osodwyd gan Medr
- nodi sut y bydd y darparwr yn hyrwyddo darpariaeth Gymraeg, lle y bo ar gael
- bod wedi'i hymgorffori yng nghynlluniau strategol ehangach y darparwr, gan sicrhau bod ansawdd y ddarpariaeth a phrofiad dysgwyr yn cael ei gynnal
- ystyried pa gapasiti gweithlu a allai fod ei angen i gefnogi mwy o ddysgwyr i gymryd rhan mewn addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg a'r Gymraeg fel pwnc
- bod yn glir ynghylch sut y bydd y darparwr yn gweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol
- ystyried strategaethau a ddatblygwyd gan ddarparwyr lleol, rhanbarthol a chenedlaethol eraill i gefnogi dull cydlynol sy'n canolbwyntio ar y dysgwr o gynllunio darpariaeth
- nodi cyfleoedd i gydweithio â darparwyr eraill i gynyddu'r galw am addysg drydyddol a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg, a chyfranogiad ynddi, a'r Gymraeg fel pwnc hefyd
- cael ei datblygu, ei monitro a'i gwerthuso gyda dysgwyr yn unol â'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr

Bydd gallu darparwyr i ymateb i'r galw cynyddol am addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg yn amrywio ar draws y sector ac rydym yn cydnabod y bydd angen datblygu'r gallu i ehangu'r ddarpariaeth hon dros amser. **Dylai**'r elfen hon o Strategaeth y Gymraeg fod yn gymesur â maint, cenhadaeth, capasiti'r gweithlu, y cynnig pynciau a chyd-destun rhanbarthol y darparwr, gan gydnabod yr heriau a'r cyfleoedd y maent yn eu hwynebu wrth gynllunio, datblygu a chyflawni'r ddarpariaeth hon.

**Dylai** prosesau derbyn a chofrestru darparwyr ystyried sgiliau iaith dysgwyr er mwyn darparu ar gyfer datblygiad parhaus eu sgiliau Cymraeg yng nghyd-destun eu hastudiaethau, ar lefel briodol, gan gynnwys trwy astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. **Dylai** darparwyr sicrhau bod dysgwyr yn meddu ar yr wybodaeth a'r cymorth angenrheidiol i hwyluso'r dewisiadau hyn.

**Dylai** darparwyr ystyried sut mae'r elfen hon o'u Strategaeth Iaith Gymraeg yn cyd-fynd â'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg, a baratowyd gan Weinidogion Cymru o dan Adran 24 o Ddeddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, unwaith y bydd y Fframwaith Cenedlaethol wedi'i gyhoeddi.

**Dylai** darparwyr hefyd sicrhau bod y gwaith o ddatblygu rhaglenni dysgu perthnasol yn

cyd-fynd â’r Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg, a baratowyd gan Weinidogion Cymru o dan Adran 6 o Ddeddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, unwaith y bydd y Cod wedi’i gyhoeddi.

**4. Hybu ac annog cynnal gweithgareddau ymchwil ac arloesi sy’n cefnogi’r Gymraeg**

Lle mae’r darparwr yn sefydliad sy’n gwneud ymchwil ac arloesi, **rhaid** iddo hefyd nodi yn Strategaeth y Gymraeg sut y bydd yn annog ei ymchwilwyr, gan gynnwys ymchwilwyr o blith staff a myfyrwyr, i gynnal gweithgareddau ymchwil ac arloesi sy’n cefnogi’r Gymraeg.

Gallai cwmpas gweithgareddau ymchwil ac arloesi o’r fath gynnwys:

- ymchwil mewn ystod o bynciau academaidd a gynhelir trwy gyfrwng y Gymraeg, yn gyfan gwbl neu’n rhannol
- ymchwil i’r Gymraeg fel pwnc academaidd
- ymchwil addysgegol ac addysgol yng nghyd-destun y Gymraeg
- ymchwil cynllunio a pholisi iaith yng nghyd-destun y Gymraeg

## Monitro

Bydd Medr yn monitro cydymffurfedd â’r amod hwn yn y ffyrdd canlynol (i gael diffiniadau o’r rhain, gweler dull Medr o fonitro):

- **Ffurflenni Sicrwydd Blynyddol:** bydd disgwyl i ddarparwyr hunan-ddatgan a chyflwyno tystiolaeth eu bod wedi ateb gofynion cydymffurfio a gwella’n barhaus yr amod
- **hunan-werthuso:** drwy gyhoeddi a chynnal Strategaeth Iaith Gymraeg, a fydd yn cael ei monitro a’i gwerthuso gan y darparwr
- **arolygon dysgwyr:** mewn achosion lle mae deilliannau arolygon yn ymwneud ag Amod y Gymraeg
- **gwybodaeth sydd ar gael i’r cyhoedd:** gall cywirdeb, hygyrchedd ac eglurder gwybodaeth, fel gwefannau, prosbectysau a deunyddiau recriwtio, lle mae’n ymwneud â darpariaeth sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, fod yn ddangosyddion defnyddiol o gydymffurfedd
- **adolygiadau Estyn a’r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA):** mewn achosion lle mae deilliannau adolygiadau’n ymwneud ag Amod y Gymraeg
- **ffynonellau sicrwydd annibynnol:** er enghraifft, drwy Gomisiynydd y Gymraeg
- **cyflwyniadau pryderon rheoleiddiol a monitro cwynion:** mewn achosion lle mae pryderon a gyflwynir i Medr, neu ddadansoddiad o ddata cwynion, yn nodi themâu neu faterion systemig sy’n ymwneud â chydymffurfedd ag Amod y Gymraeg
- **Digwyddiadau y Mae’n Rhaid eu Hadrodd:** mewn achosion lle mae’r digwyddiadau hynny’n ymwneud ag Amod y Gymraeg
- **monitro data:** mynd ati’n flynyddol i fonitro data a gwybodaeth sy’n ymwneud ag Amod y Gymraeg, gan gynnwys yr hyn a rennir gyda ni gan sefydliadau eraill sy’n monitro darparwyr, fel y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Chomisiynydd y Gymraeg, i leihau achosion o ddyblygu ymdrechion
- **gweithgareddau ymgysylltu**: naill ai ar lefel darparwr neu ar lefel sector, bydd Medr yn ymgysylltu â darparwyr wrth adolygu sut y mae cyngor neu arweiniad yn cael ei ystyried

Lle mae Medr o’r farn bod y darparwr mewn perygl o dorri’r amod hwn, efallai y bydd yn ei

gwneud yn ofynnol i ddarparu gwybodaeth ychwanegol, a gall sefydlu trefniadau monitro ychwanegol ac o bosibl ei gwneud yn ofynnol llunio cynllun gweithredu.

Bydd Medr yn defnyddio data a gwybodaeth i oleuo ei asesiad o gydymffurfedd darparwyr â'r amod. Gall hyn gynnwys:

- strategaethau perthnasol gan gynnwys, ymhlith eraill, strategaeth i gynyddu'r galw am addysg drydyddol a chyfranogiad mewn addysg drydyddol a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys unrhyw gynlluniau gweithredol cysylltiedig a fframweithiau gwerthuso i fonitro cynnydd a chyflawniad o ran eu gweithredu
- data dysgwyr a gyflwynir gan ddarparwr trwy Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru neu gofnod myfyrwyr Awdurdod Safonau Addysg Uwch (HESA)
- data staff o gofrestr Cyngor y Gweithlu Addysg, cofnod staff HESA a ffynonellau eraill
- Cyfarfodydd rhwng staff Medr ag arweinwyr strategol
- gwybodaeth a gafwyd o weithgarwch ymgysylltu â phartneriaid strategol fel y Coleg Cymraeg Cenedlaethol neu Gomisiynydd y Gymraeg
- deilliannau ymweliadau sicrhau ansawdd, arolygiadau neu adolygiadau
- adroddiadau hunanwerthuso a strategaethau dysgu proffesiynol darparwyr
- tystiolaeth o arolygon dysgwyr a staff
- llais y dysgwr o ystod o fecanweithiau gan gynnwys arolygon llais y dysgwr, cwynion a thrwy ymgysylltu â chynrychiolwyr dysgwyr
- digwyddiadau adroddadwy neu gwynion

Bydd mynychder ymgysylltiad Medr â darparwyr yn cael ei bennu gan ystyried i ba raddau y mae Medr wedi cael sicrwydd bod y darparwr yn cydymffurfio â'r amod, a bydd hyn yn cael ei wneud ar sail risg.

Mae Medr yn cadw'r hawl i alw strategaethau, archwiliadau ac adroddiadau darparwyr i mewn trwy eu strwythurau llywodraethu i oleuo ei asesiad o gydymffurfio.

Mae'n bosibl y bydd darparwyr sydd â hanes blaenorol o beidio â chydymffurfio, sy'n dangos tueddiadau o ddirywiad mewn data neu sy'n wynebu risg o beidio â chydymffurfio yn y dyfodol yn destun craffu mwy dwys. Bydd peidio â chydymffurfio â gofynion monitro yn ysgogi ymchwiliadau pellach ac ymyriadau posibl.

### Adolygu a Diwygio

Bydd Medr yn adolygu'r amod hwn yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag anghenion esblygol y sector, newidiadau i bolisïau ac adborth gan randdeiliaid.

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

## Amod: Diogelu Dysgwyr

Pan roddir hysbysiad o dan Adran 126(1) o **Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022** (y Ddeddf**)**, **rhaid** i gorff llywodraethu (neu gyfwerth) darparwr sydd wedi cofrestru gyda Medr neu sy'n cael ei gyllido ganddo:

- sicrhau bod ganddo gynllun diogelu dysgwyr ar waith sydd wedi'i gymeradwyo gan Medr, cyn neu ar ddyddiad a bennir gan Medr, a **rhaid** iddo weithredu'r cynllun hwnnw

### Categori Amod

Mae hwn yn amod cofrestru parhaus. Mae hwn yn amod ar gyfer cyllid.

### Sail Gyfreithiol

O dan Adran 31 o'r Ddeddf, rhaid i Medr ddarparu amod parhaus o gofrestru sy'n ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu'r darparwr, "os yw wedi cael hysbysiad o dan Adran 126(1), gael cynllun diogelu dysgwyr yn ei le sydd wedi ei gymeradwyo gan y Comisiwn (o dan Adran 126(3) neu (5)) ar neu cyn y dyddiad a bennir yn yr amod a rhoi effaith i'r cynllun."

O dan Adrannau 90, 99, a 104 o'r Ddeddf, gall Medr osod telerau ac amodau cyllido mewn perthynas â'r amod hwn.

Mae Adran 126 o'r Deddf yn nodi bod rhaid i Medr gyhoeddi canllawiau ar baratoi ac adolygu cynlluniau diogelu dysgwyr.

Mae Adran 126 yn nodi y gall Medr roi hysbysiad i ddarparwr addysg drydyddol perthnasol yn gofyn iddo gyflwyno cynllun diogelu dysgwyr i Medr ar ddyddiad a bennir yn yr hysbysiad, neu cyn y dyddiad hwnnw.

Mae Adran 126 hefyd yn nodi y gall Medr gymeradwyo'r cynllun diogelu dysgwyr ar ei ffurf gyfredol neu gydag addasiadau. Os yw darparwr addysg drydyddol perthnasol yn dymuno diwygio ei gynllun diogelu dysgwyr cymeradwy, **rhaid** iddo anfon cynllun

diwygiedig i Medr. Gall Medr gymeradwyo'r cynllun diogelu dysgwyr ar ei ffurf gyfredol neu gydag addasiadau.

Mae Adran 135 o'r Ddeddf yn nodi y gall Medr roi cyngor a chyhoeddi canllawiau (boed yn gyffredinol neu'n benodol) i unrhyw berson ynghylch darparu addysg drydyddol neu unrhyw fater sy'n gysylltiedig â swyddogaethau Medr.

### Gofynion Cydymffurfio

1. Er mwyn cydymffurfio â'r amod hwn, **rhaid** i gorff llywodraethu darparwr (neu gyfwerth), os yw wedi cael hysbysiad o dan Adran 126(1) o'r Ddeddf, gael cynllun diogelu dysgwyr (neu cyn y dyddiad a bennir yn yr hysbysiad) wedi'i gymeradwyo gan Medr (o dan Adran 126(3) neu 126(5)) a gweithredu'r cynllun hwnnw. Dylai darparwyr fodloni'r gofynion a nodir yn y canllawiau statudol ar ddiogelu dysgwyr.

### Monitro

Bydd Medr yn monitro cydymffurfedd â'r amod hwn drwy oruchwylio cynlluniau diogelu dysgwyr a gaiff eu cwblhau. Bydd Medr yn monitro effeithiolrwydd y trefniadau diogelu dysgwyr yn y ffyrdd canlynol (i gael diffiniadau o'r rhain, gweler dull Medr o fonitro):

- **Digwyddiadau y Mae'n Rhaid eu Hadrodd:** mewn achosion lle mae'r digwyddiadau hynny'n ymwneud â meysydd o fewn cylch gwaith Medr, neu gyngor neu arweiniad a roddwyd gan Medr i lywio gwaith gwneud penderfyniadau ynghylch a oes angen cynllun diogelu dysgwyr ai peidio
- **adborth dysgwyr:** mewn achosion lle mae adborth yn gysylltiedig ag effeithiolrwydd neu effaith trefniadau diogelu dysgwyr
- **cyflwyniadau pryderon rheoleiddiol a monitro cwynion:** mewn achosion lle mae pryderon a gyflwynir i Medr, neu ddadansoddiad o ddata cwynion, yn nodi themâu neu faterion systemig a allai olygu bod Medr yn gofyn am gynllun diogelu dysgwyr
- **dadansoddi data:** bydd Medr yn monitro cydymffurfedd a gwelliant parhaus gan ddefnyddio ystod o ddata meintiol ac ansoddol sydd ar gael. Lle y bo'n bosibl, bydd dadansoddiad Medr yn cael ei gyd-destunoli. Gellir defnyddio hyn i lywio unrhyw benderfyniad ynghylch a oes angen cynllun diogelu dysgwyr
- **monitro yn seiliedig ar risg:** mae data, tystiolaeth neu adroddiadau'n dangos risg wirioneddol neu risg bosibl, rydym yn cadw'r hawl i ofyn am wybodaeth, tystiolaeth a/neu ddata ychwanegol, i gwrdd â'r darparwr a/neu ymweld â'r sefydliad
- **monitro gwefan y darparwr:** gall Medr fonitro gwefannau darparwyr i sicrhau bod gofynion cyhoeddi ar gyfer cynlluniau diogelu dysgwyr yn cael eu bodloni
- **gweithgareddau ymgysylltu**: naill ai ar lefel darparwr neu ar lefel sector, bydd Medr yn ymgysylltu â darparwyr wrth adolygu sut y mae cyngor neu arweiniad yn cael ei ystyried

Mae'n bosibl y bydd darparwyr sydd â hanes blaenorol o beidio â chydymffurfio, sy'n dangos tueddiadau o ddirywiad mewn data neu sy'n wynebu risg o beidio â chydymffurfio yn y dyfodol yn destun craffu mwy dwys. Bydd peidio â chydymffurfio â gofynion monitro yn ysgogi ymchwiliadau pellach ac ymyriadau posibl.

## Adolygu a Diwygio

Bydd Medr yn adolygu'r amod hwn yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag anghenion esblygol y sector, newidiadau i bolisïau ac adborth gan randdeiliaid.

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

## Canllawiau Statudol ar Baratoi a Diwygio Cynlluniau Diogelu Dysgwyr

1. O dan **Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022** (y Ddeddf), rhaid i Medr gyhoeddi canllawiau ar baratoi a diwygio cynlluniau diogelu dysgwyr. Bydd Medr yn goruchwylio ac yn monitro'r modd y cwblheir y cynlluniau hynny ac yn adrodd ar effeithiolrwydd y cynlluniau hynny trwy ei adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru.

2. Mae ein canllawiau yn nodi'r gofynion ar gyfer cynlluniau diogelu dysgwyr y gall Medr ofyn amdanynt gan ddarparwyr addysg drydyddol.

3. Egwyddor arweiniol cynlluniau diogelu dysgwyr yw y dylai dysgwyr allu cwblhau'r rhaglenni astudio y maent yn cofrestru arnynt, gan gynnwys y rhai a gyflwynir trwy drefniant partneriaethau. Os bydd rhywbeth yn digwydd yng nghyd-destun yr amgylchedd dysgu, y gellid yn rhesymol ystyried ei fod o dan ddylanwad y darparwr, neu os bydd penderfyniad yn cael ei wneud gan ddarparwr, a allai effeithio'n negyddol ar allu dysgwr i gwblhau ei gwrs, yna rydym yn disgwyl i ddarparwyr gymryd pob cam rhesymol i gefnogi dysgwyr hyd at gwblhau eu deilliannau dysgu. Mae hyn yn cynnwys cynorthwyo dysgwyr i drosglwyddo rhwng rhaglenni os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Nid yw'n cynnwys newidiadau i gwrs astudio lle nad oes dysgwyr wedi'u cofrestru'n weithredol, nac yn cynnwys amgylchiadau lle mae dysgwr yn dewis tynnu'n ôl o'i gwrs am resymau eraill (e.e. i fynd ar drywydd cyflogaeth).

4. Disgwylir y bydd defnyddio Cynllun Diogelu Dysgwyr yn anghyffredin. Lle mae gan ddarparwyr drefniadau llywodraethu a rheoli risg effeithiol ar waith, fel arfer caiff problemau posibl eu nodi a'u rheoli ymhell ymlaen llaw, sy'n golygu nad yw'n debygol y bydd angen Cynllun Diogelu Dysgwyr. Felly mae'r Cynllun Diogelu Dysgwyr yn gweithredu fel mesur diogelwch ar gyfer amgylchiadau eithriadol, yn hytrach na rhywbeth y byddai'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn disgwyl bod yn ddarostyngedig iddo.

5. Fel rheol gyffredinol, byddwn yn defnyddio ein liferi rheoleiddiol a chyllid i ymgysylltu â darparwyr i ddeall y trefniadau a'r strategaethau sydd ganddynt ar waith i gynorthwyo dysgwyr i gwblhau eu cyrsiau a llwyddo. Cynlluniau diogelu dysgwyr

fydd un o'r offer hyn. Os gallwn gael gwybodaeth trwy fecanweithiau sefydledig, yna fel rheol byddwn yn defnyddio'r llwybrau hyn yn hytrach na gofyn am gynllun.

6. Mae dull Medr yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddarparwyr hysbysu Medr, trwy e-bost, am unrhyw ddigwyddiadau difrifol neu ddigwyddiadau hysbysadwy (fel y nodir ym manylion atodol y gofynion ar gyfer Digwyddiadau y Mae'n Rhaid eu Hadrodd) neu faterion eraill a allai effeithio'n negyddol ar allu dysgwyr i gwblhau eu cyrsiau addysg drydyddol. Gall enghreifftiau yma sbarduno cynllun diogelu dysgwyr. Mae'r dull hwn yn seiliedig ar fwriad Medr bod 'dim syrpreisys' o ran ei ddull rheoleiddio, y **bydd** darparwyr yn hunan-ddatgan materion perthnasol wrth Medr (gan gynnwys y rhai sydd â'r potensial i ymddangos yn y wasg), ac y bydd ymgysylltu a chyfathrebu parhaus gyda darparwyr y mae'n eu cyllido a'u rheoleiddio.

7. **Dylai** darparwyr gadarnhau'r camau y maent yn eu cymryd, neu'n bwriadu eu cymryd, i ddatrys y mater (gan gynnwys cymorth ar gyfer dysgwyr ac ymgysylltu gweithredol â dysgwyr i ystyried eu hanghenion). Efallai y bydd amgylchiadau lle mae Medr yn cysylltu â darparwr i gael gwybodaeth (fel y cam cyntaf) cyn gwneud yr asesiad i benderfynu a oes cynllun diogelu dysgwyr yn ofynnol.

8. Ar ôl cael y math hwn o hysbysiad, bydd Medr yn ystyried yr angen posibl am gynllun diogelu dysgwyr a gall gychwyn deialog gyda darparwyr i geisio eglurhad. Ni fydd pob digwyddiad y mae'n rhaid ei adrodd yn peri i Medr ofyn am gynllun diogelu dysgwyr. Lle y bo'n bosibl, dylid hysbysu Medr ar adeg gynnar mewn unrhyw broses benderfynu, yn enwedig lle gallai hyn effeithio ar grwpiau neu nifer sylweddol o ddysgwyr. Pan fydd amgylchiadau'n codi a allai achosi niwed neu risg i allu dysgwr i gwblhau ei gyrsiau'n llwyddiannus, mae Medr yn disgwyl i ddarparwyr yn y lle cyntaf hysbysu dysgwyr yn llawn ac ymgysylltu'n weithredol â hwy i drafod sut y bydd yr amgylchiadau'n cael eu lliniaru.

9. Ym mhob achos, wrth benderfynu a yw cynllun diogelu dysgwyr yn ofynnol, bydd Medr yn ystyried manylion yr amgylchiadau a difrifoldeb yr effaith bosibl, neu wirioneddol, ar ddysgwyr. Rydym yn cadw'r hawl i roi hysbysiad i ddarparwr os ydym yn teimlo bod angen cynllun diogelu dysgwyr i roi sicrwydd i Medr mewn perthynas â'r materion a amlinellir yn y canllawiau hyn.

10. Ar ôl cael rhybudd, **rhaid** i ddarparwr gyflwyno cynllun diogelu dysgwyr i Medr i'w gymeradwyo. Bydd yr hysbysiad yn nodi erbyn pa ddyddiad y **dylid** cyflwyno'r cynllun diogelu dysgwyr a'r manylion y **dylid** eu cynnwys yn y cynllun, yn berthynol i'r mater neu'r sbardun a ysgogodd y cynllun. **Dylai'r** cynllun gael ei gyd-greu gyda dysgwyr yr effeithir arnynt gan y materion, gyda chymorth cynrychiolwyr dysgwyr fel y bo'n briodol. **Rhaid** i'r darparwr sicrhau ei fod yn cyfathrebu'n effeithiol ac yn briodol â dysgwyr.

11. Mae **Atodiad A** yn nodi'r broses ddisgwyliedig hon ar gyfer cyflwyno, cymeradwyo a diwygio cynlluniau diogelu dysgwyr.

12. Mae **Atodiad B** yn nodi gofynion Medr ar gyfer cynnwys cynlluniau diogelu dysgwyr. Nid ydym wedi darparu templed gan nad ydym am fod yn rhy ragnodol ynghylch datblygiad a fformat cynlluniau. Fodd bynnag, os bydd awydd cyfunol yn y sector am dempled, byddwn yn gweithio gyda darparwyr i lunio un.

13. Mae **Atodiad C** yn darparu enghreifftiau ymarferol o senarios posibl, gydag asesiad petrus (a damcaniaethol) Medr wrth benderfynu a allai cynllun diogelu dysgwyr fod yn ofynnol. Bydd ein penderfyniad i ofyn am gynllun yn gymesur ac yn seiliedig ar risg, yn unol â'n dull rheoleiddio, a bydd yn cael ei wneud fesul achos unigol.

## Cwmpas

14. **Dylai** pob darparwr a gyllidir gan Medr neu sydd wedi'i gofrestru gydag ef ymlynu wrth y canllawiau hyn mewn perthynas â'r addysg y maent yn ei darparu, ac eithrio awdurdodau lleol mewn perthynas â darpariaeth chweched dosbarth a gynhelir, sydd wedi'i eithrio'n benodol o'r darpariaethau o fewn y Deddf ynghylch cynlluniau diogelu dysgwyr. Mae darparwyr a gwmpesir yn cynnwys prifysgolion, sefydliadau addysg bellach, darparwyr prentisiaethau (h.y. darparwyr hyfforddiant annibynnol yn ogystal â sefydliadau addysg bellach), a darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned. Mae cyrsiau addysg drydyddol yn cynnwys darpariaeth addysg bellach, hyfforddiant, prentisiaethau, addysg uwch (gan gynnwys ymchwil ôl-raddedig) a dysgu oedolion yn y gymuned.

15. Mae darpariaeth a roddir gan neu ar ran darparwyr a gyllidir neu sy'n gofrestredig o fewn cwmpas y canllawiau hyn. Mae hyn yn cynnwys addysg drawswladol, darpariaeth a roddir trwy drefniadau is-gontractio, yn ogystal ag addysg a ddarperir fel rhan o drefniadau is-gwmni. Yn achos darpariaeth mewn partneriaeth, **bydd** Medr yn ei gwneud yn ofynnol i'r prif ddarparwr fod â pherchnogaeth ar unrhyw gynlluniau diogelu dysgwyr gweithredol a chynnwys partneriaid yn y broses o ddatblygu a gweithredu'r cynlluniau hyn.

16. Mewn rhai achosion, er enghraifft yn achos digwyddiadau allanol neu gymdeithasol a fyddai'n debygol o gael effaith ar sawl darparwr, efallai y byddai'n briodol i ddau neu fwy o ddarparwyr fabwysiadu dull ar y cyd o baratoi cynlluniau diogelu dysgwyr neu ganllawiau tanategol (gan gynnwys cynllunio parhad busnes). Fodd bynnag, bydd dull monitro Medr yn benodol i bob darparwr unigol.

17. Nid yw'r canllawiau hyn a'r Amod Diogelu Dysgwyr yn disodli, yn goresgyn nac yn gwrth-ddweud rhwymedigaethau cyfreithiol ehangach darparwr, gan gynnwys y rhai o dan gyfraith diogelu defnyddwyr neu'r gofynion a nodir gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA).

## Sbardunau

18. Mae'r rhestr ganlynol yn nodi sbardunau posibl ar gyfer cynllun diogelu dysgwyr. Nid rhestr gynhwysfawr mo hon. Fodd bynnag, rydym o'r farn mai'r rhain yw'r prif feysydd lle gallai fod angen cynlluniau diogelu dysgwyr:

- digwyddiadau y mae'n rhaid eu hadrodd (yn unol â pholisi digwyddiadau y mae'n rhaid eu hadrodd Medr)
- cau cyrsiau (ac eithrio'r rhan fwyaf o achosion o addysgu darpariaeth i'w therfyn, gweler yr adran parhad busnes isod)
- cau, neu newid, lleoliad dysgu cynradd dysgwr (campws, canolfan, ac ati, gan gynnwys o ganlyniad i uno neu gymryd drosodd darparwr). Gallai hyn gynnwys materion sy'n effeithio ar amgylcheddau dysgu ar-lein, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau

- cau darparwr
- newid sylweddol i gwrs astudio dysgwr. Byddwn yn defnyddio'r term 'sylweddol' i gwmpasu newidiadau neu addasiadau sy'n golygu y gall y ddarpariaeth yn rhesymol gael ei hystyried yn sylweddol wahanol i'r un y cofrestrodd y dysgwr ar ei chyfer ar ddechrau ei raglen astudio. Gallai hyn gynnwys:

    - dull astudio (er enghraifft, o fod yn y cnawd i fod yn gyfan gwbl ar-lein)
    - colli elfennau hanfodol, neu newid sylweddol i elfennau hanfodol, a allai effeithio ar allu dysgwr i gyflawni ei ddeilliannau dysgu (e.e. asesiadau, modiwlau, lleoliadau (gan gynnwys o ganlyniad i fethiant perthnasoedd â phartneriaid, neu fethiant cyflogwr), elfennau gorfodol o ddarpariaeth a achredir gan Gorff Proffesiynol, Statudol neu Reoleiddiol (PSRB) lle gallai'r newid neu'r newidiadau arfaethedig annilysu achrediad)
    - methu â darparu darpariaeth cyfrwng Cymraeg lle mae hyn yn groes i'r hyn a gynigiwyd ar ddechrau'r cwrs
    - colli personél hanfodol / arbenigol (e.e. trefniadau goruchwylio Ymchwil Ôl-raddedig, cynnwys cwrs arbenigol)
    - colli cyllid a neilltuwyd (e.e. ysgoloriaethau UKRI)
    - colli cyfleusterau hanfodol

19. Byddwn yn monitro'r ffynonellau gwybodaeth canlynol yn rheolaidd trwy ein mecanweithiau sefydledig ac yn ymgysylltu â darparwyr neu'n gofyn am gynlluniau diogelu dysgwyr lle'r ydym o'r farn y gallai hynny fod yn angenrheidiol:

    - tueddiadau mewn data
    - deilliannau arolygon llais y dysgwr
    - gwybodaeth a rennir gyda Medr gan ddysgwyr, eu cynrychiolwyr, a rhanddeiliaid eraill
    - cydymffurfedd â'r cod ymgysylltu â dysgwyr
    - deilliannau adolygiadau sicrhau ansawdd allanol
    - deilliannau archwiliadau
    - deilliannau ymarferion achredu cyrff proffesiynol, statudol neu reoleiddiol
    - deilliannau prosesau cwynion, gan gynnwys y rhai a gyfeiriwyd at gyrff eraill fel Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA)

    Fel yr amlinellir uchod, os gallwn geisio sicrwydd trwy fecanweithiau eraill, byddwn yn amcanu at wneud hynny.

## Parhad Busnes

20. Mae cynlluniau diogelu dysgwyr wedi'u bwriadu i sicrhau bod trefniadau diogelu dysgwyr cyson ac effeithiol i'w cael yn y sector trydyddol, i gynorthwyo dysgwyr i allu cwblhau eu cyrsiau os bydd rhywbeth yn digwydd y tu allan i'w rheolaeth a allai effeithio'n negyddol ar eu haddysg.

21. Nid yw cynlluniau diogelu dysgwyr wedi'u bwriadu i ddisodli gweithgarwch parhad busnes na phrosesau eraill a ddefnyddir gan ddarparwyr i gyflawni eu dyletswyddau rheoleiddiol a statudol. Rydym o'r farn y gallai prosesau parhad busnes effeithiol liniaru'r angen i Medr ei gwneud yn ofynnol cyflwyno cynllun diogelu dysgwyr mewn rhai achosion, ar yr amod eu bod wedi'u dylunio'n effeithiol. **Dylai** darparwyr

ystyried y canllawiau hyn, gan gynnwys yr egwyddorion cyffredinol a nodir uchod, o fewn cynlluniau parhad busnes perthnasol a gwneud penderfyniadau sefydliadol.

## Adolygiad Portffolio

22. Mae Medr yn cydnabod bod darparwyr yn addasu eu portffolio o gyrsiau yn barhaus, yn enwedig i ymateb i newidiadau yn y galw gan ddysgwyr, ac y bydd hyn yn aml yn cynnwys cau rhai cyrsiau lle mae'r galw'n lleihau er mwyn ailddosbarthu adnoddau i feysydd lle mae'r galw'n tyfu, neu gau cyrsiau fel rhan o raglen i ail-ddylunio a thrawsnewid y cwricwlwm mewn modd wedi'i gynllunio. Ni fydd cynlluniau diogelu dysgwyr yn ofynnol fel arfer mewn perthynas â chau cyrsiau yn y ffordd honno, yn enwedig pan fo darparwyr yn bwriadu addysgu darpariaeth i'w therfyn yn yr un lleoliad a phan nad oes unrhyw oblygiadau ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno symud ymlaen i'r lefel astudio nesaf. Fodd bynnag, efallai y byddai Medr yn ceisio sicrwydd ynghylch sut y byddai darparwyr yn diogelu deilliannau dysgwyr yn yr amgylchiadau hyn, gan gydnabod y gallai addysgu'r ddarpariaeth hyd at ei therfyn gael effaith negyddol ar ddysgwyr o hyd. Gallai fod goblygiadau yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd/ cyfraith diogelu defnyddwyr i ddarparwyr mewn rhai amgylchiadau hefyd ac mae'r rhain yn annibynnol ar asesiad Medr.

23. Pan fo cwrs yn mynd i gael ei gau ran o'r ffordd trwy raglen dysgwr (er enghraifft, ail flwyddyn Safon Uwch mewn sefydliad addysg bellach, neu flwyddyn gyntaf gradd israddedig mewn prifysgol) heb y cyfle i ddysgwyr gwblhau eu cwrs gyda'r un darparwr, rydym yn disgwyl i ddarparwyr gefnogi'r holl ddysgwyr yr effeithir arnynt i sicrhau eu bod yn gallu cwblhau eu cwrs mewn man arall. Yn yr un modd, lle mae pwyntiau dilyniant disgwyliedig yn cael eu dileu ar ôl i ddysgwr gofrestru – fel y lefel nesaf mewn cyfres o gymwysterau – rydym yn disgwyl i ddarparwyr gefnogi'r holl ddysgwyr yr effeithir arnynt i sicrhau eu bod yn gallu cwblhau eu cwrs trwy drefniadau eraill.

24. Gallai hyn fod trwy eu trosglwyddo i gwrs tebyg a gynigir gan y darparwr neu drwy gynorthwyo'r dysgwr i drosglwyddo i'r un cwrs addysg neu hyfforddiant neu i gwrs addysg neu hyfforddiant tebyg mewn darparwr arall. Gallai gynnwys cymorth emosiynol neu gymorth gyda llesiant, cymorth ariannol mewn perthynas â chostau llety/ astudio neu symud eiddo personol, neu gostau cludiant lle mae angen i ddysgwyr deithio i'r lleoliad darparu newydd. Efallai y bydd Medr yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno cynlluniau diogelu dysgwyr i'w cymeradwyo lle mae rheswm dros gredu nad yw dysgwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n briodol gan eu darparwr.

25. Mae'n bosib fydd enghreifftiau lle mae telerau ac amodau darparwr ei hun yn caniatáu cau cyrsiau. Er enghraifft, os na dderbyniwyd digon o gofrestriadau newydd ar gyfer y cyrsiau hyn ac os nad yw'n hyfyw cynnal y cyrsiau hyn. Rydym o'r farn y byddai hyn y tu allan i gwmpas cynlluniau diogelu dysgwyr, ar yr amod bod ymgeiswyr yn cael cynnig dewisiadau eraill addas lle y bo'n bosibl a lle mae dysgwyr wedi cael gwybod am y posibilrwydd hwn **cyn** gwneud cais am y cwrs.

26. Ym mhob achos o'r fath, mae Medr yn disgwyl y **bydd** darparwyr yn hysbysu dysgwyr yn llawn am y cynlluniau ar gyfer cau ac y byddant yn sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cynorthwyo'n llawn i gwblhau eu cwrs astudio yn llwyddiannus, gan gynnwys trwy gynnal adnoddau staffio a dysgu addas a digonol hyd at ddiwedd darparu'r cwrs a sicrhau bod trefniadau ar waith i gynorthwyo dysgwyr i gyflawni eu

deilliannau dysgu. Os bydd Medr yn cael gwybodaeth nad yw'r dysgwyr hyn yn cael eu cefnogi, byddwn yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r darparwr yn y lle cyntaf.

27. Hefyd, ni fyddai cwblhau cynllun diogelu dysgwyr yn llwyddiannus yn amharu nac yn effeithio ar hawliau ehangach dysgwr, gan gynnwys o dan gyfraith defnyddwyr neu, lle y bo'n berthnasol, gwneud iawn trwy drydydd parti.

28. **Dylai** gweithgarwch ymgysylltu â dysgwyr darparwyr nodi sut y bydd y darparwr yn ennyn ymgysylltiad dysgwyr â phrosesau penderfynu, gan gynnwys pan fydd yn ymwneud â chynllunio ar gyfer cau cyrsiau a rhoi hynny ar waith, a newidiadau sylweddol i gynnwys a chyflwyno cyrsiau, fel rhan o reoli portffolio cyrsiau yn barhaus. **Dylai** hyn sicrhau bod dysgwyr yn cael eu hysbysu a bod ganddynt gyfleoedd ystyrlon i godi unrhyw gwestiynau a phryderon ynghylch sut y byddant yn cael eu cynorthwyo i gwblhau eu cwrs yn llwyddiannus.

29. Rydym yn cydnabod y gall fod digwyddiadau sy'n annisgwyl ac sydd â'r potensial i darfu ar ddarpariaeth addysg drydyddol. Gallai'r rhain gynnwys trychinebau naturiol, digwyddiadau ar y campws (e.e. tân/llifogydd), neu ddigwyddiad ledled y wlad (fel pandemig byd-eang neu weithredu terfysgol). Rydym yn argymell bod darparwyr yn ystyried posibiliadau o'r fath yn eu cynlluniau wrth gefn / cynlluniau parhad busnes, i oleuo unrhyw gynllun diogelu dysgwyr a allai fod yn ofynnol gan Medr. Cyn belled â bod cynlluniau wrth gefn y darparwr yn darparu'r cymorth priodol i ddysgwyr ar gyfer eu dysgu y gellir ei gyflawni dan yr amgylchiadau, ni fyddai Medr o reidrwydd yn disgwyl ei gwneud yn ofynnol cyflwyno cynllun diogelu dysgwyr.

30. Rydym o'r farn bod rhai digwyddiadau neu benderfyniadau a allai effeithio'n negyddol ar allu dysgwr i gwblhau ei gwrs a allai'n **rhesymol** gael eu rhagweld gan ddarparwyr. Mae'r rhain yn cynnwys: tarfu ar fynediad at gyfleusterau, systemau'n segur neu systemau'n methu yn annisgwyl, materion staffio ac adnoddau, pwysau ariannol, gweithredu diwydiannol, a gwrthdystiadau gwleidyddol. Yn yr achosion hyn, rydym yn disgwyl i'r darparwr ymgysylltu'n weithredol â'r dysgwyr yr effeithir arnynt, eu hysbysu'n gyson am y sefyllfa a arweiniodd at y tarfu, ac ennyn eu hymgysylltiad wrth benderfynu sut orau i liniaru effeithiau'r tarfu a sut y gellir gwneud iawn am unrhyw ddysgu a gollwyd. Efallai y bydd Medr yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno cynlluniau diogelu dysgwyr i'w cymeradwyo os oes tystiolaeth nad yw'r darparwr yn ymgysylltu'n effeithiol yn y modd hwnnw â'i ddysgwyr.

### Trosglwyddiadau Dysgwyr

31. Os bydd dysgwr yn dymuno trosglwyddo i gwrs addysg drydyddol arall, naill ai yn yr un darparwr neu mewn darparwr newydd, **am unrhyw reswm**, **dylai** darparwyr nodi sut y byddant yn cynorthwyo dysgwyr i wneud hyn.

32. Nid ydym o'r farn mai cynlluniau diogelu dysgwyr yw'r mecanwaith mwyaf priodol ar gyfer cyflawni hyn ac felly nid ydym yn rhagweld y byddem fel arfer yn gofyn am gynllun diogelu dysgwyr ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno trosglwyddo rhwng cyrsiau, am fod hwn yn ddigwyddiad cymharol gyffredin mewn addysg drydyddol ac na fyddai'n gymesur gwneud hynny.

33. Felly **dylai** darparwyr amlinellu, mewn fformat sy'n hygyrch i'r cyhoedd, fanylion eu polisïau a'u prosesau sy'n ategu trosglwyddiadau dysgwyr. Gellid cynnwys hyn fel rhan o ddogfen sy'n bodoli eisoes. **Dylai'r** ddogfen hon amlinellu'r camau y bydd y

darparwr yn eu cymryd i hwyluso trosglwyddiad dysgwr i gwrs addysg drydyddol arall, gan gydnabod y terfynau o fewn y flwyddyn academaidd pan all trosglwyddiadau ddigwydd ac ymreolaeth darparwyr i gymeradwyo ceisiadau am drosglwyddo. **Dylai** hyn gynnwys trosglwyddo cynnydd, cyflawniadau a chofnodion dysgwr yn amserol ac yn ddiogel fel nad yw'r dysgwr dan anfantais ac nad yw ei waith a'i gynnydd yn cael eu colli. Efallai y bydd Medr yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno cynlluniau diogelu dysgwyr i'w cymeradwyo os oes tystiolaeth (megis cwynion gan ddysgwyr neu bryderon a godwyd ynghylch rheoleiddio) nad yw'r darparwr yn cynnig cymorth adeiladol i ddysgwyr sy'n dymuno trosglwyddo neu nad yw darparwr yn dilyn ei weithdrefnau trosglwyddo dysgwyr ei hun.

34. Pan fo Medr wedi gofyn yn benodol am gynllun diogelu dysgwyr, **dylai'r** cynllun gynnwys manylion sut y bydd dysgwyr yn cael eu cynorthwyo i drosglwyddo rhwng cyrsiau yng nghyd-destun yr amgylchiadau a sbardunodd y cynllun.

### Amserlen y Broses Cynllun Diogelu Dysgwyr

35. Fel yr amlinellir uchod, **dylai** darparwyr hysbysu Medr cyn gynted â phosibl ynghylch unrhyw amgylchiadau perthnasol a allai fod â'r potensial i effeithio'n negyddol ar allu dysgwr i gwblhau ei astudiaethau. Bydd Medr yn ystyried a yw'n ofynnol cyflwyno cynllun diogelu dysgwyr ac yn cadarnhau'r penderfyniad hwn wrth y darparwr. Mae'r llinell amser ddisgwyliedig, pan fo cynllun diogelu dysgwyr yn ofynnol, fel a ganlyn:

**1. Ceisiadau am gynlluniau**

- bydd darparwyr yn cael hysbysiad ffurfiol ysgrifenedig y **dylent** gyflwyno cynllun diogelu dysgwyr i Medr
- fel arfer, rhoddir 20 niwrnod gwaith i ddarparwyr gwblhau a chyflwyno cynllun i Medr; fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar yr amgylchiadau a oedd yn sail i roi'r hysbysiad i ddarparwr. Pan fo mater neu newid yn mynd i greu angen brys neu angen sy'n sensitif o ran amser i ddiogelu buddiant dysgwyr, efallai y bydd y llinell amser yn cael ei haddasu neu ei chwtogi yn unol â hynny

**2. Cyflwyno cynlluniau**

- unwaith y mae hysbysiad wedi cael ei roi i ddarparwr, **dylid** cyflwyno cynlluniau diogelu dysgwyr i Medr
- **dylai'r** cynllun gael ei gymeradwyo gan swyddog atebol y darparwr, neu uwch aelod o dîm rheoli darparwr os dirprwywyd y cyfrifoldeb gan y swyddog atebol
- **gall** y cynllun gael ei gyflwyno gan unigolyn ar ran y llofnodwr
- byddwn yn cadarnhau ein bod wedi cael y cynllun trwy e-bost

**3. Cymeradwyo cynlluniau**

- bydd Medr yn amcanu at ystyried cynlluniau diogelu dysgwyr o fewn 20 niwrnod gwaith i gael y cynllun; os bydd mater ar frys neu'n sensitif o ran amser, bydd Medr yn addasu'r amserlen yn unol â hynny. Y deilliannau posibl o'r broses hon yw naill ai 1) y bydd Medr yn cymeradwyo'r cynllun ar ei ffurf wreiddiol neu 2) y bydd Medr yn gofyn am gynllun diwygiedig i'w gymeradwyo neu 3) na ellir cymeradwyo'r cynllun

- bydd Medr yn cadarnhau deilliant y broses asesu wrth y darparwr o fewn 10 niwrnod gwaith i asesu'r cynllun, yn amodol ar gyflwyno rhifynnau pellach o'r cynllun, yn ôl yr angen

**4. Diwygio cynlluniau**

- os yw darparwr yn dymuno diwygio ei gynllun diogelu dysgwyr cymeradwy, **rhaid** iddo roi gwybod i Medr a darparu copi o'r cynllun diwygiedig i'w gymeradwyo
- gall Medr gymeradwyo'r cynllun diwygiedig gydag addasiadau neu hebddynt
- gall Medr ddewis peidio â chymeradwyo'r cynllun wedi'i addasu, ac os felly, bydd y cynllun gwreiddiol yn parhau i fod ar waith

**5. Cyhoeddi**

- **rhaid** i'r darparwr drefnu bod cynlluniau diogelu dysgwyr cymeradwy ar gael i ddysgwyr, darpar ddysgwyr a'r cyhoedd ar ei wefan o fewn 15 niwrnod gwaith i'w cymeradwyo gan Medr.
- **dylai** darparwyr gymryd camau i sicrhau bod cyhoeddi unrhyw gynllun amddiffyn dysgwyr cymeradwy yn cael ei gyfleu'n effeithiol i ddysgwyr

**6. Monitro**


- bydd Medr yn monitro'r modd y cwblheir unrhyw gynlluniau diogelu dysgwyr gweithredol (ar ôl ein cymeradwyaeth gychwynnol ni) yn unol â fframwaith monitro cyffredinol Medr. Gallai hyn gynnwys ymgysylltu manylach, dadansoddi data, ystyried trefniadau rheoli ariannol, ac ystyried llais y dysgwr. Bydd y trefniadau monitro cychwynnol yn cael eu cadarnhau ar adeg y gymeradwyaeth gychwynnol i'r cynllun diogelu dysgwyr. **Bydd** disgwyl i ddarparwyr roi diweddariadau rheolaidd i Medr am gwblhau'r cynllun a chadarnhau wrth Medr pan fydd y cynllun wedi'i gwblhau, gan gynnwys manylion sut y bydd llwyddiant y cynllun hwnnw'n cael ei werthuso
- byddwn yn adolygu cynnydd y cynllun ac yn cadarnhau pan fyddwn o'r farn ei fod wedi'i gwblhau


## Adolygu'r Canllawiau Hyn

36. Ymhen amser, wrth i'n dull esblygu ac wrth i ni werthuso effeithiolrwydd cynlluniau diogelu dysgwyr ar draws y sector, byddwn yn ymgysylltu â darparwyr, gan gynnwys trwy rannu arfer effeithiol a gwerthuso, i sicrhau dealltwriaeth ar y cyd am y mathau o senarios a allai olygu bod gofyn cyflwyno cynllun diogelu dysgwyr a'r cymorth angenrheidiol sy'n ofynnol ar gyfer dysgwyr.

37. Bydd Medr yn cyflawni ei swyddogaethau o ran pwysigrwydd amddiffyn rhyddid o fewn y gyfraith i ddarparwyr addysg yng Nghymru i gynnal eu rheolaeth ddyddiol mewn ffordd effeithiol a chymwys. Ni ddylid dehongli unrhyw beth yn y dogfennau rheoleiddio fel ei bod yn ofynnol i gorff llywodraethu darparwr addysg drydyddol wneud unrhyw beth sy'n anghydnaws ag unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol neu gyfyngiad cyfreithiol sy'n berthnasol i'r corff llywodraethu yn rhinwedd y ffaith bod y darparwr yn elusen, neu â dogfennau llywodraethu'r darparwr.

## Atodiad A: Siart llif Cynllun Diogelu Dysgwyr




Medr yn cymeradwyo'r cynllun, gyda neu heb addasiadau
Nid yw Medr yn gallu cymeradwyo'r cynllun. Mae'r darparwr yn torri'r amod yn awr a gellir cymryd camau rheoleiddio
Rhoddir effaith i'r cynllun ac mae monitro'n dechrau, gan gynnwys ymgysylltu rheolaidd rhwng Medr a'r darparwr
Y darparwr yn gofyn am ddiwygiadau i'r cynllun fel y bo angen
Medr yn cymeradwyo'r cynllun diwygiedig, gyda neu heb addasiadau
Nid yw Medr yn cymeradwyo'r cynllun diwygiedig. Mae'r cynllun gwreiddiol yn dal i fod mewn grym
Y cynllun yn cael ei gymeradwyo fel un wedi'i gwblhau gan y darparwr a Medr
Medr yn adrodd ar effeithiolrwydd cynlluniau diogelu dysgwyr wrth Lywodraeth Cymru

## Atodiad B: Gofynion Cynllun Diogelu Dysgwyr

**Dylai** cynlluniau diogelu dysgwyr fod yn glir ac yn benodol. **Dylent** gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

1. Yr amgylchiadau a sbardunodd y cais am gynllun diogelu dysgwyr (fel y nodir yn hysbysiad Medr)

   - gwybodaeth ynghylch p'un a wnaed hyn yn hysbys i Medr, a'r dyddiad (os yw'n berthnasol)
   - rhagor o fanylion am yr amgylchiadau (os nad ydynt eisoes wedi cael eu darparu)

2. Gwneud penderfyniadau

   - y rhesymeg ar gyfer y penderfyniadau a wnaed a'r grwpiau penderfynu perthnasol a fu'n rhan o'r penderfyniad hwnnw
   - sut y cyfrannodd llais y dysgwr at wneud y penderfyniad gwreiddiol hwnnw. Os oedd yn seiliedig ar ymarfer casglu data ffurfiol neu anffurfiol, mae angen cynnwys trosolwg o'r dadansoddiad

3. Asesiad effaith

   - **dylai** cynlluniau diogelu dysgwyr amlinellu'r camau a gymerwyd i asesu effaith unrhyw benderfyniadau yr ydych wedi'u gwneud a allai effeithio'n negyddol ar allu'r dysgwyr perthnasol i gwblhau eu cyrsiau. Rydym yn disgwyl i'r prosesau hyn gael eu hategu gan brosesau sefydliadol cadarn i ragweld risg ac ystyried yr effaith ar ddysgwyr â nodweddion gwarchodedig. **Dylai'r** prosesau hyn ystyried llais y dysgwr wrth adnabod risgiau, rheolaethau a mesurau lliniaru yn erbyn effeithiau negyddol ar ddysgwyr

4. Ymgysylltu â dysgwyr

   - cadarnhad bod y cynllun wedi'i ddatblygu'n weithredol ac yn dryloyw gyda dysgwyr neu gynrychiolwyr dysgwyr cydnabyddedig, yn unol â gofynion y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr, gyda manylion sut y cyflawnwyd hyn. **Dylai** hyn gynnwys cynlluniau ar gyfer ymgysylltu â dysgwyr

5. Lliniaru

   - camau a gymerwyd i liniaru unrhyw effaith negyddol ar ddysgwyr/ cynlluniau i gefnogi dysgwyr lle y gellid effeithio ar eu gallu i gwblhau eu cwrs
   - erbyn pa ddyddiad/ dyddiadau y bydd y cam gweithredu'n cael ei gwblhau
   - rhestr o unrhyw bolisïau/canllawiau perthnasol y dylid eu darllen ochr yn ochr â'r cynllun

6. Gwerthusiad

- proses y **bydd** y darparwr yn ei defnyddio i fonitro effaith ei gamau gweithredu ar ddysgwyr a bod y cynllun wedi cael ei weithredu'n llwyddiannus

7. Gwybodaeth gyswllt

- manylion cyswllt y rhai sy'n goruchwylio'r gwaith o gyflawni'r cynllun, ac sydd â chyfrifoldeb am hynny

## Atodiad C: Enghreifftiau Ymarferol

Mae'r canlynol yn seiliedig ar y dybiaeth bod darparwr wedi hysbysu Medr ynghylch y mater perthnasol yn y lle cyntaf a bod Medr yn penderfynu a yw'r wybodaeth a roddwyd gan y darparwr yn rhoi sicrwydd iddo. Fe'u darperir at ddibenion darluniadol yn unig.

1) Lle mae darparwr wedi penderfynu cau cwrs oherwydd niferoedd isel o gofrestriadau parhaus – nid ydym yn rhagweld y byddai cynllun diogelu dysgwyr yn ofynnol pe bai'r darparwr yn dilyn y broses safonol i addysgu darpariaeth i'w therfyn (h.y. lle byddai dysgwyr sy'n astudio ar hyn o bryd yn gallu cwblhau'r rhaglen ond na fyddai cofrestriadau newydd yn y dyfodol ac na fyddai'r rhaglen yn cael ei hysbysebu mwyach) a ninnau wedi cael sicrwydd priodol gan yr wybodaeth a roddwyd gan y darparwr ynghylch natur a chwmpas y gweithgarwch i addysgu'r ddarpariaeth i'w therfyn yn ogystal ag ymgysylltiad dysgwyr â'r broses. Byddem yn disgwyl i'r darparwr sicrhau bod ansawdd yn cael ei gynnal yn ystod y broses o addysgu darpariaeth i'w therfyn, nad yw'r newid hwn yn effeithio'n negyddol ar ddysgwyr sy'n dal i astudio ar y cwrs a'u bod yn cael eu cefnogi trwy gydol eu taith. Fodd bynnag, os yw'r darparwr wedi penderfynu cau'r rhaglen tra bo dysgwyr yn dal i astudio, heb unrhyw gynlluniau na chapasiti i addysgu'r ddarpariaeth hyd at ei therfyn, yna efallai y byddai'n ofynnol cyflwyno cynllun diogelu dysgwyr, a **ddylai** gynnwys manylion sut y byddai'r darparwr yn cefnogi dysgwyr ac yn ymgysylltu â hwy, gan gynnwys rhoi cynhorthwy i ddysgwyr drosglwyddo i ddarparwr arall, neu eu cynorthwyo i ddod o hyd i drefniadau amgen.

2) Lle mae darparwr wedi penderfynu cau un o'i gampysau, gan olygu bod dysgwyr yn gorfod teithio/symud i leoliad gwahanol i barhau â'u hastudiaethau - efallai y byddai cynllun diogelu dysgwyr yn ofynnol yn yr achos hwn a **ddylai** gynnwys manylion am ba gymorth ychwanegol fyddai'n cael ei roi i ddysgwyr yr effeithir arnynt, o ystyried graddfa ac effaith bosibl penderfyniad o'r fath. Gallai gynnwys cymorth emosiynol neu gymorth gyda llesiant, cymorth ariannol mewn perthynas â chostau llety, astudio, gofal plant neu symud eiddo personol, neu gostau cludiant lle mae angen i ddysgwyr deithio i'r lleoliad newydd.

3) Lle mae darparwr yn bwriadu newid y dull astudio ar gyfer rhaglen o addysgu yn y cnawd i addysgu ar-lein yn unig a bod y rhaglen wedi cael ei hysbysebu fel rhaglen a addysgir trwy ddarpariaeth ar y campws, efallai y byddai cynllun diogelu dysgwyr yn ddisgwyliedig. Gall newid o'r natur yma gael effaith negyddol ar ansawdd y profiad ar gyfer y dysgwyr hynny sydd wedi'u cofrestru'n weithredol ar y cwrs, ac y gallai arwain at fwy o drosglwyddiadau dysgwyr. Ni fyddai cwblhau cynllun yn llwyddiannus o dan yr amgylchiadau hyn yn amharu ar hawliau ehangach dysgwyr o dan gyfraith defnyddwyr.

4) Lle mae dysgwr yn gofyn am drosglwyddo i astudio rhaglen wahanol mewn darparwr arall (neu yn yr un darparwr), ni fyddai cynllun diogelu dysgwyr yn ofynnol fel arfer. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl i ddarparwyr perthnasol gynorthwyo dysgwyr i drosglwyddo rhwng cyrsiau, yn unol â'u polisi trosglwyddo dysgwyr cyhoeddedig (gweler yr adran Trosglwyddiadau Dysgwyr uchod).

5) Lle yr effeithir ar fyfyriwr ymchwil ôl-raddedig o ganlyniad oherwydd iddo golli ei brif oruchwylydd, neu oherwydd iddo golli mynediad at gyfleuster arbenigol sy'n hanfodol i'w brosiect ymchwil, efallai y byddai cynllun diogelu dysgwyr yn ofynnol er mwyn darparu digon o sicrwydd i Medr bod gan y darparwr ddulliau systemig ar

waith i ddelio ag amgylchiadau o’r fath. **Dylai’r** cynllun nodi sut y bydd y darparwr yn sicrhau parhad o ran yr oruchwyliaeth, yn sicrhau mynediad at gyfleusterau neu adnoddau cyfatebol, ac yn mynd i’r afael ag unrhyw oblygiadau ar gyfer cyllid neu linellau amser y prosiect. **Dylai** hefyd gynnwys manylion sut y bydd y darparwr yn ymgysylltu â’r dysgwr yr effeithir arno wrth gyd-greu’r cynllun ac amlinellu unrhyw gymorth ychwanegol a pholisïau presennol i liniaru effeithiau’r tarfu a achosir.

6) Lle mae darparwr yn bwriadu newid cyfrwng astudio rhaglen o’r Gymraeg (naill ai ar gael yn gyfan gwbl neu’n rhannol drwy’r Gymraeg) i’r Saesneg a bod y rhaglen wedi cael ei hysbysebu fel rhaglen a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg (naill ai’n gyfan gwbl neu’n rhannol drwy’r Gymraeg), efallai y byddai cynllun diogelu dysgwyr yn ddisgwyliedig gan y gallai’r newid gael effaith negyddol ar ansawdd profiad dysgwyr, a’r deilliannau dysgu, ar gyfer y dysgwyr hynny sydd wedi cofrestru’n weithredol ar y cwrs.

## Amod: Cod Ymgysylltu â Dysgwyr

**Rhaid** i gorff llywodraethu (neu gorff cyfatebol) darparwr sydd wedi cofrestru gyda Medr neu sy’n cael ei gyllido ganddo wneud y canlynol:

- cydymffurfio â gofynion y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr (neu unrhyw ddiwygiadau dilynol)
- cyflwyno tystiolaeth i ddangos cydymffurfedd â'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr a'i effaith

### Categori Amod

Mae hwn yn amod cofrestru parhaus. Mae hwn yn amod ar gyfer cyllid.

### Sail Gyfreithiol

O dan Adran 31 o **Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022** (y Ddeddf), mae'n ofynnol i Medr osod amod cofrestru parhaus gorfodol “sy’n ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu’r darparwr gydymffurfio â’r gofynion sydd wedi eu cynnwys yn y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr a gyhoeddir o dan adran 129(1) neu unrhyw god diwygiedig a gyhoeddir o dan Adran 129(3)”.

O dan Adrannau 90, 99 a 104 o'r Ddeddf, gall Medr osod telerau ac amodau cyllid mewn perthynas â'r amod hwn.

Mae Adran 101 o'r Ddeddf yn nodi gofyniad i gorff llywodraethu chweched dosbarth ysgol a gynhelir gydymffurfio â'r gofynion sydd wedi eu cynnwys yn y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr.

Mae Adran 129 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd statudol ar Medr i baratoi a chyhoeddi'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr sy'n ymwneud â chynnwys dysgwyr wrth i'w darparwr wneud penderfyniadau perthnasol. Rhaid i Medr fonitro cydymffurfedd darparwyr â'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr.

## Gofynion Cydymffurfio

Er mwyn cydymffurfio â'r amod hwn, **rhaid** i gorff llywodraethu (neu gorff cyfatebol) darparwr sydd wedi'i gofrestru â Medr a/neu sy'n cael ei gyllido ganddo, wneud y canlynol:

1. cydymffurfio â gofynion y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr (neu unrhyw ddiwygiadau dilynol)
2. cyflwyno tystiolaeth i ddangos cydymffurfedd â'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr a'i effaith

## Monitro

Bydd Medr yn monitro cydymffurfedd â'r amod hwn yn y ffyrdd canlynol (am ddiffiniadau o'r rhain, gweler dull Medr o fonitro):

- **Ffurflen Sicrwydd Flynyddol:** fel rhan o Ffurflen Sicrwydd Flynyddol Medr, **bydd** disgwyl i ddarparwyr ddangos tystiolaeth o'u hymrwymiad cyhoeddedig i wreiddio a chefnogi dulliau mawr eu heffaith o ymgysylltu â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau. **Bydd** hefyd disgwyl i ddarparwyr ddangos tystiolaeth o effaith sy'n deillio o'r adolygiad blynyddol o'r ymrwymiad a'r gwerthusiad o'r ffordd y byddant yn ymgysylltu â dysgwyr wrth wneud penderfyniadau. Dyma fydd y brif ffynhonnell fonitro ar gyfer yr amod hwn
- **gweithgareddau ymgysylltu:** ar lefel darparwyr a'r sector, bydd Medr yn ymgysylltu â dysgwyr a darparwyr i adolygu effeithiolrwydd ac effaith gweithgareddau ymgysylltu â dysgwyr. Bydd hyn yn cynnwys adborth gan gyrff sy'n cynrychioli dysgwyr (lle y bônt yn bodoli)
- **arolygon dysgwyr:** mewn achosion lle y bydd deilliannau arolygon yn gysylltiedig ag effeithiolrwydd neu effaith gweithgareddau ymgysylltu â dysgwyr
- **Adolygiadau Estyn a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA):** mewn achosion lle y bydd deilliannau arolygiadau, adolygiadau, gwaith ymgysylltu a gweithgareddau eraill a gyflawnir gan Estyn neu QAA yn gysylltiedig ag effeithiolrwydd neu effaith gweithgareddau ymgysylltu â dysgwyr
- **monitro cwynion a phryderon rheoleiddio a gyflwynir**: mewn achosion lle y bydd pryderon a rennir â Medr, neu ddadansoddiadau o ddata ar gwynion, yn dangos themâu neu faterion systemig sy'n ymwneud â'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr
- **Digwyddiadau y Mae'n Rhaid eu Hadrodd**: mewn achosion lle y bydd y digwyddiadau hynny'n gysylltiedig ag effeithiolrwydd neu effaith gweithgareddau ymgysylltu â dysgwyr

Mae'n bosibl y bydd darparwyr sydd â hanes blaenorol o beidio â chydymffurfio, sy'n dangos tueddiadau o ddirywiad mewn data neu sy'n wynebu risg o beidio â chydymffurfio yn y dyfodol yn destun craffu mwy dwys. Bydd peidio â chydymffurfio â gofynion monitro yn arwain at ymchwiliadau pellach ac ymyriadau posibl.

## Adolygu a Diwygio

Bydd Medr yn adolygu'r amod hwn yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag anghenion esblygol y sector, newidiadau i bolisïau ac adborth gan randdeiliaid.

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

## Amod: Cyfle Cyfartal

**Rhaid** i ddarparwr sydd wedi cofrestru gyda Medr neu sy'n cael gyllido ganddo gyflawni deilliannau mesuradwy i hybu pob un o'r nodau canlynol:

- cynyddu cyfranogiad mewn addysg drydyddol gan bobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol
- cadw dysgwyr sy'n aelodau o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol tan ddiwedd cyrsiau
- lleihau unrhyw fylchau mewn cyrhaeddiad rhwng gwahanol grwpiau o ddysgwyr, lle mae'r gwahaniaethau'n codi o ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd neu sefydliadol
- rhoi cymorth i ddysgwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sy'n gorffen eu cyrsiau barhau mewn addysg, dod o hyd i gyflogaeth neu ddechrau busnes

### Categori Amod

Mae hwn yn amod cofrestru parhaus. Mae hwn yn amod ar gyfer cyllid.

### Sail Gyfreithiol

Mae Adran 3 o **Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022** (y Ddeddf) yn gosod hyrwyddo cyfle cyfartal fel dyletswydd strategol i Medr.

Mae Adran 33 o'r Ddeddf yn gofyn i Medr weithredu amod cofrestru parhaus ar gyfle cyfartal lle mae angen i Medr "sicrhau bod amodau cofrestru parhaus pob darparwr cofrestredig yn cynnwys amodau sy'n ei gwneud yn ofynnol cyflawni canlyniadau y gellir eu mesur i hyrwyddo pob un o'r nodau yn is-adran (2)." (Y nodau sydd wedi eu rhestru uchod).

O dan Adran 108 o'r Ddeddf, rhaid i Medr ystyried a yw'n mynd i osod telerau ac amodau sy'n ymwneud â "chyflawni canlyniadau y gellir eu mesur i hyrwyddo pob un o'r nodau yn is-adran (2)." (Y nodau sydd wedi eu rhestru uchod).

**Rhaid** i ddarparwyr gydymffurfio â dyletswyddau a fframweithiau statudol perthnasol eraill hefyd.

### Gofynion Cydymffurfio

Er mwyn cydymffurfio â'r amod hwn, **rhaid** i ddarparwyr wneud y canlynol:

1. ateb y gofynion a nodir yn y manylion atodol ynghylch y gofynion sy'n ategu'r amod hwn (neu ddiwygiadau dilynol) a darparu tystiolaeth o gyflawni deilliannau mesuradwy
2. ystyried y potensial i gydweithio â darparwyr eraill i gefnogi cynnydd mewn cyfleoedd i ddysgwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gyfranogi a symud ymlaen
3. cyd-fynd â dyletswyddau cyfreithiol a statudol perthnasol gan nad yw'r amod hwn yn disodli nac yn dileu dyletswyddau cyfreithiol na rhwymedigaethau statudol presennol darparwyr
4. ystyried gwybodaeth, arweiniad a chyngor perthnasol a gyhoeddir gan Medr

### Monitro

Bydd Medr yn monitro cydymffurfedd â'r amod hwn yn y ffyrdd canlynol (i gael diffiniadau o'r rhain, gweler dull Medr o fonitro):

- **Ffurflenni Sicrwydd Blynyddol:** bydd disgwyl i ddarparwyr hunan-ddatgan a chyflwyno tystiolaeth eu bod wedi ateb gofynion cydymffurfio a gwella'n barhaus yr amod
- **dadansoddi data:** bydd Medr yn monitro cydymffurfedd a gwelliant parhaus gan ddefnyddio ystod o ddata meintiol ac ansoddol sydd ar gael. Lle y bo'n bosibl, bydd dadansoddiad Medr yn cael ei gyd-destunoli
- **arolygon dysgwyr:** mewn achosion lle mae canlyniadau arolygon dysgwyr yn gysylltiedig ag effeithiolrwydd neu effaith cyfle cyfartal
- **adolygiadau Estyn a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA)**: mewn achosion lle mae canlyniadau'r adolygiadau yn gysylltiedig ag effeithiolrwydd neu effaith cyfle cyfartal
- **Digwyddiadau y Mae'n Rhaid eu Hadrodd:** mewn achosion lle mae'r digwyddiadau hynny yn gysylltiedig ag effeithiolrwydd neu effaith cyfle cyfartal
- **cyflwyniadau pryderon rheoleiddiol a monitro cwynion:** mewn achosion lle mae pryderon a gyflwynir i Medr, neu ddadansoddiad o ddata cwynion, yn nodi themâu neu faterion systemig sy'n ymwneud â chydymffurfedd â'r Amod Cyfle Cyfartal
- **gweithgareddau ymgysylltu:** naill ai ar lefel darparwr neu ar lefel sector, bydd Medr yn adolygu sut y mae ei gyngor neu ei arweiniad yn cael ei ystyried a'i wreiddio
- **ffynonellau sicrwydd annibynnol**: gan gynnwys adolygiadau, arolygiadau, gwybodaeth gan reoleiddwyr eraill, ac adroddiadau gan gyrff proffesiynol neu statudol. Bydd Medr yn ystyried ffynonellau sicrwydd annibynnol perthnasol i oleuo ei ddealltwriaeth am risg a/neu sicrwydd darparwyr

Mae'n bosibl y bydd darparwyr sydd â hanes blaenorol o beidio â chydymffurfio, sy'n dangos tueddiadau o ddirywiad mewn data neu sy'n wynebu risg o beidio â chydymffurfio yn y dyfodol yn destun craffu mwy dwys. Bydd peidio â chydymffurfio â gofynion monitro yn ysgogi ymchwiliadau pellach ac ymyriadau posibl.

### Adolygu a Diwygio

Bydd Medr yn adolygu'r amod hwn yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag anghenion esblygol y sector, newidiadau i bolisïau ac adborth gan randdeiliaid.

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Manylion Atodol: Cyfle Cyfartal

## Yn berthnasol i: Amod Cyfle Cyfartal

**Rhaid** i Ddarparwr Sydd Wedi'i Gofrestru Gyda Medr Wneud y Canlynol:

1. Cydymffurfio â'r manylion atodol hyn ac unrhyw fanylion atodol yn y dyfodol mewn perthynas â'r gofynion a gyhoeddwyd gan Medr fel y maent yn ymwneud â'r Amod Cyfle Cyfartal o 1 Awst 2027 ymlaen.

**Rhaid** i Ddarparwr Sy'n Cael ei Gyllido Gan Medr Wneud y Canlynol:

2. Gweithio tuag at gydymffurfio â manylion atodol a gyhoeddwyd gan Medr mewn perthynas â'r amod cyllido Cyfle Cyfartal o 1 Awst 2026 ymlaen a chydymffurfio â'r manylion atodol hyn ac unrhyw fanylion atodol yn y dyfodol mewn perthynas â'r gofynion o 1 Awst 2027 ymlaen.

## Cwmpas a Rhesymeg

3. Mae Cyfle Cyfartal yn ymwneud â grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yng nghyd-destun cyfranogiad, cadw, bylchau o ran cyrhaeddiad/dyfarnu a llwyddiant yn y dyfodol, gan gynnwys cyfranogiad mewn cynnal astudiaethau ar lefel ôl-raddedig.

4. Mae'r ddogfen hon yn cynnig rhagor o wybodaeth am gydymffurfio â'r amod a monitro hynny.

5. **Rhaid** deall yr Amod Cyfle Cyfartal yng nghyd-destun ehangach deddfwriaeth a pholisi cenedlaethol sy'n gysylltiedig ag addysg drydyddol. **Rhaid** i ddull y darparwyr o weithredu'r amod adlewyrchu a chyd-fynd â dyletswyddau statudol a strategaethau perthnasol Llywodraeth Cymru, gan sicrhau cydlyniad â'r dirwedd gyfreithiol a pholisi ehangach yng Nghymru.

6. **Dylid** darllen yr wybodaeth hon ochr yn ochr â Fframwaith Rheoleiddio ehangach Medr ac amodau cyllido a blaenoriaethau polisi parhaus Medr.

7. Mae'r amod yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddarparwyr gyflawni deilliannau mesuradwy ar gyfer dysgwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg drydyddol er mwyn hybu cyfle cyfartal ar draws cylch oes y dysgwr, gan gynnwys (yng nghyd-destun yr amod hwn):

   (a) cyfranogiad: mae hyn yn golygu polisïau, prosesau a gwasanaethau ehangu mynediad sy'n rhoi cymorth cyn mynediad ac i gael mynediad yn ogystal â derbyniadau teg, ynghyd â sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cefnogi'n effeithiol ar gyrsiau wrth iddynt bontio rhwng pob darparwr a cham addysg, o lefel mynediad hyd at lefel ôl-raddedig.
   (b) cadw: mae hyn yn golygu creu amgylcheddau dysgu cynhwysol a systemau cymorth sy'n galluogi pob dysgwr i ddal i ymgysylltu, parhau a chwblhau eu hastudiaethau'n llwyddiannus
   (c) llwyddiant academaidd: mae hyn yn golygu cynorthwyo dysgwyr i gyflawni eu llawn botensial ym mhob cam o'u haddysg a mynd i'r afael â bylchau cyrhaeddiad/dyfarnu, a chydnabod y gwerth ychwanegol a roddir gan ddarparwyr wrth alluogi cynnydd
   (d) dilyniant: mae hyn yn golygu sicrhau cymorth teg i wella deilliannau ar ôl cyrsiau, megis cyflogaeth, astudiaethau pellach, neu hunangyflogaeth

8. Er nad yw **Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil Cymru 2022** (y Ddeddf) yn ei gwneud hi'n ofynnol yn benodol i Medr ei gwneud hi'n ofynnol i ddarparwyr osod deilliannau mesuradwy mewn perthynas â mwy o gyfranogiad mewn gwneud ymchwil ac arloesi, mae'n sefydlu cyfrifoldeb Medr i hybu mynediad cynhwysol at weithgareddau ymchwil ac arloesi ac ymgysylltiad â hwy. Wrth ystyried cyfranogiad, mae Medr yn disgwyl i ddarparwyr (lle maent yn cynnig darpariaeth ar lefel ôl-raddedig) osod deilliannau mesuradwy sy'n hybu cyfranogiad cynhwysol mewn astudiaethau ar lefel ôl-raddedig, fel rhan bwysig o'r llif ar gyfer y gweithlu ymchwil ac arloesi yng Nghymru.

9. **Rhaid** i ddarparwyr ddefnyddio eu prosesau hunanwerthuso (gweler y Rhestr Termau) i gydymffurfio â'r amod hwn gan ddefnyddio dull sefydliad cyfan. Mae Medr yn cydnabod bod pob darparwr trydyddol ar hyn o bryd yn cyflawni math neu fathau o hunanwerthuso am fod hyn yn ymwneud â chydraddoldeb, cynhwysiant a deilliannau dysgwyr.

10. Er mwyn cydymffurfio â'r amod hwn, **rhaid** i ddarparwyr ystyried yr effaith ryng-gysylltiedig a chronnus y mae rhwystrau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a sefydliadol yn ei chael ar ddysgwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg drydyddol, gan gynnwys y ffordd y mae hyn yn ymwneud â chyfranogiad mewn astudiaethau ar lefel ôl-raddedig.

11. **Rhaid** i ddarparwyr sy'n cynnig sawl math o ddarpariaeth addysg drydyddol sicrhau bod deilliannau mesuradwy'n cael eu datblygu lle mae eu data a'u tystiolaeth yn adnabod blaenoriaethau ar gyfer gweithredu. Mae hyn yn sicrhau bod darparwyr yn mynd i'r afael â chyfle cyfartal mewn modd cynhwysfawr ar draws pob llwybr a dull astudio, gan gynnwys astudio ar lefel ôl-raddedig, lle y bo'n briodol.

12. **Gall** darparwyr ystyried eu cyd-destun lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a chydweithio â darparwyr eraill i fynd i'r afael â heriau cyffredin, atal dysgwyr rhag ymddieithrio oddi wrth ddysgu trydyddol a dysgu gydol oes a chynorthwyo dysgwyr

sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i mewn i addysg drydyddol a thrwyddi, yn enwedig mewn perthynas â mynediad a dilyniant.

13. **Gall** partneriaethau rhanbarthol a mentrau ar y cyd gefnogi ymyriadau mwy effeithiol a lleihau dyblygu di-fudd. Bydd Medr yn gweithio ar y cyd â'r sector a phartneriaid i ddatblygu cyngor a gwybodaeth yn y dyfodol i hybu a chryfhau arfer. Bydd Medr yn cefnogi darparwyr trwy gynnwys ac ymgysylltu, cymunedau arfer, lledaenu arferion effeithiol a her gefnogol, gyda hynny'n cael ei oleuo gan y broses o rannu data a ffyrdd o weithio sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

### Deall Rhwystrau i Gyfle Cyfartal

14. Mae Cyfle Cyfartal yn amod ar gyfer pob oed. Mae'r Ddeddf yn diffinio dysgwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg drydyddol fel y rhai sydd o dan anfantais o ganlyniad i ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd neu sefydliadol. **Rhaid** i ddarparwyr fynd ati o'r safbwynt hwn i ddiffinio a chymryd camau i fynd i'r afael â diffyg cynrychiolaeth ddigonol mewn addysg drydyddol, gan gynnwys cyfranogiad mewn astudio ar lefel ôl-raddedig.

15. Nid yw ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd a sefydliadol yn annibynnol ar ei gilydd. **Gallant** gynnwys, ymhlith eraill:

- rhwystrau cymdeithasol: cysyniadau cymdeithasol allanol, ymhlyg ac wedi'u gosod yn benodol, gan gynnwys fel y maent yn effeithio ar bobl â nodweddion gwarchodedig
- rhwystrau diwylliannol: gwahaniaethau mewn iaith, gwerthoedd a normau a allai fod o ganlyniad i anabledd, ethnigrwydd, crefydd a chred, dosbarth cymdeithasol, oedran a/neu hunaniaeth rywiol neu ryweddol
- rhwystrau economaidd: tlodi, diweithdra, a diffyg adnoddau ariannol, yn enwedig i ddysgwyr o gefndiroedd incwm isel. Er enghraifft, y ddau gwintel isaf o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru
- rhwystrau sefydliadol: polisïau ac arfer, diwylliant, amrywiaeth staff a dysgwyr neu ddiffyg hynny, strwythurau ac arferion cyfathrebu darparwyr

16. **Rhaid** i ddarparwyr roi sylw dyladwy i nodweddion gwarchodedig fel y'u diffinnir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a sicrhau bod eu hymrwymiadau rheoleiddiol nhw a'r rhai a gyllidir gan Medr yn cyd-fynd â Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol lle mae'r darparwr yn gorff rhestredig yng Nghymru y mae'n **rhaid** iddo lunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC), fel rheoleiddiwr cydraddoldeb annibynnol Prydain, yn rhoi cyngor arbenigol ar sut i roi'r Ddeddf Cydraddoldeb ar waith. Anogir darparwyr i ymgysylltu ag adnoddau, cyngor, canllawiau ac argymhellion y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

17. **Dylai** darparwyr ddatblygu a defnyddio ffynonellau data cadarn i adnabod a diffinio diffyg cynrychiolaeth ddigonol, gan sicrhau terminoleg gyson, a chyd-destunoli risgiau a rhwystrau i ddarpariaeth darparwyr eu hunain yn y rhanbarth, a dealltwriaeth am ddemograffeg dysgwyr.

18. **Gall** darparwyr ystyried dadansoddiad o'r croestoriad rhwng rhwystrau, er enghraifft rhwystrau economaidd a sefydliadol a sicrhau bod eu data yn eu galluogi i adnabod dysgwyr o'r fath a gosod deilliannau mesuradwy i fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn.

19. Dylai ddarparwyr ystyried sut y mae rhwystrau'n amlygu eu hunain ar draws gwahanol lefelau a dulliau astudio a gwahanol ddysgwyr o fewn lefelau a dulliau astudio. Er enghraifft, gall rhwystrau amrywio rhwng dysgwyr mewn prentisiaethau, addysg uwch, dysgu oedolion, cymwysterau cyffredinol a darpariaeth alwedigaethol a rhwng pynciau.

20. Mae Medr wedi cytuno i weithio yn ysbryd y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol (Cymru), ac anogir darparwyr i wneud yr un modd. Un ffordd y mae Medr yn cyflawni'r ddyletswydd hon yw trwy ei swyddogaethau goruchwylio rheoleiddiol a chyllido.

### Hunanwerthusiad Darparwr o Gyfle Cyfartal

21. **Rhaid** i bob darparwr trydyddol gynnal hunanwerthusiad parhaus o gyfle cyfartal i adnabod rhwystrau i gyfle cyfartal a goleuo ei weithgarwch i ddatblygu a monitro deilliannau mesuradwy.

22. Mae Medr yn cefnogi'r defnydd o fframweithiau hunanwerthuso presennol darparwyr ar gyfer cynllunio strategol a gweithredol lle mae'r rhain yn addas ar gyfer y diben ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau, dyletswyddau cyfreithiol a mecanweithiau sicrhau ansawdd darparwyr. Gall prosesau sicrwydd gynnwys, ymhlith eraill, prosesau Estyn a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA), Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol ac offer partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned. **Dylai** prosesau o'r fath fod o gymorth i ddatblygu deilliannau mesuradwy ar gyfer yr Amod Cyfle Cyfartal.

23. **Dylai** hunanwerthusiad darparwyr gynnwys:

- adolygiad o'u polisïau, data, gwasanaethau ac arferion cyfredol eu hunain sy'n gysylltiedig â chyfle cyfartal i adnabod rhwystrau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a sefydliadol i fynediad, cadw, llwyddiant a dilyniant dysgwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn eu sefydliad
- adnabod cryfderau, bylchau, meysydd i'w datblygu ar draws cylch oes y dysgwr lle mae rhwystrau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd neu sefydliadol yn digwydd
- deilliannau asesiad parhaus o'r effaith ar gydraddoldeb
- ymgysylltu a chynnwys staff a phartneriaid i oleuo camau gweithredu
- defnyddio data wedi'i ddadgyfuno a'i gyd-destunoli i ddeall rhwystrau a goleuo camau gweithredu
- cyd-destun a blaenoriaethau penodol rhanbarth y darparwr, gan gydnabod bod rhai darparwyr yn gweithredu'n rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang
- ystyried cyfleoedd ar gyfer cydweithio â darparwyr a phartneriaid eraill i fynd i'r afael â heriau cyffredin a chefnogi dysgwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i mewn i addysg drydyddol a thrwyddi
- defnyddio terminoleg glir a chyson, sy'n cyd-fynd â ffynonellau data i fesur tueddiadau dros amser
- cyd-fynd â Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a dyletswyddau statudol eraill (lle y bo'n berthnasol)

- canfyddiadau hunanwerthuso, a gynhelir yn barhaus, gan gynnwys ystyried cynnydd yn erbyn deilliannau mesuradwy a chymryd camau gweithredu pellach fel y bo'n briodol.

24. Yn unol â'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr, **rhaid** i ddarparwyr ymgysylltu â dysgwyr a chyrff cynrychioli dysgwyr (lle y bônt yn bodoli) i oleuo camau gweithredu.

25. Os nad yw'r meysydd uchod eisoes wedi'u cynnwys yn llawn ym mhrosesau hunanwerthuso / hunanasesu presennol darparwyr, **dylid** eu hymgorffori yn y broses i lywio'r gwaith o ddatblygu canlyniadau mesuradwy.

26. Wrth gynnal hunanwerthusiad, **dylai** darparwyr ystyried yr egwyddorion hunanwerthuso sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd fel rhan o brosiect cydweithredol rhwng Medr, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA), Estyn a'r sector. Bydd Medr yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth am hyn erbyn diwedd blwyddyn academaidd 25/26.

27. **Gall** hunanwerthusiad gael ei gyd-destunoli i adlewyrchu cenhadaeth a diben unigol y darparwyr, gan gynnwys demograffeg dysgwyr, mathau o ddarpariaethau (e.e. addysg oedolion, addysg bellach, prentisiaethau, addysg uwch), a'u cyd-destun rhanbarthol a/neu genedlaethol, fel y bo'n briodol.

28. **Gall** darparwyr ddefnyddio dull sefydliad cyfan, gan ystyried sut y mae polisïau, arferion, gwasanaethau a diwylliant yn cyfrannu at ddeilliannau cyfle cyfartal.

29. Ni fyddai disgwyl fel arfer i ddarparwyr gyflwyno eu hunanwerthusiad parhaus yn erbyn yr amod hwn i Medr. Nid yw Medr yn disgwyl bod yn rhy ragnodol ynglŷn â'r broses hunanwerthuso oni bai nad yw'r deilliannau mesuradwy'n uchelgeisiol neu oni bai eu bod yn gyfyngedig, neu os caiff pryderon a risgiau eu codi gyda ni neu eu hadnabod gennym. Lle nad yw Medr wedi cael sicrwydd, efallai y bydd yn gofyn i ddarparwyr am ragor o wybodaeth am eu data a'u tystiolaeth, polisïau, prosesau, gwasanaethau neu weithgarwch cysylltiedig.

### Datblygu Deilliannau Mesuradwy

30. Bwriad deilliannau mesuradwy yw:

    - ysgogi gwelliant parhaus mewn cyfle cyfartal
    - darparu tystiolaeth o gynnydd, cyflymder ac uchelgais wrth leihau anghydraddoldebau
    - ategu cynllunio strategol ac atebolrwydd
    - galluogi darparwyr i flaenoriaethu camau gweithredu a oleuir gan ddata, gan ystyried eu cenhadaeth, eu diben a'u cyd-destun rhanbarthol a chenedlaethol

31. Bydd Medr yn cyhoeddi data, cyngor a gwybodaeth i gefnogi'r gwaith o ddatblygu canlyniadau mesuradwy er mwyn helpu i roi eglurder ynghylch beth mae cymesuredd yn ei olygu yn ymarferol a bydd hyn yn cael ei ddatblygu ar y cyd â darparwyr a chyrff y sector, i gefnogi'r gwaith o weithredu'r amod.

32. Mae Medr yn disgwyl i ddarparwyr fod yn glir ac yn uchelgeisiol wrth osod deilliannau mesuradwy.

33. **Rhaid** datblygu deilliannau mesuradwy ar draws meysydd blaenoriaeth yr amod (cyfranogiad, cadw, llwyddiant academaidd, dilyniant a lle y bo'n briodol cyfranogiad mewn astudiaethau ôl-raddedig), fel y maent yn ymwneud â grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

34. **Rhaid** i ddeilliannau mesuradwy fod yn ddigonol a meddu ar y potensial i gael effaith fawr ar draws profiad dysgwyr addysg drydyddol. Yr hyn sy'n bwysig yw eu bod:

- yn adlewyrchu pob cam o gylch oes y dysgwr i fynd i'r afael â'r rhwystrau a adnabuwyd
- wedi'u goleuo gan dystiolaeth ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau darparwyr
- yn benodol ac wedi'u diffinio'n glir
- yn gallu cyflawni gwelliannau pendant, uchelgeisiol, a hynny'n gyflym
- wedi'u gosod fel arfer dros gyfnod treigl o bedair blynedd gyda cherrig milltir fesul blwyddyn.

Mae'r dull cychwynnol hwn o ymdrin â deilliannau mesuradwy yn galluogi darparwyr i berchnogi eu deilliannau a bod yn atebol amdanynt. Bydd Medr yn cydweithio â darparwyr, yn unol ag egwyddorion rheoleiddio Medr, gan gynnig cefnogaeth a her lle y bo'n briodol.

35. Mae gan ddarparwyr hyblygrwydd wrth adnabod a gosod deilliannau ond yn y ffurflen yn Atodiad A **rhaid** iddynt ddangos:

- sut yr adnabuwyd deilliannau
- tystiolaeth ar gyfer blaenoriaethu'r deilliant hwn
- sut y bydd effaith yn cael ei mesur
- pa welliannau a ddisgwylir dros ba gyfnod o amser

36. **Rhaid** i deilliannau mesuradwy gael eu gosod ar sail dreigl am hyd at bedair blynedd, rhaid eu diweddaru'n flynyddol, a nodi cerrig milltir ar gyfer bob blwyddyn. **Rhaid** cyfleu newidiadau i ddeilliannau i Medr yn seiliedig ar dystiolaeth a data.

37. **Rhaid** i ddeilliannau fod yn fesuradwy, rhaid iddynt gael eu goleuo gan dystiolaeth, a gallant fod o fudd i nifer o grwpiau o ddysgwyr difreintiedig, gan gynnwys y rhai sy'n wynebu anfanteision croestoriadol a'r rhai sydd â nodweddion gwarchodedig.

38. Gall yr Amod Cyfle Cyfartal gyd-fynd â rhai ffrydiau cyllido perthnasol a ddyfernir i ddarparwyr gan Medr. Lle y bo'n bosibl, anogir darparwyr i sicrhau bod eu deilliannau mesuradwy'n cyd-fynd â nodau a deilliannau ffrydiau cyllido perthnasol.

39. Mae'r templed y mae'n **rhaid** i ddarparwyr ei ddychwelyd i'w weld yn Atodiad A.

### Monitro Cydymffurfedd â'r Amod hwn

40. Yn dilyn hunanwerthuso parhaus a datblygu deilliannau **rhaid** i ddarparwyr eu dychwelyd i Medr. Ar ôl cyflwyno'r wybodaeth gychwynnol (gweler atodiad A), **rhaid** i ddarparwyr ddarparu tystiolaeth flynyddol i Medr o'u cynnydd yn erbyn cerrig milltir a deilliannau fel rhan o Ffurflen Sicrwydd Flynyddol Medr (gweler y Rhestr Termau).

41. Nod y cylch hwn o hunanwerthuso, cerrig milltir mesuradwy, gosod deilliannau, ac adolygu blynyddol yw ysgogi gwelliant parhaus, sicrhau atebolrwydd, a gwreiddio blaenoriaethau cyfle cyfartal ar draws y sefydliad cyfan.

42. Ym mlwyddyn academaidd 2026/27, bydd angen i ddarparwyr addysg uwch sydd â Chynllun Ffioedd a Mynediad presennol gwblhau datganiad sicrwydd fel rhan o'r Ffurflen Sicrwydd Flynyddol sy'n cadarnhau ymrwymiadau parhaus i gyfle cyfartal. Bydd angen i bob darparwr arall gwblhau datganiad sicrwydd fel rhan o'r Ffurflen Sicrwydd Flynyddol sy'n cydnabod yr Amod Cyfle Cyfartal, gan gadarnhau dealltwriaeth o'r diben a chadarnhau y byddant yn parhau i ymgysylltu â Medr a gweithio tuag at gyd-fynd yn llawn â'r Amod Cyfle Cyfartal o 2027/28 ymlaen.

43. Bydd Medr yn disgwyl y cyflwyniad cychwynnol o ddeilliannau mesuradwy a cherrig milltir (Atodiad A) ym mis Rhagfyr 2027 fel rhan o'r Ffurflen Sicrwydd Flynyddol. Bydd y deilliannau hyn ar gyfer y cyfnod sy'n dechrau ym mlwyddyn academaidd 2027/28 hyd at 2030/31.

44. O 2028/29 ymlaen, **rhaid** i'r holl ddarparwyr gyflwyno eu cynnydd yn erbyn deilliannau mesuradwy i Medr, gan gadarnhau eu hymrwymiad parhaus i wneud cynnydd yn gyflym o ran hybu cyfle cyfartal. Ar gyfer y sicrwydd blynyddol hwn bydd hi'n ofynnol cael datganiadau cryno arfarnol gan ddarparwyr a **all** gynnwys:

- tystiolaeth o gynnydd yn erbyn deilliannau
- adnabod lle y mae cynnydd wedi bod yn gyfyngedig neu heb arwain at welliannau sylweddol a'r rhesymau pam
- amlygu arferion sydd wedi arwain at welliannau trawsnewidiol
- heriau neu risgiau allweddol i gyflawni mesurau deilliannau a chamau gweithredu i'w lliniaru
- lle caiff cerrig milltir neu ddeilliannau eu newid, **rhaid** i'r rhesymeg gael ei darparu.

45. Bydd Medr yn monitro cydymffurfedd, cynnydd a gwelliant parhaus yn y ffyrdd canlynol:

- **Ffurflenni Sicrwydd Blynyddol:** bydd disgwyl i ddarparwyr hunan-ddatgan a chyflwyno tystiolaeth (deilliannau mesuradwy a chynnydd) i ddangos eu bod wedi ateb gofynion cydymffurfio a gwella'n barhaus yr amod
- **dadansoddi data:** bydd Medr yn monitro cydymffurfedd a gwelliant parhaus gan ddefnyddio ystod o ddata meintiol ac ansoddol sydd ar gael. Lle y bo'n bosibl, bydd dadansoddiad Medr yn cael ei gyd-destunoli. Bydd dadansoddi data yn galluogi Medr i fonitro cynnydd, cyflymder, uchelgais a chydymffurfedd. Bydd data yn ystyried dadansoddiad yn ôl nodwedd warchodedig lle mae'r data hwnnw ar gael.
- **arolygon dysgwyr:** mewn achosion lle mae canlyniadau arolygon dysgwyr yn gysylltiedig ag effeithiolrwydd neu effaith cyfle cyfartal
- **Adolygiadau Estyn a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA)**: mewn achosion lle mae canlyniadau'r adolygiadau yn gysylltiedig ag effeithiolrwydd neu effaith cyfle cyfartal
- **Digwyddiadau y mae'n Rhaid eu Hadrodd:** Mewn achosion lle mae'r digwyddiadau hynny yn gysylltiedig ag effeithiolrwydd neu effaith cyfle cyfartal

- **cyflwyniadau pryderon rheoleiddiol a monitro cwynion:** mewn achosion lle mae pryderon rheoliadol a gyflwynir i Medr, neu ddadansoddiad o ddata cwynion, yn nodi themâu neu faterion systemig sy'n ymwneud â chydymffurfedd â'r Amod Cyfle Cyfartal
- **gweithgareddau ymgysylltu:** naill ai ar lefel darparwr neu ar lefel sector, bydd Medr yn adolygu sut y mae ei gyngor neu ei arweiniad yn cael ei ystyried a'i wreiddio
- **ffynonellau sicrwydd annibynnol:** gan gynnwys adolygiadau, arolygiadau, gwerthusiadau a gomisiynwyd, gwybodaeth gan reoleiddwyr eraill fel y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC), ac adroddiadau gan gyrff proffesiynol neu statudol. Bydd Medr yn ystyried ffynonellau sicrwydd annibynnol perthnasol i oleuo ei ddealltwriaeth am risg a/neu sicrwydd darparwyr

46. Mae Medr yn disgwyl bod darparwyr yn gwneud cynnydd wrth gyflawni eu deilliannau mesuradwy. Bydd Medr yn defnyddio dull monitro sy'n seiliedig ar risg. Lle nad yw'r cynnydd gan ddarparwyr yn unol â'r disgwyl, byddwn yn ymgysylltu â hwy i ddeall y rhesymau sylfaenol ac adnabod camau nesaf priodol. Bydd ffocws Medr ar ddeall heriau, cefnogi gwelliant, a sicrhau bod anghenion a dyheadau dysgwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn parhau i fod yn ganolog i hybu cyfle cyfartal ar draws y sector.

47. Bydd Medr yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg wrth sicrhau cydymffurfedd â'r amod. Lle mae data, tystiolaeth neu adroddiadau'n dangos risg wirioneddol neu risg bosibl, rydym yn cadw'r hawl i ofyn am wybodaeth, tystiolaeth a/neu ddata ychwanegol, i gwrdd â'r darparwr a/neu ymweld â'r sefydliad.

48. Bydd Medr yn ystyried i ba raddau y mae risgiau o fewn a/neu'r tu allan i reolaeth uniongyrchol darparwyr wrth ystyried cydymffurfedd a gwelliant a'u camau gweithredu i liniaru risg.

49. Lle mae monitro'n adnabod meysydd ar gyfer gwella ar draws y sector cyfan, neu enghreifftiau o arfer effeithiol, gall Medr gyhoeddi gwybodaeth, cyngor neu arweiniad ychwanegol i ategu gwelliant parhaus.

50. Bydd Medr yn adolygu'r amod hwn yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag anghenion esblygol y sector, newidiadau i bolisïau ac adborth gan randdeiliaid.

## Llinell Amser a Disgwyliadau ar Gyfer Monitro â’r Amod:

| | Darparwyr Addysg Uwch | Addysg Bellach | Dysgu Oedolion yn y Gymuned | Prentisiaethau |
|---|---|---|---|---|
| **2026/27** | Datganiad sicrwydd yn cadarnhau ymrwymiad i’r Cynllun Ffioedd a Mynediad presennol[17] | Datganiad sicrwydd sy’n cydnabod yr Amod Cyfle Cyfartal, gan gadarnhau dealltwriaeth o ddiben hybu mynediad, llwyddiant, a dilyniant i ddysgwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg drydyddol, gan gynnwys ymchwil ac arloesi, gan gadarnhau y byddant yn parhau i ymgysylltu â Medr a gweithio tuag at gyd-fynd yn llawn â’r Amod Cyfle Cyfartal o 2027/28 ymlaen. | | |
| **2027/28** | Trwy hunanwerthuso, datblygu deilliannau mesuradwy o 2027/28 am hyd at bedair blynedd ar sail dreigl gyda cherrig milltir bob blwyddyn | Trwy hunanwerthuso, datblygu deilliannau mesuradwy o 2027/28 am hyd at bedair blynedd ar sail dreigl gyda cherrig milltir bob blwyddyn. | | |
| **2028/29 ymlaen** | Adolygu’r deilliannau mesuradwy yn fewnol a chyflwyno datganiadau sicrwydd blynyddol i Medr | Adolygu’r deilliannau mesuradwy yn fewnol a chyflwyno datganiadau sicrwydd blynyddol i Medr. | | |

[17] Bydd blwyddyn academaidd 2026/27 yn flwyddyn drosiannol lle bydd amodau cofrestru’r Ddeddf ar waith ochr yn ochr â rhai gofynion rheoleiddio o ran Cynlluniau Ffioedd a Mynediad sy’n weddill o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015. O 2027/28 ymlaen, bydd yr holl bwerau ymyrraeth benodedig mewn perthynas â Chynlluniau Ffioedd a Mynediad sy’n weddill o dan Ddeddf 2015 yn dod i ben ar gyfer y darparwyr hynny.

## Atodiad A: Templed Deilliannau Mesuradwy – Amod Cyfle Cyfartal

Darperir y templed hwn i gynorthwyo darparwyr i osod deilliannau mesuradwy o dan yr Amod Cyfle Cyfartal. **Rhaid** i bob deilliant gael ei strwythuro i gynnwys yr elfennau canlynol a chwmpasu'r cyfnod rhwng mis Awst 2027 a mis Gorffennaf 2031.

| Deilliant | Rhesymeg Dros Flaenoriaethu | Cerrig Milltir Blynyddol | Data / Tystiolaeth | Effaith Ddisgwyliedig a Sut y Bydd yn Cael ei Monitro | Adolygiad Blynyddol, Cynnydd ac Unrhyw Addasiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Pa faes y mae'r deilliant yn ei dargedu, h.y. cyfranogiad, cadw, ac ati<br><br>Pa grŵp dysgwyr/ nodwedd warchodedig /cwrs /modd dysgu sy'n cael ei dargedu?<br><br>e.e. Cynyddu cyfranogiad dysgwyr sydd â phrofiad o ofal o x i y (mewn cerrig milltir blynyddol penodol) ar X cwrs. | Cyfiawnhad dros ddewis y deilliant hwn.<br><br>e.e. yn seiliedig ar ddata mewnol sy'n dangos cofrestriad isel ac adborth gan randdeiliaid | Cerrig milltir blynyddol sy'n dechrau o'r flwyddyn sylfaenol.<br><br>e.e.<br>27/28 – gwaelodlin<br>28/29 – targed<br><br>Ychwanegwch dargedau ar gyfer pob blwyddyn y mae'r deilliant wedi'i osod ar ei chyfer hyd at fis Gorffennaf 2031 | Tystiolaeth neu ffynonellau data sy'n ategu'r deilliannau arfaethedig / cerrig milltir blynyddol.<br><br>e.e. cyfraddau cofrestru, adborth dysgwyr, data cadw a chyrhaeddiad | Manteision disgwyliedig os cyflawnir y canlyniad i ddysgwyr.<br><br>e.e. cynnydd yn nifer y dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal | Myfyrdodau ynghylch cynnydd bob blwyddyn ac unrhyw addasiadau a wnaed i weithgarwch. |

Nodyn: **Gall** darparwyr ychwanegu rhesi ar gyfer pob deilliant mesuradwy. **Rhaid** i ddeilliannau gael eu goleuo gan dystiolaeth a chyd-fynd â blaenoriaethau a chyd-destun darparwyr. **Dylai** ddarparwyr canolbwyntio ar ddysgwyr heb gynrychiolaeth ddigonol sydd â nodweddion gwarchodedig a'r rhai sy'n wynebu anfantais gymdeithasol, ddiwylliannol, economaidd a sefydliadol, gan gynnwys ystyried sut y gall y rhain groestorri a chydweithio'n rhanbarthol lle y bo'n briodol.

# Amod: Gweithdrefnau Cwyno

**Rhaid** i ddarparwr sydd wedi cofrestru gyda Medr neu sy'n cael ei gyllido ganddo:

- roi gweithdrefn ar waith ar gyfer ymchwilio i gwynion a wneir gan ddysgwyr a chyn-ddysgwyr[18] ynglŷn â gweithred neu anweithred gan y darparwr
- cymryd camau rhesymol i roi gwybod i ddysgwyr am y weithdrefn

## Categori Amod

Mae hwn yn amod cofrestru parhaus. Mae hwn yn amod ar gyfer cyllid.

## Sail Gyfreithiol

Mae Adran 127 o **Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022** (y Ddeddf) yn gosod dyletswydd statudol ar Medr i sicrhau bod gan ddarparwr addysg drydyddol perthnasol "weithdrefn yn ei lle ar gyfer ymchwilio i gwynion am weithred neu anweithred gan y darparwr a wneir gan bersonau sy'n ymgymryd, neu sydd wedi ymgymryd, â chyrsiau perthnasol, a bod darparwr addysg drydyddol yn cymryd camau rhesymol i roi gwybod i bersonau sy'n ymgymryd â chyrsiau perthnasol am y weithdrefn."

Mae Adran 126 o'r Ddeddf yn diffinio 'darparwr addysg drydyddol perthnasol' yn –

(a) darparwr cofrestredig;
(b) darparwr sy'n cael adnoddau ariannol a ddarperir neu a sicrheir gan Medr o dan –
  (i) Adran 89 (cyrsiau addysg uwch a bennir mewn rheoliadau),
  (ii) Adran 97 (addysg bellach neu hyfforddiant), neu
  (iii) Adran 104 (prentisiaethau)

Mae Adran 126 o'r Ddeddf yn diffinio'r cyrsiau perthnasol y mae'r amod yn berthnasol iddynt fel –

[18] Nid yw Medr yn diffinio 'cyn-ddysgwyr', ac mae'n arfer dda i ddarparwyr bennu terfyn amser i ddysgwyr godi cwynion ar ôl iddynt adael y darparwr a bod yn hyblyg wrth orfodi'r terfyn amser hwnnw ac yn fodlon ystyried a oes gan unrhyw gyn-ddysgwr reswm da dros wneud y gŵyn ar ôl y cyfnod hwn.

(i) unrhyw gwrs addysg drydyddol a ddarperir gan ddarparwr cofrestredig neu ar ei ran
(ii) unrhyw gwrs a gyllidir gan Medr o dan ~Adran 89, Adran 97 a/neu Adran 104 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022.

### Gofynion Cydymffurfio

Er mwyn cydymffurfio â'r amod hwn, **rhaid** i'r darparwr wneud y canlynol:

1. rhoi gweithdrefn ar waith ar gyfer ymchwilio i gwynion a wneir gan ddysgwyr a chyn-ddysgwyr ynglŷn â gweithred neu anweithred gan y darparwr
2. cymryd camau rhesymol i roi gwybod i ddysgwyr am y weithdrefn

### Monitro

Bydd Medr yn monitro cydymffurfedd â'r amod hwn yn y ffyrdd canlynol (am ddiffiniadau o'r rhain, gweler dull Medr o fonitro):

- **Ffurflen Sicrwydd Flynyddol:** fel rhan o Ffurflen Sicrwydd Flynyddol Medr, bydd disgwyl i ddarparwyr hunanddatgan eu bod wedi bodloni gofynion cydymffurfio'r amod. Dyma fydd y brif ffynhonnell fonitro ar gyfer yr amod hwn
- **monitro gwefannau darparwyr:** bydd Medr yn monitro i weld ble a sut y rhoddir gwybod i ddysgwyr am weithdrefnau cwyno
- **monitro cwynion a phryderon rheoleiddio a gyflwynir:** mewn achosion lle y bydd pryderon a rennir â Medr, neu ddadansoddiadau o ddata ar gwynion, yn dangos themâu neu faterion systemig sy'n ymwneud â'r Amod Gweithdrefnau Cwyno
- **Digwyddiadau y Mae’n Rhaid eu Hadrodd:** mewn achosion lle y bydd y digwyddiadau hynny'n ymwneud â gweithdrefnau cwyno a sut y rhoddir gwybod i ddysgwyr amdanynt
- **monitro data**: bydd Medr yn ystyried data sy'n ymwneud â niferoedd, patrymau a thueddiadau cwynion. Ar gyfer darparwyr sy'n rhan o gynllun cwynion Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA), caiff data eu casglu drwy'r cynllun.

Mae'n bosibl y bydd darparwyr sydd â hanes blaenorol o beidio â chydymffurfio, sy'n dangos tueddiadau o ddirywiad mewn data neu sy'n wynebu risg o beidio â chydymffurfio yn y dyfodol yn destun craffu mwy dwys. Bydd peidio â chydymffurfio â gofynion monitro yn ysgogi ymchwiliadau pellach ac ymyriadau posibl.

### Adolygu a Diwygio

Bydd Medr yn adolygu'r amod hwn yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag anghenion esblygol y sector, newidiadau i bolisïau ac adborth gan randdeiliaid.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

## Amod: Sylw i Gyngor neu Ganllawiau

**Rhaid** i gorff llywodraethu (neu gorff cyfatebol) darparwr sydd wedi cofrestru gyda Medr neu sy'n cael ei gyllido ganddo:

- roi sylw i gyngor neu ganllawiau a roddir gan Medr i'r corff (naill ai'n benodol neu i bersonau yn gyffredinol) wrth arfer swyddogaethau Medr o dan y Ddeddf

ac felly:

- rhoi sylw i unrhyw gyngor neu ganllawiau a gyhoeddir gan Medr, boed wedi'u cyfeirio'n benodol at y darparwr neu'n fwy eang i'r sector, gan gydnabod y gall darparwyr fabwysiadu dulliau amgen lle bo'n briodol i'w cyd-destun
- gallu egluro'r rhesymeg dros eu dull os gofynnir amdano, ond nid oes disgwyl cyfiawnhad nac adrodd yn rheolaidd

Pan fydd Medr yn cyhoeddi cyngor neu ganllawiau, fel arfer bydd yn rhoi o leiaf 30 diwrnod gwaith o rybudd cyn eu cyhoeddi. Mewn rhai amgylchiadau brys, ceidw Medr yr hawl i gyhoeddi o fewn amserlen fyrrach.

### Categori Amod

Mae hwn yn amod cofrestru parhaus. Mae hwn yn amod ar gyfer cyllid.

### Sail Gyfreithiol

Mae Adran 31 o **Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022** yn ei gwneud yn ofynnol i Medr osod amod sy'n ei gwneud yn angenrheidiol i gorff llywodraethu (neu gorff cyfatebol) darparwr "roi sylw i gyngor neu ganllawiau a roddir gan y Comisiwn i'r corff (naill ai yn benodol neu i bersonau yn gyffredinol) wrth arfer swyddogaethau'r Medr".

Mae Adran 37 o'r Ddeddf yn pennu y gall Medr ddarparu, neu wneud trefniadau ar gyfer darparu, cyngor neu gymorth arall i ddarparwr cofrestredig er mwyn sicrhau cydymffurfedd y darparwr â'i amodau cofrestru parhaus.

O dan Adrannau 90, 99 a 104 o’r Ddeddf, rhaid i Medr ddatblygu telerau ac amodau cyllido sy’n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr ystyried cyngor neu arweiniad a roddir gan Medr.

Mae Adran 135 o’r Ddeddf yn nodi pwerau a dyletswyddau ehangach Medr i gyhoeddi cyngor, canllawiau a chanllawiau arfer da mewn perthynas â’i swyddogaethau, gan gynnwys canllawiau ar rannu gwybodaeth.

Er mwyn cefnogi dehongliad cyson a chydymffurfedd â’r amod hwn, bydd Medr yn nodi’n glir pryd y bwriedir i gyngor neu ganllawiau y mae’n eu cyhoeddi arfer y ddyletswydd statudol ’roi sylw’, a phryd y mae’n gyfystyr â deunydd cynghori neu arfer da ehangach, fel nad oes gofyn i ddarparwyr gynnal cofnodion cynhwysfawr o’r holl gyfathrebiadau.

### Gofynion Cydymffurfio

Er mwyn cydymffurfio â’r amod hwn, **rhaid** i ddarparwr wneud y canlynol:

1. **gwerthuso canllawiau**: sicrhau ystyriaeth briodol i gyngor neu ganllawiau a gyhoeddwyd gan Medr, gyda goruchwyliaeth briodol ar lefel y corff llywodraethu (neu gorff cyfatebol). Mae’n briodol i bob darparwr benderfynu natur y cyngor neu’r canllawiau ac i ba lefel yn eu strwythur llywodraethu y dylid eu hystyried
2. **cadw cofnodion a thystiolaeth**: cynnal cofnodion cymesur sy’n dangos bod canllawiau wedi’u hystyried drwy brosesau llywodraethu arferol y darparwr. **Gall** darparwyr fabwysiadu dulliau amgen lle y bo cyfiawnhad dros hynny, ar yr amod eu bod yn cyd-fynd ag egwyddorion llywodraethu da a chydymffurfio rheoleiddiol
3. **cyfiawnhad dros wyro**: pan fydd darparwr yn dewis peidio ag ymlynu wrth gyngor neu ganllawiau Medr o dan y ddyletswydd statudol “i roi sylw”, **dylent** sicrhau eu bod yn cadw cofnod priodol o’r cyfiawnhad dros wneud hynny

### Monitro

Bydd Medr yn monitro cydymffurfedd â’r amod hwn yn y ffyrdd canlynol (i gael diffiniadau o’r rhain, gweler dull Medr o fonitro):

- **Ffurflen Sicrwydd Flynyddol:** fel rhan o Ffurflen Sicrwydd Flynyddol Medr, bydd disgwyl i ddarparwyr hunan-ddatgan eu bod wedi ateb gofynion cydymffurfio’r amod. Dyma fydd y prif ffynhonnell fonitro ar gyfer yr amod hwn
- **cyflwyniadau pryderon rheoleiddiol a monitro cwynion:** mewn achosion lle mae pryderon a gyflwynir i Medr, neu ddadansoddiad o ddata cwynion, yn nodi themâu neu faterion systemig sy’n ymwneud â chyngor neu ganllawiau a gyhoeddir gan Medr
- **monitro data:** bydd Medr yn ystyried data sy’n ymwneud â Sylw i Gyngor neu Ganllawiau, yn erbyn y themâu penodol sy’n gysylltiedig â chyngor neu ganllawiau
- **Digwyddiadau y Mae’n Rhaid eu Hadrodd**: mewn achosion lle mae’r digwyddiadau hynny’n ymwneud â chyngor neu ganllawiau a gyhoeddwyd gan Medr
- **gweithgareddau ymgysylltu**: naill ai ar lefel darparwr neu ar lefel sector, bydd Medr yn ymgysylltu â darparwyr wrth adolygu sut y mae cyngor neu arweiniad yn cael ei ystyried

Mae'n bosibl y bydd darparwyr sydd â hanes blaenorol o beidio â chydymffurfio, sy'n dangos tueddiadau o ddirywiad mewn data neu sy'n wynebu risg o beidio â chydymffurfio yn y dyfodol yn destun craffu mwy dwys. Bydd peidio â chydymffurfio â gofynion monitro yn ysgogi ymchwiliadau pellach ac ymyriadau posibl.

### Adolygu a Diwygio

Bydd Medr yn adolygu'r amod hwn yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag anghenion esblygol y sector, newidiadau i bolisïau ac adborth gan randdeiliaid.

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

## Amod: Gwybodaeth, Cymorth a Mynediad

**Rhaid** i gorff llywodraethu (neu gorff cyfatebol) darparwr sydd wedi cofrestru gyda Medr neu sy'n cael cyllid ganddo:

- roi i Medr, neu berson sydd wedi'i awdurdodi gan Medr, pa bynnag wybodaeth, cymorth a mynediad at gyfleusterau, systemau ac offer y darparwr all fod yn rhesymol ofynnol gan Medr i gyflawni ei swyddogaethau

### Categori Amod

Mae hwn yn amod cofrestru parhaus. Mae hwn yn amod ar gyfer cyllid.

### Sail Gyfreithiol

O dan Adran 31 **o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022** (y Ddeddf) mae angen i Medr greu amod sy'n "ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu'r darparwr ddarparu i'r Comisiwn, neu i berson sydd wedi ei awdurdodi gan y Comisiwn, unrhyw wybodaeth, unrhyw gynhorthwy ac unrhyw fynediad i gyfleusterau, systemau ac offer y darparwr sy'n rhesymol ofynnol gan y Comisiwn at ddiben arfer swyddogaethau'r Comisiwn o dan y Rhan hon."[19]

O dan Adrannau 90, 99, a 104 o'r Ddeddf, gall Medr osod telerau ac amodau cyllido mewn perthynas â'r amod hwn.

### Gofynion Cydymffurfio

Er mwyn cydymffurfio â'r amod hwn, **rhaid** i'r corff llywodraethu (neu'r corff cyfatebol) wneud y canlynol:

1. darparu a gwneud trefniadau i Medr, neu asiantau sy'n gweithredu ar ei ran, dderbyn yr wybodaeth, y cynhorthwy a'r mynediad at gyfleusterau'r sefydliad sy'n ofynnol rhesymol gan Medr neu ei asiant at ddiben arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â chydymffurfio â'r Ddeddf

[19] Nid yw'r amod hwn yn disodli nac yn ymestyn pwerau Medr i gael mynediad i chwilio, sydd ar wahân o dan Adran 74.

2. darparu gwybodaeth y gofynnwyd amdani mewn fformat a ragnodir gan Medr, o fewn yr amserlen a bennwyd gan Medr, a thrwy broses sicrwydd sy'n rhoi hyder priodol i Medr yng nghywirdeb yr wybodaeth

Dim ond gwybodaeth, cymorth neu fynediad sy'n angenrheidiol ac yn gymesur â'r mater dan sylw y bydd Medr yn gofyn amdanynt a bydd, lle bynnag y bo'n ymarferol, yn dibynnu ar dystiolaeth sydd gan y darparwr eisoes neu dystiolaeth y mae wedi'i chyflenwi i gyrff statudol eraill neu gasgliad cenedlaethol. Bydd Medr bob amser yn gweithredu'n rhesymol yn ei geisiadau am wybodaeth a bydd yn ystyried costau darparu'r wybodaeth hon, a, lle y bo'n briodol, ei chyfrinachedd.

## Monitro

Bydd Medr yn monitro cydymffurfedd â'r amod hwn yn y ffyrdd canlynol (i gael diffiniadau o'r rhain, gweler dull Medr o fonitro):

- **Ffurflen Sicrwydd Flynyddol:** fel rhan o Ffurflen Sicrwydd Flynyddol Medr, bydd disgwyl i ddarparwyr hunan-ddatgan eu bod wedi ateb gofynion cydymffurfio'r amod
- **monitro data:** bydd Medr yn myfyrio ynghylch ei gofnodion ei hun i benderfynu a gydymffurfiwyd â'r amod hwn
- **ffynonellau sicrwydd annibynnol:** gall Medr geisio sicrwydd gan asiantau sy'n gweithredu ar ei ran mewn perthynas â'r amod hwn

Mae'n bosibl y bydd darparwyr sydd â hanes blaenorol o beidio â chydymffurfio, sy'n dangos tueddiadau o ddirywiad mewn data neu sy'n wynebu risg o beidio â chydymffurfio yn y dyfodol yn destun craffu mwy dwys. Bydd peidio â chydymffurfio â gofynion monitro yn ysgogi ymchwiliadau pellach ac ymyriadau posibl.

## Adolygu a Diwygio

Bydd Medr yn adolygu'r amod hwn yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag anghenion esblygol y sector, newidiadau i bolisïau ac adborth gan randdeiliaid.

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

## Amod: Trefniadau Dilysu

**Rhaid** i darparwr sydd wedi cofrestru â Medr sicrhau, pan fo trefniadau dilysu ar waith, fod y trefniadau hynny'n effeithiol o ran galluogi'r darparwr:

- "i'w fodloni ei hunan o ran ansawdd yr addysg sy'n arwain at ddyfarnu cymhwyster o dan y trefniadau."

O dan **Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022** (y Ddeddf), ystyr "trefniadau dilysu" yw trefniadau rhwng darparwr addysg drydyddol sy'n gwneud cais (neu sydd wedi'i gofrestru) a darparwr addysg arall y mae'r darparwr addysg drydyddol sy'n gwneud cais yn dyfarnu cymhwyster o danynt i fyfyriwr yn y darparwr arall neu'n awdurdodi'r darparwr arall i ddyfarnu cymhwyster oddi tanynt ar ei ran.

Dim ond i drefniadau dilysu fel y'u diffinnir yn y Ddeddf y mae'r amod hwn yn berthnasol. Caiff trefniadau cydweithredol eraill (megis darpariaeth freinio) eu rheoleiddio ar wahân o dan amodau eraill yn y Ddeddf, lle y caiff addysg uwch ei darparu ar ran darparwr cofrestredig.

### Categori Amod

Mae hwn yn amod cofrestru cychwynnol a pharhaus.

### Sail Gyfreithiol

O dan Adran 27 o'r Ddeddf, rhaid i Medr fod yn fodlon, pan fo trefniadau dilysu ar waith, fod y trefniadau hynny'n effeithiol o ran galluogi'r "darparwr addysg drydyddol sy'n gwneud cais i'w fodloni ei hunan o ran ansawdd yr addysg sy'n arwain at ddyfarnu cymhwyster o dan y trefniadau." O dan Adran 31 o'r Ddeddf, mae hefyd yn ofynnol i Medr osod amod cofrestru parhaus gorfodol "sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd unrhyw drefniadau dilysu sydd yn eu lle".

## Gofynion Cydymffurfio

Er mwyn cydymffurfio â'r amod hwn, **rhaid** i ddarparwr cofrestredig fodloni'r disgwyliadau a nodir yn y categorïau canlynol:

1. **Goruchwyliaeth a Chyfrifoldeb**

**Rhaid** i'r darparwr wneud y canlynol:

- cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am safonau ac ansawdd academaidd yr holl ddarpariaeth a ddilysir
- rhoi trefniadau ar waith sy'n ei alluogi i sicrhau ansawdd yr addysg a ddarperir drwy drefniadau dilysu

**Dylai'r** darparwr wneud y canlynol:

- sicrhau bod y trefniadau goruchwylio'n gymesur â graddfa a risg y bartneriaeth ddilysu
- sicrhau ei bod yn amlwg pwy sy'n gyfrifol am reoli a goruchwylio trefniadau dilysu o fewn y sefydliad
- sicrhau diwydrwydd dyladwy priodol mewn perthynas â phartneriaid ac adolygu risgiau cysylltiedig yn rheolaidd

2. **Trefniadau Ffurfiol**

**Rhaid** i'r darparwr wneud y canlynol:

- rhoi cytundeb ysgrifenedig ar waith ar gyfer pob trefniant dilysu sy'n nodi sut y caiff safonau ac ansawdd academaidd eu sicrhau
- rhoi trefniadau effeithiol ar waith er mwyn sicrhau y gall dysgwyr gwblhau eu hastudiaethau os bydd newidiadau'n effeithio ar y bartneriaeth ddilysu

**Dylai'r** darparwr wneud y canlynol:

- sicrhau bod y cytundeb yn dyrannu cyfrifoldebau'n glir rhwng y darparwr a'r partner cyflwyno
- sicrhau bod y cytundeb yn nodi sut y bydd gwybodaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer sicrhau ansawdd yn cael ei rhannu
- adolygu'r cytundeb o bryd i'w gilydd, neu pan ddaw risgiau neu newidiadau sylweddol i'r amlwg
- cynnwys trefniadau cymesur ar gyfer mynd i'r afael â phryderon neu faterion a all godi o fewn y bartneriaeth ddilysu

3. **Monitro ac Adolygu**

**Rhaid** i'r darparwr wneud y canlynol:

- rhoi trefniadau effeithiol ar waith er mwyn monitro darpariaeth a ddilysir
- cynnwys darpariaeth a ddilysir yn ei brosesau sicrhau ansawdd ehangach, gan gynnwys adolygu o bryd i'w gilydd pan fydd hynny'n briodol

**Dylai'r** darparwr wneud y canlynol:

- defnyddio tystiolaeth berthnasol, megis deilliannau dysgwyr a pherfformiad partneriaid, i werthuso effeithiolrwydd darpariaeth a ddilysir
- sicrhau bod partneriaid a ddilysir yn cymryd rhan mewn prosesau sicrhau ansawdd pan fydd angen
- adolygu effeithiolrwydd a risgiau'r bartneriaeth ddilysu'n rheolaidd a gweithredu pan fydd materion yn codi a all effeithio ar ansawdd academaidd

4. **Gofynion Hysbysu**

**Rhaid** i'r darparwr wneud y canlynol:

- ar adeg gwneud cais, rhoi rhestr lawn o'r trefniadau a'r partneriaid dilysu presennol i Medr
- rhoi gwybod i Medr pan gaiff trefniant dilysu ei derfynu neu pan gaiff trefniant newydd ei roi ar waith
- hysbysu Medr am unrhyw risgiau sylweddol sy'n ymwneud ag ansawdd, safonau, cynaliadwyedd ariannol neu ddiogelu dysgwyr a gyfyd mewn perthynas â darpariaeth gydweithredol, yn unol â'r amod “hysbysu am newidiadau sy’n effeithio ar gywirdeb gwybodaeth”

### Tystiolaeth o Gydymffurfiaeth

<u>Darparwyr yn hunanddatgan eu bod wedi bodloni gofynion cydymffurfio'r amod fydd y brif ffynhonnell fonitro ar gyfer yr amod hwn.</u>

Fodd bynnag, **rhaid** i ddarparwyr gadw tystiolaeth sy'n dangos sut maent yn bodloni'r amod hwn, a gallu cyflwyno'r dystiolaeth honno ar gais gan Medr. Byddwn yn gofyn am yr wybodaeth honno mewn ffordd sy'n seiliedig ar risg, gan gyfeirio at ddata, materion blaenorol a thystiolaeth arall o berfformiad gwael mewn perthynas â'r amod hwn.

**Rhaid** i'r darparwr wneud y canlynol:

- cadw tystiolaeth sy'n dangos sut mae'n sicrhau ei hun ynghylch safonau ac ansawdd academaidd darpariaeth a ddilysir
- cyflwyno'r dystiolaeth hon i Medr ar gais
- cadw cofnod o'r cytundeb dilysu ar gyfer pob partner

**Dylai'r** darparwr wneud y canlynol:

- cadw tystiolaeth o'r ffordd y caiff darpariaeth a ddilysir ei monitro a'i hadolygu, mewn ffordd sy'n gymesur â graddfa a risg y trefniant
- cadw gwybodaeth sy'n dangos sut mae wedi ystyried deilliannau, adborth, neu dystiolaeth arall sy'n gysylltiedig ag ansawdd mewn perthynas â darpariaeth a ddilysir
- defnyddio dogfennaeth fewnol sydd eisoes yn bodoli, yn hytrach na chreu deunyddiau ychwanegol at ddibenion rheoleiddio yn unig, lle bynnag y bo hyn yn briodol.

## Monitro

Bydd Medr yn monitro cydymffurfedd â'r amod hwn yn y ffyrdd canlynol (am ddiffiniadau o'r rhain, gweler dull Medr o fonitro):

- **Ffurflen Sicrwydd Flynyddol:** fel rhan o Ffurflen Sicrwydd Flynyddol Medr, bydd disgwyl i ddarparwyr hunanddatgan eu bod wedi bodloni gofynion cydymffurfio'r amod. Dyma fydd y brif ffynhonnell fonitro ar gyfer yr amod hwn
- **Adolygiad yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA):** lle y bydd yn tynnu sylw at faterion sy'n ymwneud â darpariaeth a ddilysir neu oruchwylio darpariaeth a ddilysir
- **monitro cwynion a phryderon rheoleiddio a gyflwynir:** mewn achosion lle y bydd pryderon a rennir â Medr, neu ddadansoddiadau o ddata ar gwynion, yn dangos themâu neu faterion systemig sy'n ymwneud â threfniadau dilysu
- **Digwyddiadau y Mae'n Rhaid eu Hadrodd:** mewn achosion lle y bydd y digwyddiadau hynny'n ymwneud â goruchwylio darpariaeth a ddilysir
- **monitro data:** lle y bydd darparwyr a ddilyswyd yn cyflwyno data gwael o ran deilliannau

Mae'n bosibl y bydd darparwyr sydd â hanes blaenorol o beidio â chydymffurfio, sy'n dangos tueddiadau o ddirywiad mewn data neu sy'n wynebu risg o beidio â chydymffurfio yn y dyfodol yn destun craffu mwy dwys. Bydd peidio â chydymffurfio â gofynion monitro yn ysgogi ymchwiliadau pellach ac ymyriadau posibl.

## Adolygu a Diwygio

Bydd Medr yn adolygu'r amod hwn yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag anghenion esblygol y sector, newidiadau i bolisïau ac adborth gan randdeiliaid.

## Amod: Statws Elusennol

**Rhaid** i ddarparwr sydd wedi cofrestru gyda Medr yn y categori Craidd Addysg Uwch sicrhau'r canlynol:

- bod yn elusen[20] a chynnal y statws elusennol hwnnw

### Categori Amod

Mae hwn yn amod cofrestru cychwynnol a pharhaus. Mae'r amod hwn yn berthnasol yn benodol i ddarparwyr sydd wedi cofrestru gyda Medr yn y categori Craidd yn unig.

### Sail Gyfreithiol

Mae'r gofyniad i ddarparwr yn y categori craidd fod yn elusen wedi'i nodi o dan Reoliad 8(a) (amod cychwynnol) a 10(a) (amod parhaus) **Rheoliadau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cofrestru a Dadgofrestru Darparwyr Addysg Drydyddol yng Nghymru) 2024**.

Nid yw'r amod hwn yn diystyru annibyniaeth gyfreithiol darparwyr na'u statws elusennol eithriedig o dan gyfraith y DU.

### Gofynion Cydymffurfio

Ni fydd Medr yn gofyn am wybodaeth sydd eisoes wedi'i chyflwyno i'r Comisiwn Elusennau oni bai ei bod yn angenrheidiol at ddibenion rheoleiddio. Er mwyn cydymffurfio â'r amod hwn, rhaid i'r darparwr wneud y canlynol:

1. bod yn elusen. **Rhaid** cadarnhau hyn wrth wneud cais i fod ar y gofrestr a nodi rhif cofrestru elusen y darparwr (lle y bo'n berthnasol) ac enw a chyfeiriad ei reoleiddiwr elusennau
2. ar gyfer darparwyr nad ydynt wedi'u cofrestru gyda rheoleiddiwr elusennau, **rhaid** iddynt ddarparu rhesymau dros hyn, ynghyd â chopi o'u dogfen lywodraethu

[20] Mae hyn yn cynnwys: elusennau cofrestredig, elusennau esempt, ac elusennau eithriedig.

3. lle mae methiant darparwr wedi bod yn sbardun i gyflwyno hysbysiad i'r prif reoleiddiwr ac nad Medr yw'r rheoleiddiwr hwnnw, **rhaid** i gorff llywodraethu (neu gorff cyfatebol) y darparwr roi gwybod i Medr am fethiannau o'r fath lle caniateir hynny'n gyfreithiol a lle y bo'n berthnasol i oruchwyliaeth reoleiddiol Medr

## Monitro

Bydd Medr yn monitro cydymffurfedd â'r amod hwn yn y ffyrdd canlynol (i gael diffiniadau o'r rhain, gweler dull Medr o fonitro):

- **ar adeg ymgeisio:** rhaid i ddarparwyr sy'n ceisio cofrestru gyda Medr gynnwys datganiad o'u statws elusennol, gan gynnwys rhif cofrestru elusen y sefydliad (lle y bo'n berthnasol), enw a chyfeiriad ei reoleiddiwr elusennau a sut y maent yn cyfleu eu statws elusennol i'r cyhoedd
- **ffynonellau gwybodaeth annibynnol:** gall Medr o bryd i'w gilydd fonitro statws elusennol darparwyr cofrestredig trwy'r Comisiwn Elusennau, a gall hefyd gael gwybodaeth gan y Comisiwn Elusennau am statws darparwyr
- **Digwyddiadau y Mae'n Rhaid eu Hadrodd:** mewn achosion lle mae'r digwyddiadau hynny'n ymwneud ag arolygiaeth statws elusennol

Rhaid i Medr dynnu darparwr cofrestredig o'r categori Craidd Addysg Uwch os yw Medr wedi'i argyhoeddi nad yw'r darparwr cofrestredig yn elusen.

Mae'n bosibl y bydd darparwyr sydd â hanes blaenorol o beidio â chydymffurfio, sy'n dangos tueddiadau o ddirywiad mewn data neu sy'n wynebu risg o beidio â chydymffurfio yn y dyfodol yn destun craffu mwy dwys. Bydd peidio â chydymffurfio â gofynion monitro yn ysgogi ymchwiliadau pellach ac ymyriadau posibl.

## Adolygu a Diwygio

Bydd Medr yn adolygu'r amod hwn yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag anghenion esblygol y sector, newidiadau i bolisïau ac adborth gan randdeiliaid.

# Amod: Gwybodaeth a Ddarperir i Ddarpar Fyfyrwyr

**Rhaid** i ddarparwr sydd wedi cofrestru gyda Medr sicrhau:

- bod Medr yn fodlon ar yr wybodaeth a ddarperir i ddarpar fyfyrwyr am y darparwr, ei gyrsiau, a thelerau ac amodau ei gontractau â myfyrwyr

### Categori Amod

Mae hwn yn amod cofrestru cychwynnol a pharhaus.

### Sail Gyfreithiol

Mae'r amod wedi'i nodi o dan Reoliadau 8,9,10 ac 11 **Rheoliadau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cofrestru a Dadgofrestru Darparwyr Addysg Drydyddol yng Nghymru) 2024.** Mae'n gofyn am amod cofrestru cychwynnol a pharhaus i sicrhau bod Medr yn "fodlon ynghylch yr wybodaeth a ddarperir gan y darparwr addysg drydyddol sy'n ymgeisio i ddarpar fyfyrwyr am y darparwr, ei gyrsiau, a thelerau ac amodau ei gontractau gyda myfyrwyr."

### Gofynion Cydymffurfio

Er mwyn cydymffurfio â'r amod hwn, rhaid i ddarparwyr wneud y canlynol:

1. **glynu wrth ddeddfwriaeth berthnasol:** er enghraifft, Cyngor ynghylch Cyfraith Defnyddwyr Addysg Uwch i Ddarparwyr fel yr amlinellwyd gan lywodraeth y DU. Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) yw prif awdurdod cystadleuaeth a defnyddwyr y DU, ac nid yw ein disgwyliadau yn fwy na disgwyliadau'r awdurdod hwnnw
2. **darparu gwybodaeth glir a chywir:** sicrhau bod yr holl ddeunyddiau marchnata, gwybodaeth am gyrsiau, a thelerau cytundebol yn gywir, yn glir, ac nad ydynt yn gamarweiniol
3. **sicrhau telerau teg:** adolygu contractau a thelerau ac amodau myfyrwyr yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn deg ac yn cydymffurfio â chyfraith diogelu defnyddwyr

4. **sicrhau hygyrchedd gwybodaeth:** sicrhau bod yr holl ddeunyddiau marchnata, gwybodaeth am gyrsiau a thelerau cytundebol yn hygyrch i'r ystod amrywiol o ddarpar fyfyrwyr yng Nghymru
5. **sicrhau diweddariadau amserol:** dylai darparwyr sicrhau bod gwybodaeth am gyrsiau yn cael ei diweddaru'n amserol, gan gydnabod y gellir trefnu rhai diweddariadau i gyd-fynd â chylchoedd gweithredol a llywodraethu

## Monitro

Bydd Medr yn monitro cydymffurfedd â'r amod hwn yn y ffyrdd canlynol (i gael diffiniadau o'r rhain, gweler dull Medr o fonitro):

- **Ffurflen Sicrwydd Flynyddol:** fel rhan o Ffurflen Sicrwydd Flynyddol Medr, **bydd** disgwyl i ddarparwyr hunan-ddatgan eu bod wedi ateb gofynion cydymffurfio'r amod. <u>Dyma fydd y prif ffynhonnell fonitro ar gyfer yr amod hwn</u>
- **monitro gwefan y darparwr:** gall Medr fonitro gwefannau darparwyr – yn enwedig lle mae problemau cydymffurfio blaenorol wedi'u nodi
- **cyflwyniadau pryderon rheoleiddiol a monitro cwynion:** mewn achosion lle mae pryderon a gyflwynir i Medr, neu ddadansoddiad o ddata cwynion, yn nodi themâu neu faterion systemig sy'n ymwneud â gwybodaeth a ddarperir i ddarpar fyfyrwyr
- **Digwyddiadau y Mae'n Rhaid eu Hadrodd:** mewn achosion lle mae'r digwyddiadau hynny'n ymwneud â gwybodaeth a ddarparwyd i ddarpar fyfyrwyr
- **ffynonellau sicrwydd annibynnol:** er enghraifft, drwy'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) neu Gomisiynydd y Gymraeg

Mae'n bosibl y bydd darparwyr sydd â hanes blaenorol o beidio â chydymffurfio, sy'n dangos tueddiadau o ddirywiad mewn data neu sy'n wynebu risg o beidio â chydymffurfio yn y dyfodol yn destun craffu mwy dwys. Bydd peidio â chydymffurfio â gofynion monitro yn ysgogi ymchwiliadau pellach ac ymyriadau posibl.

## Adolygu a Diwygio

Bydd Medr yn adolygu'r amod hwn yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag anghenion esblygol y sector, newidiadau i bolisïau ac adborth gan randdeiliaid

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

## Amod: Terfynau Ffioedd

**Rhaid** i ddarparwr sydd wedi cofrestru gyda Medr yn y categori Craidd Addysg Uwch sicrhau'r canlynol:

- bod ganddo ddatganiad terfyn ffioedd wedi'i gymeradwyo gan Medr
- nad yw ffioedd cwrs rheoleiddiedig yn fwy na'r terfyn ffioedd perthnasol

### Categori Amod

Mae hwn yn amod cofrestru parhaus. Mae'r amod hwn yn berthnasol yn benodol i ddarparwyr sydd wedi'u cofrestru gyda Medr yn y categori craidd yn unig.

Rhaid i'r darparwr gadw at y terfynau ffioedd a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pob cwrs cymwys drwy gydol ei gyfnod cofrestru. Ni fydd yr Amod Terfyn Ffioedd yn berthnasol i Gategori Amgen Addysg Uwch. Bydd cyrsiau addysg uwch lefel israddedig amser llawn perthnasol darparwyr sy'n cofrestru yn y categori Amgen Addysg Uwch yn cael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth ffioedd dysgu ar y gyfradd is.

### Sail Gyfreithiol

O dan Adran 32 o **Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022** (y Ddeddf), mae'n ofynnol i ddarparwyr gyflwyno a glynu wrth Ddatganiad Terfyn Ffioedd sy'n manylu ar y ffioedd uchaf y gellir eu codi ar gyfer pob cwrs cymwys. Rhaid i'r ffioedd a godir beidio â bod yn uwch na'r terfynau ffioedd cymeradwy.[21]

### Gofynion Cydymffurfio

Yn unol ag Adrannau 46, 47 a 48 o'r Ddeddf, **rhaid** i'r darparwr gyflwyno datganiad terfyn ffioedd, sy'n:

[21] **Nid oes angen** nodi costau cwrs ychwanegol pellach (e.e. deunyddiau, teithiau maes) fel rhan o'r datganiad terfyn ffioedd. Fodd bynnag, dylent fod ar gael i ddarpar fyfyrwyr mewn fformatau hygyrch, fel tudalennau gwe cyrsiau neu lythyrau cynnig. Nid yw'r costau hyn yn rhan o'r "ffioedd" fel y'u diffinnir o dan Adran 84 o'r Ddeddf, ac felly nid ydynt yn rhan o'r "terfyn ffioedd"

1. nodi’r uchafswm ffioedd sy'n daladwy ar gyfer pob cwrs cymwys, ac mae'n rhaid iddo:

   (a) nodi terfyn ffioedd, neu
   (b) darparu ar gyfer pennu terfyn ffioedd.

   **Rhaid** rhestru'r holl gyrsiau cymwys (gellir eu grwpio yn ôl campws a math o gymhwyster) y mae'r terfyn ffioedd yn berthnasol iddynt, gan gynnwys y rhai a ddarperir ar ei ran. Gall datganiad terfyn ffioedd nodi terfynau ffioedd gwahanol, neu ddarparu ar gyfer penderfynu arnynt, mewn perthynas â chyrsiau gwahanol ac mewn perthynas â blynyddoedd academaidd perthnasol gwahanol.

2. nodi’r dyddiad y daw i rym a rhaid i unrhyw amrywiad i ddatganiad terfyn ffioedd nodi’r dyddiad pan fo’r amrywiad yn dod i rym

3. bod wedi'i ddatblygu mewn ymgynghoriad ag undeb y myfyrwyr neu gyrff cynrychioli, ac sydd felly'n adlewyrchu mewnbwn myfyrwyr ar y strwythurau ffioedd arfaethedig a'u heffaith bosibl ar fynediad a chynhwysiant. Dylai ymgynghori â chyrff myfyrwyr fod yn gymesur â strwythur llywodraethu'r darparwr a gall gynnwys arolygon, grwpiau ffocws, neu “gynrychiolaeth ffurfiol”

4. lle mae datganiad terfyn ffioedd yn nodi terfyn ffioedd mewn perthynas â blwyddyn a chwrs, **rhaid** i'r terfyn ffioedd a nodir beidio â bod yn uwch na pha bynnag swm a nodir mewn rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru at ddibenion yr adran hon ("yr uchafswm")

5. lle mae datganiad terfyn ffioedd yn darparu ar gyfer penderfynu ar derfyn ffioedd mewn perthynas â blwyddyn a chwrs, **rhaid** i'r datganiad nodi na ddylai’r terfyn ffioedd a benderfynir yn unol â'r datganiad fod yn uwch na'r uchafswm

Os caiff ei gymeradwyo gan Medr:

6. **rhaid** i gorff llywodraethu'r darparwr y mae'r datganiad yn ymwneud ag ef gyhoeddi'r datganiad (ac unrhyw amrywiad cymeradwy i’r datganiad neu ddatganiad arall a gymeradwywyd yn ei le)

7. **rhaid** i'r corff llywodraethu ystyried yr angen i wneud y datganiad yn hygyrch i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr

**Gall** corff llywodraethu darparwr sydd â datganiad terfyn ffioedd cymeradwy wneud cais i Medr gymeradwyo amrywiad i’r datganiad neu ddatganiad arall yn ei le, ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd.

### Monitro

Bydd Medr yn monitro cydymffurfedd â'r amod hwn yn y ffyrdd canlynol (i gael diffiniadau o'r rhain, gweler dull Medr o fonitro):

- **ar adeg ymgeisio**: bydd datganiad terfyn ffioedd cymeradwy o'r adeg cofrestru yn ofynnol ond **bydd ond yn berthnasol yn weithredol o flwyddyn academaidd 2027/28**, oni nodir yn wahanol yn y rheoliadau

- **datganiad terfyn ffioedd**: **rhaid** cyflwyno'r datganiad i Medr i'w gymeradwyo cyn dechrau pob blwyddyn academaidd a rhaid ei gyhoeddi mewn modd sy'n hygyrch i ddarpar fyfyrwyr a myfyrwyr presennol. Bydd Medr yn darparu templedi ar gyfer datganiadau terfyn ffioedd i ategu cysondeb a lleihau baich gweinyddol
- **Ffurflen Sicrwydd Flynyddol:** fel rhan o Ffurflen Sicrwydd Flynyddol Medr, bydd disgwyl i ddarparwyr hunan-ddatgan eu bod wedi ateb gofynion cydymffurfio'r amod – yn enwedig eu bod yn sicrhau nad yw ffioedd cwrs rheoleiddiedig wedi mynd y tu hwnt i'r terfyn ffioedd cymwys
- **monitro gwefan y darparwr:** gall Medr fonitro gwefannau darparwyr – er mwyn sicrhau bod safonau cyhoeddi yn cael eu bodloni
- **cyflwyniadau pryderon rheoleiddiol a monitro cwynion:** mewn achosion lle mae pryderon a gyflwynir i Medr, neu ddadansoddiad o ddata cwynion, yn ymwneud â gwybodaeth anghywir am ffioedd
- **Digwyddiadau y Mae’n Rhaid eu Hadrodd**: mewn achosion lle mae'r digwyddiadau hynny'n ymwneud â therfynau ffioedd
- **monitro data**: lle yr adnabyddir anghysonderau rhwng datganiadau terfyn ffioedd a lefelau ffioedd gwirioneddol

Mae’n bosibl y bydd darparwyr sydd â hanes blaenorol o beidio â chydymffurfio yn destun craffu mwy dwys. Bydd peidio â chydymffurfio â gofynion monitro yn ysgogi ymchwiliadau pellach ac ymyriadau posibl.

### Adolygu a Diwygio

Bydd Medr yn adolygu'r amod hwn yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag anghenion esblygol y sector, newidiadau i bolisïau ac adborth gan randdeiliaid.

# Templed ar gyfer Datganiad Terfyn Ffioedd

| Datganiad Terfyn Ffioedd | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | **Dylai** datganiadau terfyn ffioedd fod yn ddogfennau unigol a **dylai** enw'r darparwr fod wedi'i nodi'n glir. |
| Hyd y datganiad terfyn ffioedd a'r dyddiad y daw i rym | **Rhaid** i ddatganiad terfyn ffioedd nodi'r dyddiad y daw i rym a **rhaid** i unrhyw amrywiad i ddatganiad terfyn ffioedd nodi'r dyddiad pan fo'r amrywiad yn dod i rym. Y flwyddyn academaidd sy'n dechrau ar 1 Awst 2027 fydd y flwyddyn gyntaf y bydd y datganiadau terfyn ffioedd hyn yn weithredol. Mae'n ofynnol i ddarparwyr lunio datganiad terfyn ffioedd cymeradwy er mwyn cofrestru. |
| **Adran 1 - Lefelau ffioedd** | |
| **Adran 1.1 – Lefelau ffioedd neu benderfynu ar lefel ffi ym mhob lleoliad** | |
| **Lefel y ffi** | **Lleoliad y cwrs** |
| Nodwch bob lefel ffi a fydd yn cael ei chodi gan y darparwr. | Nodwch:<br><br>• y flwyddyn/blynyddoedd academaidd y mae'r ffi'n berthnasol iddi/iddynt<br>• pob lleoliad lle bydd y ffi a restrir yn y golofn ar y chwith yn cael ei chodi<br>• y cymwysterau a fydd yn cael eu darparu yn y lleoliadau hynny am y ffi honno<br><br>Gall lleoliadau gynnwys campysau'r darparwr a lleoliadau elusennau eraill sy'n darparu ar ran y darparwr. |
| | Nodwch: |

| | |
|---|---|
| | • y flwyddyn/blynyddoedd academaidd y mae'r ffi'n berthnasol iddi/iddynt<br>• pob lleoliad lle bydd y ffi a restrir yn y golofn ar y chwith yn cael ei chodi<br>• y cymwysterau a fydd yn cael eu darparu yn y lleoliadau hynny am y ffi honno<br><br>Gall lleoliadau gynnwys campysau'r darparwr a lleoliadau elusennau eraill sy'n darparu ar ran y darparwr. |
| | Nodwch:<br><br>• y flwyddyn/blynyddoedd academaidd y mae'r ffi'n berthnasol iddi/iddynt<br>• pob lleoliad lle bydd y ffi a restrir yn y golofn ar y chwith yn cael ei chodi<br>• y cymwysterau a fydd yn cael eu darparu yn y lleoliadau hynny am y ffi honno<br><br>Gall lleoliadau gynnwys campysau'r darparwr a lleoliadau elusennau eraill sy'n darparu ar ran y darparwr. |
| Nodwch bob lefel ffi a fydd yn cael ei chodi gan y darparwr. | Nodwch:<br><br>• y flwyddyn/blynyddoedd academaidd y mae'r ffi'n berthnasol iddi/iddynt<br>• pob lleoliad lle bydd y ffi a restrir yn y golofn ar y chwith yn cael ei chodi<br>• y cymwysterau a fydd yn cael eu darparu yn y lleoliadau hynny am y ffi honno<br><br>Gall lleoliadau gynnwys campysau'r darparwr a lleoliadau elusennau eraill sy'n darparu ar ran y darparwr. |
| | Nodwch:<br><br>• y flwyddyn/blynyddoedd academaidd y mae'r ffi'n berthnasol iddi/iddynt<br>• pob lleoliad lle bydd y ffi a restrir yn y golofn ar y chwith yn cael ei chodi<br>• y cymwysterau a fydd yn cael eu darparu yn y lleoliadau hynny am y ffi honno |

<table>
<tr><td></td><td>Gall lleoliadau gynnwys campysau'r darparwr a lleoliadau elusennau eraill sy'n darparu ar ran y darparwr.</td></tr>
<tr><td></td><td>Nodwch:<br><br>• y flwyddyn/blynyddoedd academaidd y mae'r ffi'n berthnasol iddi/iddynt<br>• pob lleoliad lle bydd y ffi a restrir yn y golofn ar y chwith yn cael ei chodi<br>• y cymwysterau a fydd yn cael eu darparu yn y lleoliadau hynny am y ffi honno<br><br>Gall lleoliadau gynnwys campysau'r darparwr a lleoliadau elusennau eraill sy'n darparu ar ran y darparwr.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Adran 1.2 – Lefelau ffioedd cyfanredol</td></tr>
<tr><td colspan="2">Rhaid i'r darparwr gynnwys datganiad i ddarpar fyfyrwyr a myfyrwyr cyfredol sy'n nodi naill ai:<br><br>• y ffioedd cyfanredol am gwblhau'r cwrs a'r sail ar gyfer unrhyw gynnydd posibl mewn ffioedd tra pery'r cwrs, neu<br>• gadarnhad na fydd unrhyw gynnydd mewn ffioedd tra pery'r cwrs.<br><br>Rhaid i'r datganiad hwn adlewyrchu'r holl lefelau ffioedd gwahanol a fydd yn cael eu codi a nodi ble y bydd yr wybodaeth hon yn cael ei darparu.</td></tr>
</table>

## Awdurdodi’r datganiad terfyn ffioedd (sy’n ofynnol ar gyfer cyhoeddi)

Wrth awdurdodi’r cais am ddatganiad terfyn ffioedd, mae’r corff llywodraethu (neu gorff cyfatebol):

i. wedi gweld ac ystyried tystiolaeth briodol i ategu’r datganiadau a wneir yn y cais hwn;

ii. yn cadarnhau yr ymgynghorwyd yn briodol â’r undeb myfyrwyr neu gyrff cynrychioli eraill, gan gynnwys y rhai sy’n astudio yn y darparwr ac mewn darparwyr eraill lle darperir addysg ar ei ran, a’i fod felly’n adlewyrchu mewnbwn myfyrwyr ar y strwythurau ffioedd arfaethedig a’u heffaith bosibl ar fynediad a chynhwysiant

iii. yn cadarnhau bod costau ychwanegol cyrsiau (e.e. deunyddiau, teithiau maes) yn cael eu darparu mewn fformatau hygyrch, megis tudalennau gwe cyrsiau neu lythyrau o gynnig.

iv. yn cadarnhau bod yr wybodaeth a ddarperir yn y datganiad terfyn ffioedd hwn yn gywir ac yn gyfredol, ar adeg ei ysgrifennu, ac yn seiliedig ar ddata gwiriadwy;

v. yn cadarnhau bod yr holl gyrsiau cymwys y mae terfynau ffioedd statudol yn berthnasol iddynt (naill ai gan y darparwr neu ar ei ran) wedi’u hystyried yn y datganiad hwn, ni waeth beth fo lefel neu leoliad y ddarpariaeth;

vi. yn deall bod **rhaid** i unrhyw ymrwymiadau ariannol i fyfyrwyr a wneir yn y datganiad terfynau ffioedd, fel y’u cymeradwywyd gan Medr, gael eu hanrhydeddu;

vii. yn cadarnhau y bydd yn cynnal lefelau cymorth i fyfyrwyr;

viii. yn cadarnhau y bydd y darparwr yn sicrhau bod copi o’r datganiad terfyn ffioedd yn gallu cael ei wneud yn hygyrch i’w fyfyrwyr a’i ddarpar fyfyrwyr mewn unrhyw fformat rhesymol;

ix. yn rhoi ystyriaeth ddyledus i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Medr wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022

| Cais am ddatganiad terfyn ffioedd i Medr[22] | |
|---|---|
| Dyddiad y'i cymeradwywyd gan y corff llywodraethu (neu gorff cyfatebol): | |
| Llofnod awdurdodedig y corff llywodraethu (neu gorff cyfatebol): | |
| Dyddiad: | |
| **Cais terfynol am ddatganiad terfyn ffioedd unwaith y mae Medr wedi cadarnhau nad oes ganddo unrhyw faterion eraill (lle y bo'n berthnasol)** | |
| Dyddiad y'i cymeradwywyd gan y corff llywodraethu (neu gorff cyfatebol): | |
| Llofnod awdurdodedig y corff llywodraethu (neu gorff cyfatebol): | |
| Dyddiad: | |

[22] **Rhaid** i ddatganiadau terfyn ffioedd a gyhoeddir ar wefannau'r darparwr gynnwys fersiynau a gymeradwywyd gan Medr yn unig.

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

## Amod: Hysbysu am Newidiadau sy'n Effeithio ar Gywirdeb Gwybodaeth yn y Gofrestr

**Rhaid** i gorff llywodraethu (neu gorff cyfatebol) darparwr sydd wedi cofrestru gyda Medr:

- hysbysu Medr am unrhyw newid y daw'n ymwybodol ohono sy'n effeithio ar gywirdeb gwybodaeth a gynhwysir yng nghofnod y darparwr yn y Gofrestr

### Categori Amod

Mae hwn yn amod cofrestru parhaus.

### Sail Gyfreithiol

O dan Adran 31 o **Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022** (y Ddeddf) mae'n ofynnol i Medr gynnwys "amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu'r darparwr hysbysu'r Comisiwn am unrhyw newid y mae'n dod yn ymwybodol ohono sy'n effeithio ar gywirdeb yr wybodaeth a gynhwysir yng nghofnod y darparwr yn y Gofrestr."

Mae Adran 25 o'r Ddeddf yn nodi y gall Gweinidogion Cymru, trwy reoliadau, wneud darpariaeth ynglŷn â'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yng nghofnod darparwr addysg drydyddol yn y Gofrestr. Mae Rheoliad 12 yn **Rheoliadau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cofrestru a Dadgofrestru Darparwyr Addysg Drydyddol yng Nghymru) 2024** yn nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yng nghofnod darparwr addysg drydyddol yn y Gofrestr.

### Gofynion Cydymffurfio

I fodloni'r amod cofrestru parhaus hwn, **rhaid** i gorff llywodraethu'r darparwr ateb y gofynion canlynol:

**1. Hysbysu Medr am unrhyw newid sy'n effeithio ar gywirdeb ei gofnod yn y gofrestr**

**Rhaid** i'r darparwr roi gwybod i Medr bryd bynnag y bydd unrhyw wybodaeth a gyhoeddwyd yn ei gofnod yn y Gofrestr bellach yn anghywir

## 2. Cyflwyno'r hysbysiad o fewn 28 diwrnod calendr

**Rhaid** darparu hysbysiad o fewn 28 diwrnod calendr i'r dyddiad y digwyddodd y newid, neu y daeth y darparwr yn ymwybodol ohono

## 3. Darparu digon o dystiolaeth i wirio'r newid

**Rhaid** i bob hysbysiad gynnwys tystiolaeth sy'n gymesur â natur y newid ac yn galluogi Medr i gadarnhau y dylid diweddaru'r cofnod yn y Gofrestr

## 4. Defnyddio dull hysbysu gofynnol Medr

**Rhaid** i'r darparwr gyflwyno'r wybodaeth ofynnol trwy'r broses hysbysu a nodir gan Medr

## 5. Cynnal trefniadau mewnol i adnabod newidiadau perthnasol

**Rhaid** i'r darparwr sicrhau bod ganddo brosesau mewnol addas i adnabod newidiadau sy'n effeithio ar ei gofnod yn y Gofrestr i gyflwyno hysbysiadau amserol i Medr

### Gwybodaeth y Mae'n Rhaid ei Chynnwys yng Nghofnod Darparwr Addysg Drydyddol yn y Gofrestr

Mae'r amod hwn yn ymwneud â'r holl ofynion canlynol o ran gwybodaeth yng nghofnod darparwr addysg drydyddol yn y Gofrestr:

(a) enw'r darparwr, gan gynnwys unrhyw enwau masnachu neu enwau a roddwyd gan neu yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad neu Siarter Frenhinol,
(b) lle mae enw'r darparwr yn cynnwys y gair "prifysgol", a gafodd ac, os felly, pryd y cafodd, defnydd o'r gair hwnnw—

   i. ei awdurdodi trwy Siarter Frenhinol,
   ii. gydsyniad gan y Cyfrin Gyngor dan adran 77(1) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(7),
   iii. ei gymeradwyo gan y Cyfrin Gyngor at ddibenion adran 39(1)(b) neu (2) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(8), neu
   iv. ei awdurdodi trwy neu yn rhinwedd unrhyw ddarpariaeth arall dan un o Ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig,

(c) cyfeiriad, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn y gellir eu defnyddio i gysylltu â'r darparwr,
(d) cyfeiriad prif fan busnes y darparwr, neu sy'n addas fel arall ar gyfer cyflwyno dogfennau i'r darparwr,
(e) cyfeiriad y brif wefan a gynhelir gan, neu ar ran, y darparwr,
(f) y math o addysg drydyddol a ddarperir gan, neu ar ran, y darparwr,
(g) y categori y mae'r darparwr wedi cofrestru ynddo a'r dyddiad y cofrestrwyd y darparwr yn y categori hwnnw,
(h) pa un a yw amodau cofrestru parhaus y darparwr yn cynnwys amod terfynau ffioedd ac, os felly, manylion sut i gael mynediad at ddatganiad terfyn ffioedd y darparwr fel y'i cymeradwywyd gan y Comisiwn dan adran 47 o'r Ddeddf,
(i) pa un a yw'r darparwr yn elusen ac, os felly—

   i. ei rif cofrestru elusen, neu

ii. os nad yw'r darparwr wedi'i gofrestru gyda rheoleiddiwr elusennau, y rheswm pam nad yw'n ofynnol cofrestru gyda rheoleiddiwr elusennau,

(j) pa un a yw'r darparwr yn gwmni a rhif cofrestru'r cwmni (lle y bo'n berthnasol),
(k) pa un a gafodd ac, os felly, y dyddiad y cafodd, y darparwr ei awdurdodi i roi dyfarniadau a addysgir neu ddyfarniadau ymchwil neu'r ddau—

i. trwy Siarter Frenhinol,
ii. trwy orchymyn gan y Cyfrin Gyngor dan adran 76(1) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(9), neu
iii. trwy neu dan unrhyw ddarpariaeth arall yn un o Ddeddfau Senedd y Deyrnas Unedig,

(l) os yw'r darparwr wedi'i awdurdod i roi dyfarniadau a addysgir neu ddyfarniadau ymchwil neu'r ddau trwy awdurdodiad y cyfeirir ato ym mharagraff (k) uchod, disgrifiad o'r dyfarniadau a addysgir neu'r dyfarniadau ymchwil y mae wedi'i awdurdodi i'w rhoi,
(m) pa un a yw'r darparwr wedi ymrwymo i drefniadau dilysu, ac
(n) pa un a yw'r darparwr wedi ymrwymo i drefniadau breinio.

## Monitro

Bydd Medr yn monitro cydymffurfedd â'r amod hwn yn y ffyrdd canlynol (ar gyfer diffiniadau o'r rhain, gweler dull Medr o fonitro):

- **ar adeg ymgeisio: rhaid** i ddarparwyr ddarparu'r holl wybodaeth y mae'n ofynnol ei chyhoeddi yn y Gofrestr fel y nodir yn Rheoliadau 2024. Gall Medr ofyn am ragor o wybodaeth lle y bo'n angenrheidiol i wirio cywirdeb yr wybodaeth a gyflwynwyd
- **fel amod parhaus: rhaid** i ddarparwyr hysbysu Medr am unrhyw newidiadau i gywirdeb gwybodaeth a gofnodwyd ar y gofrestr (yn unol â'r gofynion cydymffurfio a nodir yn yr amod hwn). Gall Medr ofyn am wybodaeth gan ddarparwr os yw'n dymuno gwirio cywirdeb gwybodaeth a ddangosir ar y Gofrestr, neu i ymchwilio i unrhyw bryderon a all fod wedi cael eu dwyn i'w sylw y gallai gwybodaeth fod yn anghywir neu wedi dyddio
- **Ffurflen Sicrwydd Flynyddol:** fel rhan o Ffurflen Sicrwydd Flynyddol Medr, **bydd** disgwyl i ddarparwyr hunanddatgan eu bod wedi ateb gofynion cydymffurfio'r amod. <u>Dyma fydd y brif ffynhonnell fonitro ar gyfer yr amod hwn</u>
- **Digwyddiadau y Mae'n Rhaid eu Hadodd**: mewn achosion lle mae'r digwyddiadau hynny'n berthnasol i'r amod hwn

Mae'n bosibl y bydd darparwyr sydd â hanes blaenorol o beidio â chydymffurfio, sy'n dangos tueddiadau o ddirywiad mewn data neu sy'n wynebu risg o beidio â chydymffurfio yn y dyfodol yn destun craffu mwy dwys.

Bydd methu â chydymffurfio â gofynion monitro yn ysgogi ymchwiliad pellach ac ymyriadau posibl.

## Adolygu a Diwygio

Bydd Medr yn adolygu'r amod hwn yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag anghenion esblygol y sector, newidiadau polisi ac adborth gan randdeiliaid.

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

## Amod: Statws fel Darparwr Addysg Drydyddol yng Nghymru

**Rhaid** i gorff llywodraethu (neu gorff cyfatebol) darparwr sydd wedi cofrestru gyda Medr:

- hysbysu Medr am unrhyw newid y daw'n ymwybodol ohono sy'n effeithio, neu a allai effeithio, ar statws y darparwr fel darparwr addysg drydyddol yng Nghymru

### Categori Amod

Mae hwn yn amod cofrestru parhaus.

### Sail Gyfreithiol

Mae Adran 144 o **Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022** (y Ddeddf) yn diffinio "darparwr addysg drydyddol yng Nghymru" fel:

"Sefydliad sy'n darparu addysg drydyddol, gan gynnwys addysg drydyddol a ddarperir ar ei ran, y cynhelir ei weithgareddau yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru."

Mae'r diffiniad statudol hwn yn pennu cymhwystra i gofrestru ac yn darparu'r sylfaen ar gyfer asesu a yw darparwr yn parhau i ateb y gofyniad daearyddol.

O dan Reoliadau 10(c) ac 11(b) **Rheoliadau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cofrestru a Dadgofrestru Darparwyr Addysg Drydyddol yng Nghymru) 2024** mae'n ofynnol i Medr orfodi "amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu'r darparwr hysbysu'r Comisiwn am unrhyw newid y mae'n dod yn ymwybodol ohono sy'n effeithio ar statws y darparwr fel darparwr addysg drydyddol yng Nghymru."

Wrth gymhwyso'r amod hwn, bydd Medr yn rhoi sylw i Adran 144(8) o'r Ddeddf. Mae darparu addysg drydyddol gan, neu ar ran, darparwr addysg drydyddol yng Nghymru'n cynnwys cyrsiau a ddarperir:

- mewn un neu ragor o leoedd yng Nghymru neu mewn mannau eraill;

- trwy gyfrwng gohebiaeth, offer, neu gyfleuster arall sy'n galluogi personau nad ydynt yn yr un lle (pa un ai yng Nghymru neu mewn mannau eraill) i gymryd rhan yn yr addysg drydyddol; neu
- drwy unrhyw gyfuniad o'r dulliau hynny

Yn unol ag Adran 144(10), caiff addysg drydyddol a ddarperir y tu allan i Gymru ei thrin fel addysg drydyddol a ddarperir yng Nghymru lle mae'n rhan o gwrs a ddarperir yn bennaf yng Nghymru.

### Gofynion Cydymffurfio

Mae Rheoliadau 10(c) ac 11(b) yn **Rheoliadau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cofrestru a Dadgofrestru Darparwyr Addysg Drydyddol yng Nghymru) 2024** yn ei gwneud yn ofynnol i Medr orfodi "amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu'r darparwr hysbysu'r Comisiwn am unrhyw newid y mae'n dod yn ymwybodol ohono sy'n effeithio ar statws y darparwr fel darparwr addysg drydyddol yng Nghymru."

### Newidiadau sy'n Effeithio ar Statws y Darparwr fel Darparwr Addysg Drydyddol yng Nghymru

Mae'r amod hwn yn ymwneud â'r canlynol, sy'n effeithio'n berthnasol ar allu darparwr i gael ei gynnwys ar y gofrestr:

(a) newid i statws y darparwr fel darparwr addysg drydyddol yng Nghymru

Os tybir nad yw unrhyw ddarparwr yn darparu darpariaeth drydyddol a gynhelir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru mwyach, ni fyddant yn gymwys ar gyfer cofrestriad (parhaus) gyda Medr.

### Diffiniad o "Y Cynhelir ei Weithgareddau yn Gyfan Gwbl neu'n Bennaf yng Nghymru"

Mae Medr yn dehongli "y cynhelir ei weithgareddau yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru" fel ei fod yn cyfeirio at sylwedd a chraidd disgyrchiant cyffredinol gweithgareddau addysg drydyddol darparwr, gan gynnwys addysg drydyddol a ddarperir ar ei ran, yn unol ag Adran 144 o'r Ddeddf. Wrth ffurfio'r dyfarniad hwn, gall Medr ystyried ystod o ddangosyddion. Mae'r ffactorau hyn yn ategu asesiad bod gweithgareddau darparwr yn cael eu cynnal "yn gyfan gwbl neu'n bennaf" yng Nghymru:

- mae wedi'i sefydlu'n gyfreithiol yng Nghymru; ac
- mae ei brif fan busnes yng Nghymru; ac
- mae ei addysg drydyddol yn y DU yn cael ei chynnal yng Nghymru yn bennaf, gan gynnwys addysg drydyddol a ddarperir ar ei ran (megis trwy drefniant breinio neu ddarpariaeth a is-gontractiwyd)

Mae'r dangosyddion hyn yn eistedd ochr yn ochr â thystiolaeth feintiol ac ansoddol arall sy'n ymwneud ag addysgu, asesu, cymorth i ddysgwyr, sicrhau ansawdd, llywodraethu academaidd, a goruchwyliaeth ar unrhyw weithgaredd a gyflawnir ar ran y darparwr.

Bydd Medr yn ystyried cydbwysedd y dystiolaeth ar y cyfan wrth benderfynu ble mae gweithgareddau darparwr yn cael eu cynnal yn bennaf.

**Mae addysg drydyddol yn cynnwys:**

- cyflawni dysgu ac addysgu
- asesu a goruchwyliaeth academaidd
- dylunio cyrsiau a datblygu cwricwlwm
- gwasanaethau cymorth i ddysgwyr
- sicrhau ansawdd a chydymffurfio
- swyddogaethau gweinyddol sy'n cefnogi dysgu'n uniongyrchol

Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys y rhai a ddarperir gan y darparwr a'r rhai a ddarperir ar ei ran, gan adlewyrchu'r diffiniad statudol.

**Dehongli:**

- mae 'yn bennaf' yn golygu, wrth ystyried yr holl addysg drydyddol yn ei chrynswth, bod y mwyafrif o'r swyddogaethau hynny'n digwydd yng Nghymru
- nid yw'r un elfen unigol (e.e. lleoliad y dysgu) yn benderfynodol; mae'r cydbwysedd ar y cyfan yn berthnasol
- nid yw darpariaeth dramor wedi'i chynnwys yn y gymhariaeth

Mae hyn yn adlewyrchu trefniadau cyfredol dan reoliadau cymorth i fyfyrwyr yng Nghymru, lle nad yw cyrsiau a ddarperir y tu allan i'r DU yn gymwys ar gyfer cymorth statudol. Felly, nid yw gweithgarwch tramor wedi'i gynnwys yn y gymhariaeth wrth asesu a yw darparwr yn gweithredu 'yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru'.

Nid yw'r ymadrodd "yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru" yn cael ei benderfynu gan ganran benodedig o niferoedd myfyrwyr. Er bod lleoliad yr addysgu ac asesu'n berthnasol, nid yw'n derfynol. Gall darparwr ddal i fod o fewn y cwmpas hyd yn oed os yw llai na 50% o'i fyfyrwyr sydd wedi'u lleoli yn y DU yn astudio yng Nghymru, ar yr amod bod ffactorau eraill yn dangos bod gweithrediadau'r darparwr wedi'u hangori'n bennaf yng Nghymru.

Bydd Medr yn ystyried addysg drydyddol yn holistaidd wrth benderfynu a yw darparwr yn gweithredu 'yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru'. Nid yw'r un ffactor unigol yn benderfynodol; mae cydbwysedd y dystiolaeth ar y cyfan o bwys. **Dylai** darparwyr allu dangos sut y mae eu trefniadau llywodraethu, sicrhau ansawdd, a chymorth i ddysgwyr wedi'u gwreiddio yng Nghymru.

**Darparu ar-lein:**

Mae gweithgarwch ar-lein yn cyfrif fel gweithgarwch yng Nghymru os yw trefniadau llywodraethu, sicrhau ansawdd, a chymorth craidd i ddysgwyr wedi'u lleoli yng Nghymru.

### Monitro

Bydd Medr yn monitro cydymffurfedd â'r amod hwn yn y ffyrdd canlynol (ar gyfer diffiniadau o'r rhain, gweler dull Medr o fonitro):

- **ar adeg ymgeisio: rhaid** i ddarparwyr ddangos sut y mae eu gweithgareddau'n cyd-fynd â'r diffiniad statudol o *ddarparwr addysg drydyddol yng Nghymru* o dan Adran 144, gan gynnwys gweithgareddau a ddarperir ar eu rhan
- **Ffurflen Sicrwydd Flynyddol:** fel rhan o Ffurflen Sicrwydd Flynyddol Medr, bydd disgwyl i ddarparwyr hunanddatgan eu bod wedi ateb gofynion cydymffurfio'r amod. Dyma fydd y brif ffynhonnell fonitro ar gyfer yr amod hwn
- **Digwyddiadau y Mae'n Rhaid eu Hadrodd**: mewn achosion lle mae'r digwyddiadau hynny'n berthnasol i'r amod hwn
- **monitro data:** mynd ati'n flynyddol i fonitro data a gwybodaeth sy'n ymwneud a'r Amod Statws fel Darparwr Addysg Drydyddol yng Nghymru

Mae'n bosibl y bydd darparwyr sydd â hanes blaenorol o beidio â chydymffurfio, sy'n dangos tueddiadau o ddirywiad mewn data neu sy'n wynebu risg o beidio â chydymffurfio yn y dyfodol yn destun craffu mwy dwys. Bydd peidio â chydymffurfio â gofynion monitro yn ysgogi ymchwiliadau pellach ac ymyriadau posibl.

### Adolygu a Diwygio

Bydd Medr yn adolygu'r amod hwn yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag anghenion esblygol y sector, newidiadau i bolisïau ac adborth gan randdeiliaid.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government